

**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

1pm – 27 Gorffennaf 2023

Wyneb yn Wyneb yn Ystafell Gynhadledd 1 ac Ar-lein ar Microsoft Teams


AGENDA

Yn bresennol:

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:	
Rachel Barber – Cadeirydd John Cunliffe Allan Rainford	Julie Perkins Sarah Davies
SWYDDOGION YR HEDDLU:	
Seb Phillips – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Guto Edwards – Pennaeth Cyllid Helen Williams – Cyfrifydd Rheolaeth Ariannol Anne Matthews – Swyddog Cyllid a Chyllidebau Prif Uwcharolygydd Dros Dro Simon Williams – Gwasanaethau Corfforaethol	James Sutton – Pennaeth Cudd-wybodaeth/Cadeirydd Bwrdd Sicrwydd Phil Kenyon – Cyfreithiwr yr Heddlu Matt Stewart – Pennaeth Corfforaethol Cynllunio Strategol
SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:	
Stephen Hughes - Prif Swyddog Gweithredol Kate Jackson - Prif Swyddog Cyllid	Angharad Jones - Cynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr
POBL ERAILL YN BRESENNOL	
Helen Cargill, TIAA	Michelle Phoenix, Archwilio Cymru

	Eitemau Sefydlog		Diben	Tudalen	Amser
1	Ymddiheuriadau a Datganiadau o Ddiddordeb	Cadeirydd			
2	Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2022 yn gywir.	Cadeirydd			5 mun
3	Cofnod Gweithrediadau	Cadeirydd			5 mun
	Eitemau Sefydlog				
4	Diweddariad Sefydliadol	Prif Swyddog Gweithredo/Chyfarwyd dwr Cyllid ac Adnoddau	Gwybodaeth		10 mun

5	Diweddariad AHEM a Dilynwr Gweithrediadau	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	Sicrwydd		10 mun
6	Archwilio Mewnol a. SICA Archwilio Mewnol 2022/23 – yn cynnwys Cynllun Archwiliad 23/24 b. Adroddiad Rheolwyr	a. Archwilio Mewnol b. Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Swyddog Cyllideb	Sicrwydd		10 mun
7	Diweddariad Risgiau - Datblygiad Proses Risg a Chofrestr Risgiau Bresennol - Cofrestr Risg SCHTh	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes Prif Swyddog Gweithredol/Prif Swyddog Cyllid	Sicrwydd		10 mun
8	Rhaglen Waith 2023/24	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Phrif Swyddog Cyllid	Penderfyniad		5 mun
Eitemau Sefydlog					
9	Archwilio Cymru – Cynllun Blynyddol ac Amcanbris Costau	Archwilio Cymru	Gwybodaeth	I ddilyn	5 mun
10	Datganiad Rheoli'r Heddlu	Prif Uwcharolygydd Pennaeth Corfforaethol/Pennaeth Corfforaethol Cynllunio Strategol	Sicrwydd	Llafar	20 mun
11	Diweddariad y CA – Rhaglen gyfalaf (alldro ac edrych ymlaen)	Pennaeth Cyllid	Gwybodaeth	Llafar	10 mun
12	Cyflawniad Rheoli'r Trysorlys	Pennaeth Cyllid	Gwybodaeth		5 mun
13	Diweddariad Llywodraethu – gan gynnwys Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Chylch Gorchwyl y CA	Prif Swyddog Cyllid	Gwybodaeth		10 mun
14	Adroddiad Cyfreithiol	Cyfreithiwr yr Heddlu	Gwybodaeth		5 mun
15	Adroddiad Blynyddol y CA – hunanasesiad ac adroddiad blynyddol	Cadeirydd	Gwybodaeth		10 mun
Unrhyw Fater Arall (Hysbyswch y cadeirydd cyn y cyfarfod)					
DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL 28 Medi 2023 7 Rhagfyr 2023					
		CYFANSWM			2.10hrs



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

**Ystafell Gynhadledd 1 ac Ar-lein (Hybrid)
28 Mawrth 2023 am 13:00**

PRESENNOL

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:

Rachel Barber – Cadeirydd
John Cunliffe
Allan Rainford
Sarah Davies
Julie Perkins

SWYDDOGION YR HEDDLU:

Seb Phillips – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau
Guto Edwards – Pennaeth Cyllid
Helen Williams – Cyfrifydd Rheolaeth Ariannol
Anne Matthews – Swyddog Cyllid a Chyllidebau
Y Prif Uwcharolygydd Dros Dro Helen Corcoran – Gwasanaethau Corfforaethol
James Sutton – Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes
Jenny Parry – Pennaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol

SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:

Wayne Jones – Y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd
Stephen Hughes – Prif Swyddog Gweithredol
Kate Jackson – Prif Swyddog Cyllid
Angharad Jones – Cynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr (cofnodion)

POBL ERAILL YN BRESENNOL

Helen Cargill, TIAA
Michelle Phoenix, Archwilio Cymru

1. YMDDIHEURIADAU A DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau.

Datganiadau o ddiddordeb:

Kate Jackson – perthynas yn gweithio i Archwilio Cymru

2. COFNODION A CHOFNOD GWEITHREDIADAU

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2022 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

3. COFNOD GWEITHREDIADAU

Diweddarwyd y Cofnod Gweithrediadau a bydd yn cael ei gylchredeg gyda'r cofnodion. Y gweithrediadau a argymhellwyd eu cau ac a gytunwyd eu cau oedd 8 Rhagfyr 2022 – 1, 2, 3, 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11.

4. DIWEDDARIAD SEFYDLIADOL

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r adroddiadau gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru a roddodd ddiweddariad am y gwaith a wnaed ers cyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Hydref.

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad gan y Prif Swyddog Gweithredol ar o fewn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ers y cyfarfod diwethaf.

Ers yr ysgrifennwyd yr adroddiad, nododd y Prif Swyddog Gweithredol fod "Adolygiad Casey" wedi'i gyhoeddi ac mae wedi amlygu problemau i'r holl Heddluoedd. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cyfarfod â'r Prif Gwnstabl er mwyn edrych dros yr adroddiad a nodi themâu allweddol er mwyn cynorthwyo a pharhau gyda chraffu parhaus a chynnal y safonau uchelgeisiol disgwylidig.

Mae'r Comisiynydd Plant wedi cyhoeddi adroddiad hefyd ar Noeth Chwilio plant. Nodwyd fod 12 achos wedi bod o blant yn cael eu noeth chwilio yng Ngogledd Cymru. Eto, mae sawl argymhelliad wedi'u nodi ac mae gwaith yn parhau er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu unrhyw argymhellion ac yn monitro o ran y rhain.

Holodd Aelod o'r CA am ganran y swyddogion sydd yn rhan o broses ddisgyblu. Holodd a oedd y ffigyrau hyn yn debyg neu'n uwch/is mewn heddluoedd eraill.

Nododd y Prif Swyddog Gweithredol nad oedd gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd y ffigyrau ar gyfer heddluoedd eraill. Ond cyn gynted ag y nodir unrhyw ffigyrau/ystadegau, fe wnaiff eu rhannu gydag aelodau. Nid ydy'r Prif Swyddog Gweithredol yn credu fod y nifer o dan ymchwiliad ymddygiad yn uchel o fewn yr Heddlu o'i gymharu â heddluoedd tebyg eraill.

Gweithrediad 1	Y Prif Swyddog Gweithredol i rannu canrannau swyddogion o dan weithredu disgyblu o fewn heddluoedd eraill pan y cyhoeddir nhw gydag aelodau'r CA.
-------------------	---

Nododd Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol fod data'r Fframwaith Cyflawniad Trais yn Erbyn Merched ar gyfer pob Heddlu i'w gyhoeddi'n fuan. Rhennir y wybodaeth hon gydag aelodau unwaith maent wedi'u cyhoeddi.

Gweithrediad 2	Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i rannu data'r Fframwaith gydag aelodau'r CA unwaith maent wedi'u cyhoeddi.
-------------------	---

Heddlu Gogledd Cymru

Diweddarodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau'r Cydbwyllgor drwy eithriad ar faterion a digwyddiadau sy'n effeithio'r Heddlu ers cylchredeg yr adroddiad.

Ailadroddodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau sylwadau'r Prif Swyddog Gweithredol. Dywedodd fod uniondeb swyddogion o'r pwys mwyaf i'r Prif Gwnstabl sydd wedi dweud y bydd Heddlu Gogledd Cymru yn agored a thryloyw gyda'r nifer o swyddogion/staff o dan ymchwiliad. Roedd yr Heddlu ar hyn o bryd yn mynd drwy ei asesiad PND o holl swyddogion a staff fel yr adroddwyd yn y cyfryngau cenedlaethol ar gyfer bob heddlu. Gan ystyried mai ein Prif Gwnstabl oedd yr arweinydd cenedlaethol ar gyfer y maes hwn, byddem yn un o'r heddluoedd cyntaf i fynd drwy'r asesiad hwn. Byddai adolygiad y Farwnes Casey hefyd yn cael ei ystyried gan yr Heddlu o ran unrhyw effaith lleol ar swyddogion a'n cymunedau.

Holodd y Cadeirydd os oedd cadernid a phrofi'r Polisi Chwythu Chwiban wedi'i adolygu/ymgymryd. Mae hyn oherwydd bod y polisi hwn yn ategu rhan o'r mater hwn. Holodd am sicrwydd fod hyn wedi'i ymgymryd a'i osod o fewn y sefydliad.

Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Phrif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol yn mynd i ffwrdd a rhannu gwybodaeth berthnasol gydag aelodau.

Gweithrediad 3	Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Phrif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i sicrhau aelodau fod y Polisi Chwythu Chwiban wedi'i asesu ac yn addas i'r diben.
-------------------	--

Dywedodd Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol fod AHEM wedi edrych hefyd ar y mater hwn ac mae adborth wedi'i roi hefyd i'r Heddlu. Mae chwythu chwiban yn rhan o'r adolygiad hwn. Sicrheir aelodau fod llawer o waith a chraffu yn digwydd ar lefel genedlaethol.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Cyllid fod y tanwariant cyfalaf arfaethedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol wedi codi ers yr adroddiad diwethaf gyda gwariant arfaethedig bellach yn £7m. Hysbysodd y byddai hyn yn destun diweddariad pellach yn hwyrach yn yr agenda.

Mae recriwtio swyddogion o dan Ymgyrch Uplift ar y gweill i gael ei gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae eglurhad wedi'i dderbyn o ran y cosbau ariannol yn 2023/24 os na chynhelir y niferoedd hyn. Tra disgwyliwyd am fanylion pellach, roedd disgwyl y byddai cynnal y cynnydd yn cael ei asesu ym mis Medi 2023 ac yna'n mis Mawrth 2024 gyda chosbau'n berthnasol pe bai'r heddlu'n is na'i ffigwr isaf. Arweiniodd trafodaeth bellach gan aelodau'r Cydbwyllgor at eglurhad o'r maes hwn.

Holodd aelod o'r CA a'r Cadeirydd ynghylch pa brosesau a sicrwydd sydd mewn lle er mwyn sicrhau nad ydy swyddogion sydd ddim yn bodloni'r safon neu'r ymddygiad angenrheidiol yn cael eu cadw gan yr Heddlu. Mae hyn er mwyn sicrhau fod y nifer angenrheidiol o swyddogion yn cael eu cyflogi er mwyn bodloni'r niferoedd angenrheidiol o dan Ymgyrch Uplift.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod llywodraethu tynn mewn lle er mwyn sicrhau y cedwir swyddogion yn ôl haeddiant a rhaid iddynt weithio er mwyn gosod safonau. Cadarnhawyd na chedwir neb gan sicrhau y bodlonir y nifer o swyddogion angenrheidiol o Ymgyrch Uplift.

Mae'r system reoli yn symud ymlaen ac yn parhau'n faes gwaith hynod heriol. Mae trafodaethau mewnol wedi awgrymu ei fod yn faes i ystyried rhaglen waith y Cydbwyllgor Archwilio. Roedd aelodau'r CA yn cefnogi ei gynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf.

5. **DIWEDDARIAD HMICFRS**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur.

Dywedodd Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol fod 11 maes i'w wella wedi'u nodi o Arolwg PEEL. Mae'r rhain bellach wedi'u dyrannu i uwch swyddogion o fewn yr Heddlu er mwyn symud ymlaen. Mae system olrhain hefyd wedi'i chynnwys yn y broses. Mae'n cael ei hadolygu a'i rheoli drwy'r Bwrdd Trefnu a Dysgu. Mae'r Bwrdd hwn wedyn yn adrodd i Fwrdd Cyflawniad y Prif Gwnstabl ac yna i'r Bwrdd Gweithredol Strategol.

Nodwyd bod PEEL yn adolygiad lefel uchel iawn o'r Heddlu. Rhaid i'r Heddlu weithio drwy/penderfynu pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn cwblhau'r gorchwylion hyn. Gofynnir i heddluoedd a dderbyniodd sicrwydd neilltuol mewn meysydd lle na wnaeth yr Heddlu rannu arfer gorau.

Mae llawer o'r gweithrediadau a nodwyd o fewn arolwg y ddalfa i fod i'w cau. Mae llawer o waith wedi'i wneud er mwyn cwblhau'r meysydd i'w gwella hyn.

Holodd aelod o'r CA os gellid rhannu adolygiad lefel uchel o ddyddiadau cau gweithrediadau ac a ydy'r rhain ar y gweill gyda'r Cydbwyllgor yn y dyfodol, gan y teimlir fod bylchau o fewn yr adroddiad.

Cadarnhaodd Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol y bydd yr holl weithdrefnau sydd mewn lle yn cael eu cynnwys a'u hegluro o fewn papurau cyfarfod yn y dyfodol.

Gweithrediad 4	Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i gynnwys cynnydd lefel uchel gweithrediadau a godwyd gan HMICFRS o fewn y papur ar gyfer cyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio at y dyfodol
-------------------	--

6. **ARCHWILIO MEWNOL**

a. SICA ARCHWILIO MEWNOL 2022-23

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd o ran Cynllun Blynyddol 2022-23. Nodwyd dim pryderon. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda o ran y cynllun blynyddol cymeradwy. Mae pob adolygiad ar y gweill ar gyfer Gogledd Cymru i gael ei gwblhau cyn diwedd mis Mawrth ond am un.

Hysbysodd Archwilio Mewnol fod pob archwiliad cydweithredol wedi'u cyhoeddi fel drafft, ond eu bod yn mynd ar ôl rhai heddluoedd am y sylwadau. Maent yn ansicr os caiff y rhain eu cadarnhau cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r archwiliad lechyd a Diogelwch a ymgymerir yn llawer gwell ond mae gwaith pellach angen ei wneud er mwyn gwthio'n ôl ar rai meysydd ac ailadrodd i holl staff fod hyn yn rhan o'u gwaith. Mae llawer o ymdrech yn mynd i hysbysu staff a'u hysbysu am eu cyfrifoldebau.

Nododd aelod o'r CA fod Gogledd Cymru wedi gwneud yn dda yn yr archwiliad cydweithredol ar Dreuliau a Thaliadau Ychwanegol, ar wahân i ddiffyg effeithiolrwydd sefydliadol lle'r oedd hawliadau treuliau wedi'u hamlygu. Holodd yr aelod os gallai hyn arwain at dwyll hawliadau, yn enwedig o dan y pwysau costau byw presennol.

Dywedodd Archwilio Mewnol mai'r rheswm am yr argymhelliad oedd y diffyg naratif o fewn yr adran sylwadau ynghylch pam yr hawliwyd hawliadau.

Eglurodd y Swyddog Ariannol a Chyllidebau'r prosesau o dan sylw wrth hawlio treuliau a bod problemau wedi'u profi wrth atodi derbynebaw at hawliadau. Mae proses fwy llyfn yn cael ei cheisio er mwyn cynorthwyo gyda hyn. Sicrhaodd y Swyddog yr aelodau fod pob hawliad yn cael ei adolygu a'i awdurdodi gan reolwyr llinell.

Gwnaiff y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fynd â'r mater hwn er mwyn ystyried a oes angen gosod unrhyw weithredu/prosesau pellach er mwyn sicrhau yr hawlir pob treuliad yn gywir.

Gweithrediad 5	Gwnaiff y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fynd â'r mater hwn er mwyn ystyried a oes angen gosod unrhyw weithredu/prosesau pellach er mwyn sicrhau yr hawlir pob treuliad yn gywir.
-------------------	---

b. TROSOLWG ARCHWILIO MEWNOL – ADRODDIAD RHEOLWYR

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r papur sy'n rhoi trosolwg o weithgarwch rheolaethau mewnol o fewn Heddlu Gogledd Cymru.

Hysbysodd y Swyddog Cyllid a Chyllidebau fod y mwyafrif o ymatebion rheolwyr wedi'u cwblhau ond eu bod yn dal i ddisgwyl am un. Nodwyd hefyd unwaith y byddai'r adroddiadau cydweithredol dros ben wedi'u derbyn y byddai'r cynllun drafft newydd yn cael ei gylchredeg.

Holodd aelodau'r CA os gellid rhannu cynllun Gogledd Cymru ar gyfer 2023/24 gydag aelodau ar ôl y cyfarfod am gymeradwyaeth. Holwyd hefyd a rennir yr archwiliadau cydweithredol unwaith y cytunir arnynt.

Gweithrediad 6	Y Swyddog Cyllid a Chyllidebau i rannu cynllun archwilio mewnol Gogledd Cymru 2023/24 gydag aelodau er mwyn cael cymeradwyaeth tu allan i'r cyfarfod.
-------------------	---

Holodd aelod o'r CA pam nad oedd naratif o fewn y ddogfen ynghylch pam na fodlonwyd y dyddiadau targed.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau ei fod ef a'r Swyddog Cyllid a Chyllidebau eisoes wedi trafod a gweithredu i grynhoi a sicrhau y rhoddir diweddariadau.

Gweithrediad 7	Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Swyddog Cyllid a Chyllidebau i grynhoi a sicrhau y rhoddir diweddariadau o ran gweithrediadau a nodwyd gan yr archwiliad mewnol.
-------------------	---

7. **DIWEDDARIAD RISG**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur Diweddariad Risg ar 6 Mawrth 2023.

Nododd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes y gwnaiff ef a phobl eraill gydweithredu gyda'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddog Cyllid er mwyn creu Cofrestr Risg ar wahân ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel y nodwyd ym Mhwynt Gweithredu 08/12/22 6 o fewn y cofnod gweithrediadau.

Ymgwymerir adolygiad annibynnol o reoli risg a bydd yn broses fesul cam. Mae'r tîm yn awr yn gweithio drwy raddfeydd amser a mecanweithiau ar gyfer yr adolygiad hwn. Rhennir yr adroddiad gydag aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio ar sut y trefnir yr adolygiad.

Gweithrediad 8	Y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i rannu'r adroddiad ar yr adolygiad rheoli risg gydag aelodau tu allan i'r cyfarfod.
-------------------	---

8. RHAGLEN WAITH 2022/23

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r rhaglen waith ddiweddaraf a gyflwynwyd. Nododd y Prif Swyddog Cyllid y diweddarwyd y rhaglen drwy gydol y cyfarfod gyda sylwadau aelodau.

Nododd Archwilio Cymru na fyddent yn gallu cwblhau archwilio cyfrifon erbyn y dyddiad o dan sylw o fewn y rhaglen waith. Ar ben yr hyn a nodwyd yn llythyr diweddar yr Archwilydd Cyffredinol, maent yn anelu cwblhau'r cyfrifon ar gyfer 2022/23 erbyn diwedd mis Tachwedd 2023.

Gofynnodd Archwilio Cymru i'r llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol gael ei rannu gydag aelodau'r Cydbwyllgor er gwybodaeth iddynt.

Gweithrediad 9	Y Prif Swyddog Cyllid i rannu llythyr yr Archwilydd Cyffredinol at Awdurdodau Lleol gydag aelodau'r Cydbwyllgor er gwybodaeth iddynt.
-------------------	---

Mae cynllun mewn lle er mwyn ceisio adennill rhywfaint o amser ac felly gobeithio gallu cwblhau'r cyfrifon ar gyfer 2023/24 erbyn diwedd mis Hydref a 2024/25 erbyn diwedd mis Medi.

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid os nad oes cosb am lofnodi'r cyfrifon yn hwyr, ni lofnodir y cyfrifon ar gyfer 2022/23 tan cyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr 2023. Cadarnhaodd Archwilio Cymru nad oedd Llywodraeth Cymru wedi newid eu deddfwriaeth o ran llofnodi hwyr ond maent yn deall y pwysau a'r llinellau amser sydd o dan sylw.

Dywedodd Archwilio Cymru y gwnaiff y ffioedd ar gyfer 2023/24 gynyddu. Y cynnydd tebygol ydy 10.2% am y cynnydd mewn gwaith a 4.8% am chwyddiant. Bydd hyn yn unol â holl gyrrff cyhoeddus eraill.

Mynegodd aelodau'r CA eu siomedigaeth na fydd y cyfrifon yn cael eu llofnodi tan fis Rhagfyr 2023. Nododd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau nad yma byddai'r sefydliadau eisiau bod ond mae angen gweithio gan ymgynghori gydag Archwilio Cymru.

Holodd y Cadeirydd i aelodau'r CA gael gweld y ddogfen cyfrifon cyhoeddus a grëwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd cyn y caiff ei gyhoeddi.

Gweithrediad 10	Y Prif Swyddog Cyllid i rannu dogfen cyfrifon cyhoeddus gydag aelodau'r CA cyn y caiff ei gyhoeddi.
--------------------	---

9. **ARCHWILIO CYMRU – GWERTH AM ARIAN AC ADRODDIAD ARCHWILIAD BLYNYDDOL (LLYTHYR RHEOLWYR)**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r Adroddiad Gwerth am Arian a gyflwynwyd gan Archwilio Cymru lle cadarnheir fod y trefniadau disgwylidig mewn lle o fewn y sefydliad.

Nododd y CA fod y ddogfen yn cyfeirio at weithio gyda HMICFRS a sefydliadau eraill. Holodd os oedd yr adroddiad PEEL diweddar yn rhy hwyr er mwyn ysbrydoli safbwynt gwerth am arian Archwilio Cymru ac a fyddai eu barn wedi newid ar ôl darllen y ddogfen hon.

Cadarnhaodd Archwilio Cymru yr ystyrir adroddiad PEEL wrth greu cyfrifon 2022/23 ond nad ydynt yn sicrhau gwerth am arian, dim ond dweud fod y trefniadau angenrheidiol mewn lle.

10. **RHAGLEN GYFALAF (yn cynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys)**

Nododd y Cydbwyllgor y Rhaglen Gyfalaf a gyflwynwyd gan y Pennaeth Cyllid. Nododd fod hon yn ddogfen flynyddol sy'n cynnwys y sefyllfa refeniw dros fenthyca, Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Fuddsoddi a Dangosyddion y Trysorlys.

Hysbysodd y Pennaeth Cyllid fod banciau wedi bod mewn cyflwr sefydlog yn y blynyddoedd diwethaf. Ond o fewn y misoedd diwethaf, gwelwyd mwy o ansefydlogrwydd. Mae ernes buddsoddiadau gan Heddlu Gogledd Cymru yn ddiogel ac mae Arlingclose yn cynghori'n rheolaidd ar lle a sut orau i fuddsoddi.

Holodd aelod o'r CA pam fod cyflwyno Gorsaf Heddlu Caergybi yn raddol wedi newid.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid fod rhaid oedi'r rhaglen oherwydd bod y ffigwr wedi cynyddu a bod rhaid i'r sefydliad sicrhau gwerth am arian. Mae hyn yn cael ei adolygu gyda'r Adran Gyfleusterau ac fe geir amserlen bresennol o amcangyfrif amser a chostau. Disgwylir i ddatblygiad Gorsaf Heddlu Caergybi gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2025.

Hysbyswyd hefyd y gall costau camerâu corff newid. Mae'r ffigwr a roddwyd yn llenwi blwch gan fod yr achos busnes eto i'w gadarnhau ond amcangyfrifir fod costau amnewid yn £1.1m.

Holodd y Cadeirydd os cymeradwywyd y gwariant cyfalaf 23/24 a raglennwyd er mwyn rhoi rhyw sicrwydd y byddai'r rhagolwg cyfalaf a ragwelwyd yn cael ei wario.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid y gwarir y gyllideb ar adegau amrywiol drwy'r flwyddyn. Eglurodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod y gwaith ar gyflawni Caergybi mewn llaw a bod gwaith ar y gweill er mwyn gosod archebion am gerbydau newydd ond y byddai'r gwariant hwn yn dibynnu ar argaeledd ac amseroedd cyflawni.

Rheoli'r Trysorlys

Nododd aelod o'r CA fod y geiriad ym mharagraff 3.6 yn anghywir gan ei fod yn cyfeirio at y Cyngor. Mae angen newid hyn i Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Gweithrediad 11	Y Pennaeth Cyllid i newid y geiriad ym mharagraff 3.6 yr Adroddiad Rheoli'r Trysorlys o Cyngor i Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
--------------------	---

Nododd y Cydbwyllgor Archwiliad hefyd y gall y siart dyledion meincnod a geir yn y ddogfen fod yn ddryslyd. Cwestiynwyd a oedd hyn oherwydd y cronfeydd wrth gefn mawr a gadwyd.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid fod y sefydliad yn gyfforddus nad oes angen benthyc arian rŵan ac felly gall wneud y siart ymddangos yn ddryslyd.

Holodd aelod o'r CA a fyddai'n bosibl cael amcangyfrif o gostau 2023/24 a chynnwys y rhain o fewn y papurau ac nid ond y cyflwyniad.

Gweithrediad 12	Y Pennaeth Cyllid i greu amcangyfrif o gostau a'u cynnwys o fewn papurau'r Cydbwyllgor Archwilio.
--------------------	---

11. CYFARWYDDYD CYLLIDEBAU

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad ar gyllidebau 2023/24 a roddwyd gan y Pennaeth Cyllid.

Holodd aelod o'r CA a ddylid ystyried Ymgyrch Uplift fel risg.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod hwn yn swm o arian sylweddol o bosib. Ond wedi trafodaethau mewnol, daethpwyd i'r casglu peidio ei adlewyrchu yn y cynllunio ariannol gan fod gan y sefydliad amgyffrediad da o'r broblem a chynlluniau mewn lle er mwyn lliniaru. Ond gall fod angen ei ystyried ymhellach yn y dyfodol.

Holodd aelod o'r CA a ydy swyddogion yn fodlon fod yr eitemau a gyfrannodd at y tanwario yn ystod 2022/23 wedi'u hymdrin yn y gyllideb ar gyfer 2023/24.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod y rhain wedi'u hystyried gan fod tanwario ar swyddogion heddlu yn ffactor sylweddol yn 2022/23 gan fod llawer heb eu recriwtio tan ddiwedd y flwyddyn. Mae'r holl swyddogion bellach yn eu swydd ac felly ni fydd y swm hwn yn bresennol yn 2023/24.

12. DIWEDDARIAD LLYWODRAETHU

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd Cyd-lywodraethu a'r mewnbwn a gafwyd gan y Bwrdd Sicrwydd.

Nododd y Cadeirydd nad oedd y papur a gyflwynwyd, na chofnodion y cyfarfod yn rhoi coel ar pa mor effeithiol gall y Bwrdd Cyd Lywodraethu fod o fewn y sefydliad. Holodd am fwy o sicrwydd fod y bwrdd hwn yn gwneud yr hyn y dylai ac effeithiolrwydd y gwaith sy'n llifo drwy'r Bwrdd.

Gweithrediad 13	Y Prif Swyddog Cyllid i adolygu cynnwys y papur a gyflwynwyd i'r Cydbwyllgor Archwilio a rhoi sicrwydd pellach o effeithiolrwydd y Bwrdd Cyd Lywodraethu.
--------------------	---

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod yr HMICFRS wedi rhoi sylw ar lywodraethu'r sefydliad. Nododd fod awydd gwirioneddol am adolygu'r model llywodraethu a sicrhau fod hyn yn iawn wrth symud ymlaen.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes fod y sefydliad yn agored i newid mwy sylfaenol os oes angen o fewn y strwythur llywodraethu. Ond mae angen sicrhau na ddyblygir y gwaith hwn. Yn cymryd cam yn ôl ar hyn o bryd ac edrych ar gynllun cyflawni newydd er mwyn ystyried newid ac arfer gorau gan heddluoedd eraill.

13. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CA**

Nododd y Cadeirydd y bydd yr adroddiad blynyddol yn cael ei ddrafftio a'i gylchredeg i bob aelod ar ôl cyfarfod heddiw am sylw ac anfonir at swyddogion erbyn diwedd mis Ebrill.

Mae gwerthusiad gan y Cydbwyllgor yn cael ei wneud gan ddefnyddio'r ddogfen Cipfa newydd. Y gobaith ydy gallu cyflwyno hyn i swyddogion erbyn diwedd mis Ebrill.

14. **ADRODDIAD AT WRAIDD Y MATER – DENU STAFF I YMGEISIO AM ROLAU ALLWEDDOL O FEWN HGC**

Rhoddodd Pennaeth Corfforaethol Datblygu Pobl a Sefydliadol drosolwg i'r Cydbwyllgor Archwilio o'r camau sy'n cael eu cymryd er mwyn denu unigolion i ymgeisio am rolau allweddol o fewn Heddlu Gogledd Cymru.

Hysbyswyd yr edrychir ar bob gwerthusiad swydd yn ôl bob swydd. Rhoddir atodiad marchnad ar rai o'r rolau hyn yn hytrach na chodi gradd y rôl. Mae wedi gweithio'n dda hyd yma.

Holodd aelod o'r CA a oedd unrhyw risg wrth ddiwygio'r broses gyfweld ac a gynigwyd cyfweiliad ymadael adroddiad at wraidd y mater i holl staff, yn enwedig y rhai anodd eu llenwi.

Dywedodd Pennaeth Corfforaethol Datblygu Pobl a Sefydliadol mai ond y cyfweiliad ei hun sy'n cael ei amrywio er mwyn galluogi rhoi cynnig o benodiad yn sydyn. Mae'r prosesau sydd ar ôl yn parhau'r un fath gyda fetio llawn o holl staff yn dal i gael eu cyflawni.

Hysbyswyd hefyd fod holl weithwyr sy'n gadael yn cael cynnig cyfweiliadau ymadael ac mai dewis yr unigolyn oedd derbyn y cynnig hwn. Mewn rhai amgylchiadau, yn enwedig y rolau anodd eu llenwi ac uwch aelodau staff benywaidd, byddai Pennaeth Corfforaethol Datblygu Pobl a Sefydliadol yn cynnal cyfweiliad ymadael.

Ailadroddodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau na fyddai llenwi'r rolau hyn yn cael effaith sylweddol ar y sefydliad. Mae'r gwaith a ymgwymerwyd gan Bennaeth Corfforaethol Datblygu Pobl a Sefydliadol a'i thîm wedi bod yn hanfodol wrth liniaru'r risg hwn.

Gofynnodd y Cadeirydd i agwedd gwerth am arian y gwaith hwn gael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cydbwyllgor yn y dyfodol er mwyn deall y gwerth mae'n dod i'r sefydliad.

Gweithrediad 12	Y Prif Swyddog Cyllid i osod gwerth am arian wrth recriwtio staff ar raglen waith y dyfodol.
--------------------	--

15. **UNRHYW FATER ARALL**

Nid chodwyd mater arall.


Cynhelir cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio ar 27 Gorffennaf 2023 am 1pm fel cyfarfod hybrid: yn y cnaud yn Ystafell Gynhadledd 1, Pencadlys yr Heddlu Bae Colwyn a dros Microsoft Teams.

**CYDBWYLLGOR ARCHWILIO
COFNOD GWEITHREDIADAU o 1.04.2023**

	Ar agor
	Wedi cau
	Wedi ei ohirio

Gweithrediadau newydd/agored o fis Mawrth 2021

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
10/10/2022	9	Sesiwn Frifio at Wraidd y Mater – Strategaethau Cyfathrebu – SCHTh a HGC – Ystyried a bwydo'n ôl i'r Cydbwyllgor Archwilio, o ran sut ydym yn rhoi gwerth am arian drwy gyfathrebu wedi'i reoli i'n holl gymunedau, er mwyn ychwanegu at hyder cyhoeddus.	Cyfredol	Pennaeth cyfathrebu ac ymgysylltu SCHTh a Phennaeth Cyfathrebu HGC	18/11/22 – Mae'r CCA wedi cysylltu a'r arweinwyr priodol er mwyn hysbysu y gwnaiff y CCA a'r Prif Swyddog Cyllid ystyried ymgysylltu a nhw ar gynllun cyfathrebu priodol. 08/12/2022 – Tryloywder ar danwariant yn parhau. 03/03/2022 – Wedi cynnwys agenda sesiwn gaeedig mis Mawrth 23 a fydd yn ystyried canfyddiadau adroddiad HMICFRS a rhoi diweddariad pellach. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2022	4	Diweddariad Risgiau – John Cunliffe, aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio i rannu ei farn ynghylch sicrwydd risg gyda swyddogion tu allan i'r cyfarfod.	Cyn gynted â phosibl	John Cunliffe – Aelod o'r CA	06/03/2023 – E-bost wedi'i anfon at y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i roi barn ar ddal risgiau a'i sicrwydd. Trafodir ymhellach gyda swyddogion os oes angen. 28/06/2023 – Mae aelod o'r CA wedi anfon e-bost at y Pennaeth Cudd-wybodaeth y mae'n ei ystyried. 28/06/2023 – Mae'r Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes, yr Arweinydd Risg a Pharhad Busnes a'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau Cynorthwyol wedi ystyried yr awgrym o gofnodi risg hinsawdd economaidd newydd, ond maent yn fodlon fod hyn yn cael ei gwmpasu a'i liniaru eisoes yn Risgiau <u>89</u> a <u>93</u> . Awgrymir cau'r gweithrediad hwn.
08/12/2022	12	Sesiynau Brifio –	Erbyn	Cyfarwyddwr Cyllid	06/03/2023 – Y bwriad ydy ystyried ymhellach ynghyd â Chylch Gorchwyl y CA

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
		Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Rheolwr Gwarchod yr Amgylchedd ac Ynni i gyflwyno papur yn amlinellu rôl y CA wrth graffu gwaith.	cyfarfod mis Mawrth	ac Adnoddau / Rheolwr Gwarchod yr Amgylchedd ac Ynni	<p>ond y prif faes canolbwynt lle gallai'r CA ychwanegu gwerth fyddai o ran cydymffurfio gyda deddfwriaeth; cydymffurfiaeth gyda pholisi'r heddlu; ac unwaith y datblygir, craffu cynnydd cyfnodol o ran cynlluniau'r heddlu.</p> <p>28/03/2023 – Angen ystyried ar y cyd â meysydd eraill. I'w gynnwys o fewn Cylch Gorchwyl draff y CA. Rhoi diweddariad yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>09/05/2023 – i'w drafod o dan eitem agenda Llywodraethu.</p> <p>23.06.23 – Mae trafodaethau wedi bod ynghylch rôl y cydbwyllgor archwilio yn y maes hwn. Y cynnig ydy bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynaliadwyedd yn cael ei ymgorffori i raglen waith y Cydbwyllgor Archwilio. • Rhoddir adroddiadau ffurfiol i'r Cydbwyllgor Archwilio ddwywaith y flwyddyn. • Rôl y Cydbwyllgor Archwilio ydy ceisio sicrwydd a rhoi craffu ar waith o ran: <ol style="list-style-type: none"> 1. Mabwysiadau strategaeth yr heddlu. 2. Y risgiau a'r cyfleoedd a gyflwynir wrth gyflawni'r strategaeth hon. 3. Cydymffurfiaeth yr Heddlu gyda'i bolisiau, codau ymarfer a fabwysiadwyd a'r fframwaith ddeddfwriaethol ehangach. <p>Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>
28/03/2023	1	Diweddariad Sefydliadol – Y Prif Swyddog Gweithredol i rannu canrannau swyddogion o dan weithredu disgyblu o fewn heddluoedd eraill pan y cyhoeddir nhw gydag aelodau'r CA.	Ar unwaith	Prif Swyddog Gweithredol	07.06.23 – Mae'r Prif Weithredwr wedi cysylltu â heddluoedd eraill ac wedi cael data cyfyngedig ganddynt. Cynnwys gwybodaeth o fewn y papur diweddariad sefydliadol nesaf.
28/03/2023	2	Diweddariad Sefydliadol – Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i rannu data'r Fframwaith gydag aelodau'r CA unwaith maent wedi'u cyhoeddi.	Cyn gynted â phosibl	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	<p>Roedd newid mewn cyfeiriad yn genedlaethol a phenderfynwyd peidio cyhoeddi data unigol yr Heddlu fel rhan o'r Fframwaith Cyflawniad VAWG.</p> <p>Mae'r adroddiad ynghlwm yn un a gyhoeddwyd yn genedlaethol.</p>  <p>Tackling VAWG Police Insights</p>

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
28/03/2023	3	Diweddariad Sefydliadol – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Phrif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i sicrhau aelodau fod y Polisi Chwythu Chwiban wedi'i brofi ac yn addas i'r diben.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a'r Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	<p>23.06.23 – Ymgysylltodd y CCA gyda'r Pennaeth ASP o ran Chwythu Chwiban. Ceir crynodeb o'r sefyllfa bresennol isod:</p> <p>Mae ein canllawiau chwythu chwiban presennol o fewn y Polisi Gwrthlygredd. Mae hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Dechreuodd darn o waith ledled Cymru llynedd lle mae 3 o 4 heddlu Cymru wedi ceisio cyngor am bolisi Chwythu Chwiban penodol. Mae hyn wedi'i roi allan am ymgynghoriad cyfyngedig yn yr heddlu gyda chymdeithasau staff, DPS ayyb. Fodd bynnag, bydd angen ymgynghoriad llawn pan gaiff ei gynnwys yn y fersiwn o'r Polisi Gwrthlygredd sydd wedi'i ddiweddar'u llawn. Mae hyn yn parhau'n waith ar y gweill. Y dyddiad ar gyfer cwblhau'r polisi CCU ydy mis Awst 23.</p> <p>Fodd bynnag, nid ydy hyn yn dirymu'r hyn sydd gennym eisoes. Gwnaeth staff ASP, yr Adran Gyfreithiol a chynrychiolwyr o AD fynd i fewnbwn Chwythu Chwiban gan gynghorwyr llynedd. Roedd hyn er mwyn sicrhau os ydy unigolyn yn ffitio'r meini prawf hyn, byddai bob adran yn gwybod sut i ymateb yn unol â hynny. Nid yw wedi'i brofi'n benodol ers hynny.</p> <p>Mae gennym ymgysylltu arwyddocaol gyda'n Llinell Uniondeb Heddlu lle mae pobl yn hysbysu am bryderon yn gyfrinachol, ond mae opsiwn cychwyn cyswllt os ydy'r unigolyn yn dymuno.</p> <p>Awgrymu Cau Gweithrediad.</p>
28/03/2023	4	Diweddariad HMICFRS – Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i gynnwys cynnydd lefel uchel gweithrediadau a godwyd gan HMICFRS o fewn y papur ar gyfer cyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio at y dyfodol	Cyfarfod mis Gorffennaf	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	Wedi'i gynnwys ym mhapur Diweddariad HMICFRS ar yr Agenda.
28/03/2023	5	SICA Archwilio Mewnol 2022-23 – Gwnaiff y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fynd â'r mater hwn er mwyn ystyried a oes	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	<p>23.06.23 – Mae'r broses dreuliau drwy ein system hunanwasanaeth AD ar-lein.</p> <p>Mae'n gosod y pwyslais ar yr un sy'n hawlio. Maent angen cadarnhau eu bod wedi darllen, deall a glynu at y Polisi Treuliau a Lwfansau. Dywed y polisi y</p>

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
		angen gosod unrhyw weithredu/prosesau pellach er mwyn sicrhau yr hawlir pob treulid yn gywir.			<p>gwnaiff HGC ad-dalu gwariant a dynnir, ar yr amod ei fod yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Angenrheidiol • Rhesymol • Ar ben yr hyn fyddai'r gweithiwr fel arall wedi'i dynnu A • Derbynneg fel tystiolaeth. <p>Dywedir yn glir y gall cyflwyno hawliad yn groes i hyn arwain at gasglu treuliau a hawliwyd yn llawn ac, os ystyrir yn briodol, disgyblu.</p> <p>Mae hawliadau treuliau dal angen awdurdod rheolwr llinell.</p> <p>Y cyd-destun ar gyfer y gweithredu oedd bod problem wedi bod o ran methu darllen derbynebau. Mae lanlwytho a sganio wedi dod yn haws gyda sganwyr ar safleoedd yr heddlu wedi'u hadfer ac mae derbynebau a lluniau digidol drwy ffonau symudol yr heddlu wedi lliniaru'r broblem ymhellach.</p> <p>Penllanw hyn oll ydy bod y prosesau'n gymesur er mwyn sicrhau cyfreithlondeb hawliadau.</p> <p>Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>
28/03/2023	6	Trosolwg Archwilio Mewnol – Adroddiad Rheolwyr – Y Swyddog Cyllid a Chyllidebau i rannu cynllun archwilio mewnol Gogledd Cymru 2023/24 gydag aelodau er mwyn cael cymeradwyaeth tu allan i'r cyfarfod.	Ar unwaith	Swyddog Cyllid a Chyllidebau	04/04/2023 – Rhannwyd y cynllun gydag aelodau o'r CA. Awgrymu cau'r gweithrediad..
28/03/2023	7	Trosolwg Archwilio Mewnol – Adroddiad Rheolwyr – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Swyddog Cyllid	Cyfarfod mis Gorffennaf	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Swyddog Cyllid a Chyllidebau	23.06.23 – Trafodwyd hyn wedi'r cyfarfod. O bwys oedd yr argymhellion TIAA a oedd yn gysylltiedig â 'Cyfnod 2 NEP'. Yr argymhellion perthnasol oedd 249424, 249425 a 249426. Mae'r CCA wedi cynnal sawl cyfarfod gweithgor er mwyn sicrhau fod aelodau'r

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
		a Chyllidebau i grynhoi a sicrhau y rhoddir diweddariadau o ran gweithrediadau a nodwyd gan yr archwiliad mewnol.			CA yn cael cyfarwyddyd ar y mater hwn a bod diweddariadau i'r argymhellion hyn (sy'n parhau'n dymor hir) yn rhoi digon o fanylder ar gyfer cyfarfod y CA ym mis Gorffennaf. Awgrymu cau'r gweithrediad.
28/03/2023	8	Diweddariad Risgiau – Y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i rannu'r adroddiad ar yr adolygiad rheoli risg gydag aelodau tu allan i'r cyfarfod.	Ar unwaith	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes	28/06/23 – Rhannwyd Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Rheoli Risg i'w ymgymryd gan Gallagher Bassett gyda'r CA drwy eu Google Drive ar 07/03/23. Ers hynny, mae'r Heddlu wedi newid yswirwyr i Maven. Felly, ni fydd yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal bellach gan Gallagher Bassett. Un o anafanteision symud yswiriwr ydy fod y cymorth rheoli risg a ddarperir yn rhedeg ar y cyd â'n polisi presennol fel mantais gwerth ychwanegol. Fel y gwyddwn o'r blynyddoedd diwethaf, cynigiodd RMP sawl diwrnod rheoli risg am ddim o fewn tymor y cytundeb. Ar ben hyn, cynigiwyd cyfres o raglenni hyfforddiant gweminar ar-lein yn edrych ar feysydd cnoi cil llai. Yn anffodus, nid ydy Maven wedi'i sefydlu mewn ffordd i gynnig mor helaeth ag RMP. Fodd bynnag, mae Maven wedi cynnig cronfa rheoli risg o £2,500 i'r Heddlu o dan y dyfynbris atebolrwydd. Mae'r Arweinydd Risg a Pharhad Busnes ar hyn o bryd yn y broses o drosglwyddo drwy'r brocer i Maven. Mae hyn er mwyn gweld pa feysydd o Gylch Gorchwyl gwreiddiol Gallagher Bassett a allent symud ymlaen â nhw a'u trefnu o fewn y gyllideb o £2,500. Mae Maven hefyd wedi awgrymu anghenion hyfforddiant bach y gallent feddwl amdanynt a rhoi cyngor mewnol heb ddefnyddio'r gronfa. Rhoddir diweddariad pellach faes o law.
28/03/2023	9	Rhaglen Waith 2022/23 – Y Prif Swyddog Cyllid i rannu llythyr yr Archwilydd Cyffredinol at Awdurdodau Lleol gydag aelodau'r Cydbwyllgor er gwybodaeth iddynt.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	29/03/2023 – Rhannwyd y llythyr gydag aelodau'r CA. Awgrymu cau'r gweithrediad.
28/03/2023	10	Rhaglen Waith 2022/23 – Y Prif Swyddog Cyllid i rannu dogfen cyflwyniad i gyfrifon	Cyn gynted â phosibl	Prif Swyddog Cyllid	03/07/2023 – Rhannwyd dogfen gydag aelodau o'r CA. Awgrymu cau'r gweithrediad.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
		gyhoeddus gydag aelodau'r CA cyn y caiff ei chyhoeddi.			
28/03/2023	11	Rheoli'r Trysorlys – Y Pennaeth Cyllid i newid y geiriad ym mharagraff 3.6 yr Adroddiad Rheoli'r Trysorlys o Cyngor i Comisiynydd Heddlu a Throsedd.	Ar unwaith	Pennaeth Cyllid	Mae'r geiriad wedi'i newid. Awgrymu cau'r gweithrediad.
28/03/2023	12	Rheoli'r Trysorlys – Y Pennaeth Cyllid i greu amcangyfrif o gostau a'u cynnwys o fewn papurau'r Cydbwyllgor Archwilio.	Cyfarfod mis Gorffennaf	Pennaeth Cyllid	Bydd amcanestyniadau yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau lle bo'n bosibl. Ar adegau gall fod gwybodaeth wedi'i diweddarau nad oedd ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad a fyddai'n cael ei gynnwys ar sleidiau Awgrymu cau'r gweithrediad.
28/03/2023	13	Diweddariad Llywodraethu – Y Prif Swyddog Cyllid i adolygu cynnwys y papur a gyflwynwyd i'r Cydbwyllgor Archwilio a rhoi sicrwydd pellach o effeithiolrwydd y Bwrdd Cyd Lywodraethu.	Cyfarfod mis Gorffennaf	Prif Swyddog Cyllid	Mae cynnwys y Diweddariad Llywodraethu wedi'i adolygu er mwyn sicrhau fod effeithiolrwydd y Bwrdd Cyd Lywodraethu yn cael ei ddangos yn fwy clir o fewn y papur. Awgrymu cau'r eitem.

Gweithrediadau caeedig ers y cyfarfod diwethaf – archifwyd ym mis Ebrill 2022 – caewyd yn flaenorol – ar gael ar gais

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
08/12/2022	1	Diweddariad Sefydliadol – SCHTh – Cyflwyniadau o'r digwyddiad Ymgyfarwyddo i gael eu cadw ar Google Drive er mwyn galluogi aelodau nad oedd yn bresennol i weld y cynnwys.	Ar unwaith	Cynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr	Cyflwyniadau wedi'u cadw ar Google Drive. Awgrymu cau'r gweithrediad.

08/12/2022	2	Diweddariad HMICFRS – Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i sicrhau bod rhagor o fanylion o ran cyflawni gweithrediadau a risgiau cysylltiedig i'w cael o fewn papur cyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio.	Cyfarfod mis Mawrth	Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	03/03/2022 – Dolen Adroddiad PEEL HMICFRS i'w rhannu gydag aelodau'r CA cyn y cyfarfod a diweddariad PEEL HMICFRS i'w gynnwys ar agenda mis Mawrth 23. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2022	3	Archwilio Mewnol – SICA – Archwilio Mewnol a'r Swyddog Cyllid a Chyllidebau i roi diweddariad i aelodau yn ystod mis Ionawr am archwiliadau wedi'u cwblhau a rhai sydd ar ôl ar gyfer 2022/23.	Ionawr 2022	Archwilio Mewnol a Swyddog Cyllid a Chyllidebau	21/12/2022 – Rhannwyd diweddariad gydag aelodau o'r CA Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2022	5	Rhaglen Waith 2022/23 – Y Prif Swyddog Cyllid i ddiweddarau'r Rhaglen Waith a chyflwyno papur diweddariad ar y praesept/cyllideb yng nghyfarfod mis Mawrth o'r CA.	Cyfarfod mis Mawrth	Prif Swyddog Cyllid	01/03/2022 – Dolen i bapurau'r Panel Heddlu a Throsedd isod. https://modgoveng.conwy.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=800&MId=9252&Ver=4 Awgrymu cau'r gweithrediad.

08/12/2022	6	Rhaglen Waith 2022/23 – Y Prif Swyddog Cyllid a'r Prif Swyddog Gweithredol i gyfarfod gydag Arweinydd Risg y CA er mwyn edrych dros gofrestr risg SCHTh.	Cyn gynted â phosibl	Prif Swyddog Cyllid / Prif Weithredwr	<p>14/2/23 – Gwnaeth y PSC gyfarfod â J Cunliffe ar 14 Chwefror 2023 i fynd drwy reoli risg o fewn y SCHTh, gan gynnwys sut yr uwchgyfeirir/isgyfeirir risgiau o'r gofrestr risgiau corfforaethol. Holodd JC a ydy'r broses a'r trothwyon uwchgyfeirio/isgyfeirio risgiau yn gyson ledled SCHTh a'r heddlu. Cyfeiriodd y PSC y mater at yr Arweinydd Risg a Pharhad Corfforaethol am gadarnhad.</p> <p>08/03/2023 – Hysbysodd Arweinydd Risg HGC – Mae Risgiau SCHTh yn cael eu cofnodi ar Gofrestr Risg yr Heddlu os ydynt yn bodloni'r un trothwy â Risgiau HGC. Gwneir hyn drwy Broses Sgorio a gytunwyd ac yn unol â'r Fframwaith Rheoli Risg a Mapio Sicrwydd. Mae unrhyw Risgiau SCHTh a ofynnir eu cau eto'n dilyn yr un broses. Hysbysir risgiau SCHTh i'r Bwrdd Gweithredol Strategol am oruchwyliaeth ac adolygiad strategol.</p> <p>28/03/2023 – mae aelodau'r CA yn pryderu fod cofrestrau risg yn cael eu cyfuno. Maent yn credu y dylent fod yn unigol gan y gallent achosi gwrthdaro os ydynt gyda'i gilydd. Dywedodd y PSG ei fod yn fodlon i'r ddau fod yn unigol er mwyn rhoi sicrwydd. Y PSG/PSG ac Arweinydd Risg y CA i gyfarfod er mwyn trafod.</p> <p>Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>
08/12/2022	7	Cyflawniad Rheoli'r Trysorlys – Y Pennaeth Cyllid i ofyn i Arlingclose ddarparu hyfforddiant Rheoli'r Trysorlys i aelodau'r CA.	Cyn gynted â phosibl	Pennaeth Cyllid	<p>22/12/22 – Mae cyngor y Trysorlys wedi'i anfon allan i dendr gyda dyddiad cau sef dechrau mis Ionawr.</p> <p>28/03/2023 – Mae Arlingclose wedi'u hailbenodi. Y Pennaeth Cyllid i gysylltu er mwyn nodi dyddiad addas ar gyfer hyfforddiant Rheoli'r Trysorlys.</p> <p>Gweithrediad wedi cau.</p>
08/12/2022	8	Rhaglen Gyfalaf – Diweddariad – Y Cyfarwyddwr Cyllid i rannu'r graff gydag aelodau o'r cydbwyllgor.	Cyn gynted â phosibl	Cyfarwyddwr Cyllid Adnoddau ac	<p>06/03/2023 – Casgliad o sleidiau'n amlinellu cyflawniad ariannol parth Gwariant cyfalaf a rannwyd gydag aelodau o'r cydbwyllgor.</p> <p>Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>
08/12/2022	9	Diweddariad Moeseg – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ganfod os oedd y Pwyllgor Moeseg wedi bod ynghlwm yn y broses Archwiliadau Mewnol.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid Adnoddau ac	<p>02/03/2023 – Ni ymgwymerwyd ag archwiliadau Moeseg penodol yn ddiweddar ac ni sbardunwyd gweithgarwch TIAA o ganlyniad i'r Pwyllgor Moeseg.</p> <p>28/03/2023 – Bydd unrhyw faterion moesegol o'r broses archwilio yn cael ei hanfon ymlaen i'r Pwyllgor Moeseg.</p> <p>Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>

08/12/2022	10	Diweddariad Moeseg – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i egluro a ofynnir i ymgeiswyr a ydynt yn aelodau o'r Seiri Rhyddion fel rhan o'r broses ymgeisio/fetio.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	02/03/2022 – Eglurodd y CCA gyda Rheolwr Fetio'r Heddlu a gadarnhaodd nad oes ymchwiliad penodol i'r Seiri Rhyddion fel rhan o'r broses fetio. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2022	11	Diweddariad Moeseg – Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg i rannu'r dilema a'r canlyniad gydag aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio.	Ar unwaith	Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg	03/03/2022 – Y cyd-destun ar gyfer gweithredu oedd mater moesegol y cofnodion meddygol. Rhannwyd gwybodaeth bellach gydag aelodau o'r cydbwyllgor drwy yriant grŵp yn dilyn y cyfarfod. Awgrymu Cau Gweithrediad.

Allwedd Talfyriadau	
PG	Prif Gwnstabl
PSG	Prif Swyddog Gweithredol (SCHTh)
PSC	Prif Swyddog Cyllid (SCHTh)
CCA	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau (HGC)
HMICFRS	Arolygaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS) Ei Mawrhydi
CA	Cydbwyllgor Archwilio
HGC	Heddlu Gogledd Cymru
SCHTH	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
CP	Cynorthwydd Personol i'r PSG a'r PSC
CHTH	Comisiynydd Heddlu a Throsedd
ASP	Adran Safonau Proffesiynol (HGC)
TIAA	Archwilio Mewnol
SAC	Swyddfa Archwilio Cymru

Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 27 Gorffennaf 2023

Teitl:	Diweddariad Sefydliadol y SCHTh
Awdur:	Stephen Hughes
Diben yr adroddiad:	
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input type="checkbox"/> Sicrwydd <input checked="" type="checkbox"/> Gwybodaeth
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<ul style="list-style-type: none">• Adroddiad y Farwnes Casey i safonau a diwylliant o fewn y Met<ul style="list-style-type: none">• Panel Dioddefwyr• Digwyddiad Busnes Caethwasiaeth Fodern• Troseddau Seiber a Chymunedau Cefn Gwlad<ul style="list-style-type: none">• Cymorthfeydd y CHTh• Diweddariadau i'r gofrestr risgiau
Argymhellion:	Bod aelodau'r CA yn nodi'r adroddiad ac y rhoddir manylion pellach yn y sesiwn gaeedig o ran Adolygiad Casey
Effaith cofrestr risgiau:	Ychwanegwyd risg newydd i gofrestr SCHTh o ran etholiad y CHTh ym mis Mai 2024.
Goblygiadau sicrwydd:	Dim
Effaith Cydraddoldeb:	Dim
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Dim



Cydbwyllgor Archwilio 27 Gorffennaf 2023

Diweddariad Sefydliadol y SCHTh

Diweddariadau

Cynhaliwyd cyfarfod blaenorol y Cydbwyllgor Archwilio (CA) ar 28 Mawrth 2023. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r CA ar faterion SCHTh o bwys ers hynny.

Adroddiad y Farwnes Casey i safonau a diwylliant o fewn yr Heddlu Metropolitan

Bydd aelodau'r CA yn cofio o ddiweddariadau blaenorol fod y CHTh wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar yn edrych ar amllder achosion casineb at ferched yn yr Heddlu, y nifer achosion o dan ymchwiliad a'r mesurau mewn lle er mwyn gwarchod y cyhoedd a sicrhau fetio swyddogion yn gywir. Roedd cyhoeddi adolygiad Casey yn ddiweddar unwaith eto'n dod â'r materion hyn i sylw'r cyhoedd, sydd yn iawn.

Mae'r CHTh yn benderfynol o ddwyn yr heddlu'n atebol a gwnaiff weithio gyda'r Prif Gwnstabl ac uwch swyddogion er mwyn sicrhau fod y mesurau sydd ganddynt mewn lle yn gwneud gwahaniaeth. Yng nghyfarfod diweddaraf y Bwrdd Gweithredol Strategol edrychodd y CHTh ar gyflawniad yr Heddlu o ran Trais yn Erbyn Merched a Genethod (VAWG), Safonau Proffesiynol a diwylliant o fewn plismona.

Edrychodd y CHTh ar feysydd gan gynnwys:

- Sut mae Heddlu Gogledd Cymru yn atal ac ymchwilio troseddau VAWG.
- Sut mae'r Heddlu'n cyflawni o ran y cynllun gweithredu VAWG cenedlaethol.
- Effeithiolrwydd y Cynadleddau Asesiad Risg Aml-asiantaeth (MARAC) a gweithio mewn partneriaeth er cam-drin domestig.
- Gwaith y tîm Amethyst sy'n ymchwilio treisio a chynorthwyo dioddefwyr.
- Sut all yr Heddlu ddangos fod ganddo ddiwylliant moesegol iach mewn lle?
- Beth mae'r heddlu yn ei wneud er mwyn annog a phlannu ymddygiad moesegol?
- Sut ymgysylltir â chymunedau lleol o ran penderfyniadau'r heddlu, yn enwedig ar ddefnyddio grymoedd sydd yn effeithio ar rai grwpiau'n anghyfartal gyda nodweddion gwarchodedig a rennir (e.e. defnyddio TASER, a Stopio a Chwilio).
- Sut mae'r Prif Gwnstabl yn sicrhau fod gan newydd ddyfodiaid i'r heddlu â'r gallu ac ymddygiad emosiynol angenrheidiol er mwyn gweithio gyda phobl hynod fregus?

Yng nghyfarfod diweddar y CA, holodd aelodau'r CA sut oedd ffigyrau HGC yn cymharu â heddluoedd eraill. Dim ond dau heddlu sef Sussex a Dyffryn Tafwys a oedd yn barod i ddadlennu eu manylion. Fe wnafr ddiweddarau'r aelodau ar y ffigyrau hyn yn ystod y sesiwn gaeedig.

Panel Dioddefwyr Gogledd Cymru

Yn ddiweddar, gwireddodd y CHTH addewid allweddol a wnaeth pan gafodd ei ethol i'r rôl gyda chyfarfod cyntaf Panel Dioddefwyr newydd ar gyfer Gogledd Cymru.

Mae'r panel yn cael ei gadeirio gan y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd, Wayne Jones, ac yn bresennol mae staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (SCHTh) a Chanolfan Cymorth Dioddefwyr (VHC). Gwasanaeth ydy VHC wedi ei gomisiynu gan y CHTH er mwyn cynnig cyngor a chymorth i ddioddefwyr trosedd. Maent yn cynorthwyo gweinyddu rhedeg y panel a gweithio gyda dioddefwyr er mwyn rhannu eu syniadau.

Rhoddodd wyth dioddefwr ei hadborth ar y diwrnod yn cynnwys amrywiaeth o fathau gwahanol o droseddau a phrofiadau o'r system gyfiawnder troseddol. Mae'r themâu a drafodwyd yn y panel yn hyblyg a gall fod yn drosedd benodol neu faterion mwy cyffredinol maent wedi profi o fewn y broses gyfiawnder troseddol. Mae preifatrwydd y dioddefwr yn cael ei warchod bob amser pan roddir adborth.

Digwyddiad Busnes Caethwasiaeth Fodern

Mewn digwyddiad a gynhaliwyd ar 22 Mai yng Nghyffordd Llandudno, daeth 100 o berchnogion busnes lleol a sefydliadau sector cyhoeddus ledled Gogledd Cymru at ei gilydd er mwyn edrych ar y broblem hanfodol sef Caethwasiaeth Fodern. Edrychwyd ar sut i ddeall ei hadnabod hi a thrafod y peryglon mae'n ei beri i'r economi leol.

Roedd siaradwyr amlwg iawn wedi dod ledled y rhanbarth a'r DU yn ehangach, gan gynnwys Kevin Hyland OBE, Comisiynydd Atal Caethwasiaeth Annibynnol cyntaf y DU. Amlygodd cyfres o gyflwyniadau ar y diwrnod fod Caethwasiaeth Fodern yn fygythiad parhaus i gymunedau yng Ngogledd Cymru a rhaid i fusnesau fod yn ymwybodol o sut y gall gael effaith arnynt a sut i adnabod yr arwyddion.

Gwarchod Cymunedau Cefn Gwlad

Yn ddiweddar, noddodd y CHTH ac roedd yn brif siaradwr mewn digwyddiad yn edrych ar ffyrdd gall ein cymunedau cefn gwlad warchod eu hunain yn well rhag trosedd, ynghyd â mesurau newydd hanfodol sy'n cael eu hymgydryd gan Heddlu Gogledd Cymru er mwyn atal gweithgarwch troseddol ledled y rhanbarth. Noddwyd y digwyddiad Diogelwch Seiber ac Atal Trosedd gan yr elusen ar gyfer ffermwyr a'u teuluoedd sef Tir Dewi; Heddlu Gogledd Cymru; Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned; a Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Pwysleisiodd Tîm Troseddau Seiber Heddlu Gogledd Cymru bwysigrwydd ffermwyr fod yn wylidwrus am droseddau ar-lein a seiber, o ystyried natur cynyddol ddigidol rheoli busnes – hyd yn oed mewn ffermio. Rhoddwyd enghreifftiau am sgamiau amrywiol a ddefnyddir gan droseddwyr, gan gynnwys y rhai hynny sy'n defnyddio negeseuon e-bost gan gyflenwyr tybiedig yn gofyn i ffermwyr dalu i gyfrif newydd.

Cymorthfeydd cyngor misol

Fel yr hysbyswyd yn flaenorol, mae'r CHTh wedi lansio cymhorthfa cyngor misol newydd i drigolion. Mae'r fenter yn galluogi pobl leol drafod plismona yn eu cymunedau a chodi unrhyw bryderon neu sylwadau sydd ganddynt gyda'r Comisiynydd.

013	269291	22/23 HR Absence Management	2022	Delivery Risk	Mandatory training for Line Managers with responsibilities for managing sickness absence be delivered to ensure the correct and consistent procedures are followed for every case of sickness absence.	2	HR provide coaching on individual cases and briefings at local People Panels. This will be reviewed in line with first line management training from CoP to ensure that any gaps are bridged.	Head of HR	08/03/2023	30/04/2024		1	20/06/2023 - Update received from Head of HR - we have developed modules on Attendance Management for the first line leadership training (this was due to take place in June but has been cancelled, the next sessions are in October). Whilst that covers new first line managers, there is still a matter of wider training for line managers which I do not have ownership of. What we have discussed, is accompanying guidance, support, coaching and tools for managers which will be developed as part of the wider project and will align with the policy and procedure that is proposed and agreed. So, whilst we have begun to offer some training, this is more focussed currently on best practice and principles until we firm up the new policy and roll it out.
014	269292	22/23 HR Absence Management	2022	Directed Risk	Return to work interviews be included as standard within the Absence Management Policy for staff and officers returning to work from a period of sickness absence (the length of absence to be determined, although generally would apply to all absences).	3	Incorporated into review of policy as outlined above via T&F group. The implementation date has been reached by considering the time frame for the review of the policy and the consultation process prior to the policy being ratified.	Head of HR	08/03/2023	30/09/2023		1	20/06/2023 - Update received from Head of HR - The work on the policy is progressing and we have already shared an outline proposal with Fed/UNISON and will be going out to SMT's shortly. Once we have completed this we can then move this forward to formal consultation and thereafter implementation. I would emphasise that this is an extensive piece of work to be delivered and not a list of actions.
015	269645	22/23 Vetting	2022	Delivery Risk	The back fill of records completion exercise be undertaken as planned.	3	The COREVET system has been live since March 2021. A bid has been put in place to extend the contract of some of our temporary researchers to work towards completing this task.	Vetting Researchers	23/03/2023	31/12/2023		1	30/05/2023 - update received from Force Vetting Manager - We have the funding in place for three extra Researchers, two of these posts are filled and one is at application stage, they will be servicing the current demand due to the high levels, but as a researcher encounters a BRC in the course of their day, they will transfer the files over from the archives, to COREVET.
016	269697	REDACTED											

No	ID	Job	Year	Risk Area	Recommendation	Priority	Management Comments	Responsible Officer	Date final report issued	Due Date	Revised Due Date	Category	Latest Response
017	269698	REDACTED											
018	269699	REDACTED											
019	269700	REDACTED											
020	269701	REDACTED											
021	271372	22/23 Health and Safety Management	2022	Directed Risk	A message outlining the importance of health and safety reporting be cascaded from the Senior Leadership Team to the relevant officers / members of staff with the aim of improving the rate of line manager involvement in completing A879 and HS1 forms in a timely manner.	2	<p>Chief Constable incorporated RIDDOR reporting in her Vlog 24/02/2023 as a welfare and wellbeing issue. She highlighted our legal requirement to comply with the 15 days reporting to HSE if a colleague has suffered an injury, placing the onus on individuals as well as Managers and Leaders to comply with legislation. Injury to Officers on/off duty is part of the Eight Point Plan – Assault on Police Officers, Police Staff and Volunteers which is published on the Force Intranet.</p> <p>DFR to organise the inclusion of RIDDOR/Health and Safety to the agenda of the Senior Leadership Team meetings which occur every two weeks – this is a recognised Senior Force Governance forum. SLT members will be asked to gain reassurance that their areas/teams understand and comply with the submission of forms.</p> <p>FBO in liaison with TIAA to amend scope of Divisional Command Unit audits to Include H&S A879, HS1 and DSE. Divisional Command Unit audits are carried out in Eastern, Western and Central divisions on a cyclical basis. The scope will be amended ahead of the Eastern Command Unit audit due to take place in 2023/2024.</p>	Director of Finance/Finance and Budget Officer	12/06/2023	30/06/2023		1	<p>20/06/2023 - update from Finance and Budget Officer (FBO)</p> <p>As per management comments the Chief Constable incorporated HSM/RIDDOR reporting in her Vlog on 24/02/2023.</p> <p>05/05/2023 - following discussions with TIAA the scope of Divisional Command Unit audits was amended to Include H&S, A879, HS1, RIDDOR reporting and DSEs.</p> <p>11/05/2023 - FBO advised the Divisional LPS Superintendents that the scope for the divisional command unit audits was amended to include above.</p> <p>02/06/2023 - DFR Vlog - addressed HSM in so much as being mindful of our responsibilities to ensure that employees, contractors etc arrive and leave NWP sites safely. He also advised managers/supervisors that he will be looking for support through local SLTs.</p> <p>06/06/2023 - RIDDOR/HSM scheduled for discussion on the next SLT agenda on 13/06/2023.</p> <p>20/06/2023 - confirmation received from Business Manager that HSM/RIDDOR action was discussed at SLT on 13/06/2023 and it was agreed that there would be quarterly HSM/RIDDOR updates to SLT going forward.</p>

No	ID	Job	Year	Risk Area	Recommendation	Priority	Management Comments	Responsible Officer	Date final report issued	Due Date	Revised Due Date	Category	Latest Response
022	271373	22/23 Health and Safety Management	2022	Directed Risk	Health and safety training be provided to officers / members of staff as they are promoted to supervisory positions with an emphasis on their responsibility in reporting accidents to an appropriate deadline.	2	<p>Head of L&D to agree on a process to ensure that managers and supervisors, who upon promotion, are given an appropriate health and safety input by a force trainer, outlining their responsibilities in terms of a) investigating injuries and near miss incidents, and b) recording their findings in line with the law and the Force's H&S Policy. In addition, Line managers/supervisors, will be provided with key information in terms of RIDDOR reporting, e.g., what categories of injuries and near misses fall under RIDDOR, and, critically what the decision-making process is to ensure that RIDDOR reports are submitted to HSE within the 15-day statutory deadline by the Force's Health and Safety Manager without exception. Note: Need to Know relating to the above circulated to all NWP employees twice in 2022/23.</p> <p>HSM submits a report on a monthly basis to DFR who in turn reports relevant issues to the Senior Force Governance Forum to ensure that Command and SMT units take responsibility and held to account in terms of the correct reporting process relating to the reporting of Injuries, Near Misses and DSEs, and fundamentally, the recording of Line Managers investigations to ensure the safety and welfare of staff under their command.</p>	Head of L&D	12/06/2023	30/06/2023		1	23/06/2023 - Update received from Head of Training - The Trainer for Leadership and Assessment Sgt to incorporate these audit recommendations into the Operational Sergeants courses. He liaised with the Health and Safety Manager and agreed that the information on the need to know circulars would be converted into an input on the courses and the trainer would deliver the input, ensuring the audit points were covered.
023	271374	22/23 Health and Safety Management	2022	Directed Risk	All Officers / members of staff in supervisory positions be provided with health and safety training that outlines their responsibility in submitting A879, HS1 and DSE forms and the risks to the organisation caused by lack of compliance with HSE regulation.	2	<p>Newly promoted supervisors and managers, attending courses, will be provided with an appropriate DSE input and presentation by a force trainer in terms of their responsibilities to staff working from home and in an office environment (place of work). Note: Need to Know and presentation circulated to all NWP employees twice in 2022/23.</p> <p>HSM submits a report on a monthly basis to DFR who in turn reports relevant issues to the Senior Force Governance Forum to ensure that Command and SMT units take responsibility and held to account in terms of the correct reporting process relating to the reporting of Injuries, Near Misses and DSEs, and fundamentally, the recording of Line Managers investigations to ensure the safety and welfare of staff under their command</p>	Head of L&D	12/06/2023	30/06/2023		1	23/06/2023 - Update received from Head of Training - The Trainer for Leadership and Assessment Sgt to incorporate these audit recommendations into the Operational Sergeants courses. He liaised with the Health and Safety Manager and agreed that the information on the need to know circulars would be converted into an input on the courses and the trainer would deliver the input, ensuring the audit points were covered.

Appendix 3 – Recommendation Categorisation

“Priority” refers to the implementation timeline to adopt:

Description	Priority
URGENT - Fundamental Control issue on which action should be taken immediately.	1
IMPORTANT - Control issue on which action should be taken at the earliest opportunity.	2
ROUTINE - Control issue on which action should be taken as a matter of course.	3

“Category” refers to date revisions as per the below:

Description	Category
Recommendations - still on original due date	1
Recommendations - 1st revised due date	2
Recommendations - 2nd revised due date	3
Recommendations - 3rd revised due date	4
Recommendations - 4th revised due date	5
Recommendations - 5th revised due date	6

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

Teitl:	Adroddiad Rheoli Risg – (Sesiwn Agored)
Awdur:	Neil T. Ackers, Arweinydd Risg a Pharhad Busnes
Diben yr adroddiad:	Rhoi diweddariad i'r Cydbwyllgor Archwilio ar y broses risg sefydliadol a throsolwg o'r risgiau presennol a gofnodir gan Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input checked="" type="checkbox"/> Sicrwydd <input type="checkbox"/> Gwybodaeth
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r holl risgiau wedi'u hadolygu'n fisol gan yr Arweinydd Risg a Pharhad Busnes, gan sicrhau eu bod yn cael eu diweddarau ac yn parhau ar darged. Gwneir cofnod dyddiedig ar y cyd a'r adolygiad o fewn 'dogfen wybodaeth ategol' y cofnod risg gosodedig. • Anfonwyd negeseuon atgoffa at Arweinwyr Risg i adolygu a diweddarau eu risgiau a'u gweithredoedd parhaus naill ai'n fisol neu'n chwarterol (yn dibynnu ar y math o risg). • Ers y diweddariad blaenorol, mae bob risg ar Gofrestr Risg yr Heddlu wedi'u hadolygu yn y cyfarfodydd canlynol gyda dim materion nac eithriadau wedi'u codi. • Cyfarfodydd Tîm Uwch Reoli • Cyfarfod Uwch Dîm Arweinyddiaeth • Bwrdd Rheoli Strategol • Bwrdd Gweithredu Strategol • Bwrdd Gweithredol Strategol • Bwrdd Pobl Strategol • Bwrdd Newid a Chydweithredu Strategol • Bwrdd Sicrwydd • Crynodeb o risgiau HGC a SCHTh byw wedi eu cofnodi ar Gofrestr Risg yr Heddlu 7 Mawrth 2023 – 29 Mehefin 2023. • Risgiau newydd HGC a gofnodwyd ar Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad diwethaf. <ul style="list-style-type: none"> • Risg 110 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEDIG • Risg 111 Diffyg presenoldeb Ymgynghorydd Meddygol yr Heddlu • Risg 112 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEDIG

- **Risgiau newydd SCHTh a gofnodwyd ar Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad diwethaf.**
 - Risg 109 Digonolrwydd adnoddau ariannol 2023/2024
 - Risg 113 Etholiad y CHTh 2023

- **Risgiau HGC wedi'u tynnu o Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad diwethaf**
 - Risg 010 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG
 - Risg 046 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG
 - Risg 57 Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN)
 - Risg 073 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG
 - Risg 078 System Weithredu Microsoft Windows 10 heb ei chefnogi
 - Risg 082 Materion yn ymwneud â'r Gadwyn Gyflenwi TGCh
 - Risg 104 Galw'r Uned Les

- **Risgiau SCHTh wedi'u tynnu o Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad diwethaf**
 - Risg 089 Digonolrwydd adnoddau ariannol

- **Risg HGC Newidiadau i'r Risgiau ar Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad diwethaf**
 - Risg 071 Pensiynau
 - Risg 081 Methu denu staff i ymgeisio am rolau allweddol
 - Risg 096 Galw Gormodol o fewn yr Uned Dadansoddwyr
 - Risg 097 Ceisiadau Meddygol BIP Betsi Cadwaladr
 - Risg 099 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG
 - Risg 103 Gallu cynyddu swyddogion
 - Risg 108 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG

- **Newidiadau i'r Risgiau SCHTh ar Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad diwethaf**
 - Risg 109 Digonolrwydd adnoddau ariannol 2023/2024

- **Cofrestr Risgiau'r Heddlu a oedd yn cynnwys Risgiau SCHTh.**
 - Graddau RAG Gweithrediadau Risg – HGC
 - Graddau RAG Gweithrediadau Risg – SCHTh

- **Cofrestr Risg COVID19**

- **Datblygiadau o ran rheoli risg**
 - Adolygiad annibynnol gan Gallagher Bassett

- **Tabl yn crynhoi risgiau HGC a gofnodwyd ar Gofrestr Risg yr Heddlu ar 29/06/23.**

	<ul style="list-style-type: none"> • Tabl yn crynhoi risgiau SCHTh a gofnodwyd ar Gofrestr Risg yr Heddlu ar 29/06/23.
Argymhellion:	Dim
Effaith Cofrestr Risgiau:	Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar gofnodion a gofnodwyd ar Gofrestr Risg a Chofrestr Risg COVID 19 yr Heddlu
Goblygiadau Sicrwydd:	Mae'r adroddiad hwn yn uniongyrchol berthnasol i ddatblygu sicrwydd yn Heddlu Gogledd Cymru
Effaith Cydraddoldeb:	Dim
Gwybodaeth wedi'i Heithrio o Ddadleniad:	Do (amlygwyd mewn melyn)

1. CYFLWYNIAD

Diben yr adroddiad hwn ydy cynnig diweddariad ar broses rheoli risg sefydliadol gan roi trosolwg o statws risgiau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru. Mae'n seiliedig ar wybodaeth a dderbyniwyd ac a gofnodwyd erbyn 29 Mehefin 2023 ar Gofrestr Risg yr Heddlu fersiwn 6.180.

Mae risgiau prosiectau yn cael eu rheoli ar wahân o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolios. Fodd bynnag mae'r rhai hynny sydd angen sylw'r Heddlu yn cael eu rhoi ar Gofrestr Risg yr Heddlu drwy'r broses a gytunir a ddogfennir yn y Fframwaith Mapio Risg a Sicrwydd.

2. CRYNODEB COFRESTR RISG YR HEDDLU

Rydym yn parhau i osod ein hymdriniaeth i Reoli Risg ledled y sefydliad drwy ryngweithio rheolaidd gyda'r Arweinwyr/Perchnogion Risg un ai'n fisol neu'n chwarterol (yn dibynnu ar y math o risg). Mae nodiadau atgoffa wedi'u hanfon at yr unigolion er mwyn adolygu a diweddaru gweithrediadau parhaus er mwyn sicrhau bod risg yn parhau i gyrraedd y targed. Ar ben hyn, rydym yn parhau i gynnal adolygiad misol o bob risg ac wedi codi unrhyw bryderon neu broblemau gydag Arweinwyr Risg ac Uwch Dimau Rheoli drwy eu hadroddiadau prif faterion risg. Uwch dîm Reoli Ar ben hyn, rydym yn parhau i gynnal adolygiad misol o bob risg ac wedi codi unrhyw bryderon neu broblemau gydag Arweinwyr Risg ac Uwch Dimau Rheoli drwy eu hadroddiadau prif faterion risg. Mae risgiau hefyd wedi cael eu riportio a'u hadolygu yng Nghyfarfod yr Uwch Dîm Arwain, Cyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli (SMT), Bwrdd Rheoli Strategol (SMB), Bwrdd Gweithredu Strategol (SEB), Bwrdd Gweithredol Strategol (SOB), Bwrdd Pobl Strategol, Bwrdd Newid a Chydweithrediad Strategol (SCCB), gyda dim materion nac eithriadau wedi'u codi. Adroddir crynodeb o'r holl risgiau a gofnodwyd ar Gofrestr Risg yr Heddlu i'r Bwrdd Sicrwydd hefyd.

Tabl 1: - Risgiau HGC ar Gofrestr Risgiau'r Heddlu 6 Mawrth 2023 – 29 Mehefin 2023

Lefelau'r Risg cyn Rheolaethau	Cyfanswm Blaenorol Risg HGC	Risgiau a dynnwyd yn y cyfnod hwn	Risgiau Newydd yn y cyfnod hwn	Risgiau HGC a gofnodir ar hyn o bryd ar Gofrestr Risg yr Heddlu
Difrifol	9	1	2	10
Uchel	18	6	1	13
Canolig	1	0	0	1
Cyfanswm	28	7	3	24

Tabl 2: - Risgiau SCHTh ar Gofrestr Risg yr Heddlu 6 Mawrth 2023 - 29 Mehefin 2023

Lefelau'r Risg cyn Rheolaethau	Cyfanswm Blaenorol Risg SCHTh	Risgiau a dynnwyd yn y cyfnod hwn	Risgiau Newydd yn y cyfnod hwn newydd yn y cyfnod hwn	Risgiau SCHTh a gofnodir ar hyn o bryd ar Gofrestr Risg yr Heddlu
Difrifol	1	1	1	1
Uchel	1	0	1	2
Canolig	0	0	0	0
Cyfanswm	2	1	2	3

3. RISGIAU NEWYDD HGC A GOFNODWYD AR GOFRESTR RISG YR HEDDLU ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF.

Mae 3 risg HGC newydd wedi'u hychwanegu at Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad risg CA diwethaf.

• Risg 110 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG

• Risg 111 Diffyg presenoldeb Ymgynghorydd Meddygol yr Heddlu

Mae Risg ers i Ymgynghorydd Meddygol presennol yr Heddlu, a oedd yn Feddyg am ddeuddydd i'r sefydliad, wedi ymddeol oherwydd afiechyd. Mae'r risg **wedi'i achosi gan** fethiant y darparwr presennol sef Optima (a adwaenid fel Healthworks), i ddarparu presenoldeb meddygol cytundebol ôl-lanw ar gyfer apwyntiadau wyneb yn wyneb yn yr Adran Iechyd Galwedigaethol, **a all arwain at** oedi posibl mewn staff gyda chyflyrau meddygol cymhleth yn dychwelyd i'r gweithle.

Codwyd y risg Sefydlog hwn ar 01/05/23 gan y Pennaeth Gwasanaethau Meddygol a Lles. Penderfynwyd ar 'Lefel Risg Rheolaethau Cynt' fel DIFRIFOL ac mae'r 'Lefel Risg Presennol' yn UCHEL ar hyn o bryd. Y Lefel Targed ydy CANOLIG gyda Dyddiad Darfod Risg Targed yn 01/09/23.

Mae 4 x Gweithrediad ar y risg hon, 2 x BYW, 2 x wedi'u cwblhau.

Yr Arweinydd Risg ydy'r Pennaeth Gwasanaethau Meddygol a Lles.

• Risg 112 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG

4. RISGIAU NEWYDD SCHTh A GOFNODWYD AR GOFRESTR RISG YR HEDDLU ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF.

Mae 2 risg newydd SCHTh wedi'u hychwanegu at Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad risg CA diwethaf.

• Risg 109 Digonolrwydd adnoddau ariannol 2023/2024 (Risg SCHTh)

Mae Risg os ydy adnoddau ariannol yn annigonol **wedi'i achosi gan** chwyddiant, galwadau cyflog, cyllid llywodraeth, targedau arbedion, fformiwla dyraniadau'r heddlu; capio'r dreth gyngor ac effeithiau anhysbys gweithio mewn ffyrdd newydd yn dilyn Brexit **a all arwain at** fethu cyflawni gwasanaethau fel y cynlluniwyd.

- Codwyd y risg Sefydlog SCHTh hon ar 24/04/23 gan Brif Swyddog Cyllid SCHTh ac mae hyn yn berthnasol i flwyddyn ariannol 2023/2024 ac mae'n dilyn Risg 89 sef Digonolrwydd adnoddau ariannol 2022/2023. Penderfynwyd ar y 'Lefel Risg Rheolaethau Cynt' fel DIFRIFOL ac mae'r 'Lefel Risg Presennol' yn GANOLIG ar hyn o bryd. Y Lefel Risg Targed ydy CANOLIG gyda Dyddiad Darfod sef 11/04/24.

Mae 3 x Gweithrediad ar y risg hon, 2 x ar y gweill ac 1 x wedi'i gwblhau.

Yr Arweinydd Risg ydy Prif Swyddog Cyllid SCHTh.

- **Risg 113 Etholiad y CHTh 2023 (Risg SCHTh)**

Mae Risg Os ydy'r CHTh presennol yn defnyddio adnoddau SCHTh er mwyn cynorthwyo ei ymgyrch etholiad **wedi'i achosi gan** gall defnyddio cronfeydd cyhoeddus ar gyfer diben anghyfreithlon **arwain at** fantais annheg i'r CHTh presennol o'i gymharu ag ymgeiswyr eraill, a niwed difrifol i enw da'r CHTh a SCHTh.

Codwyd y risg Sefydlog SCHTh hon ar 10/05/23 gan Brif Swyddog Cyllid SCHTh. Penderfynwyd ar y 'Lefel Risg Rheolaethau Cynt' fel DIFRIFOL ac mae'r 'Lefel Risg Presennol' yn GANOLIG ar hyn o bryd. Y Lefel Risg Targed ydy ISEL gyda Dyddiad Darfod sef 31/05/24.

Mae 7 Gweithrediad ar y risg hon, 6 x ar y gweill ac 1 x yn disgwyl.

Yr Arweinydd Risg ydy Prif Swyddog Cyllid SCHTh.

5. **RISGIAU HGC A DYNWYD O GOFRESTR RISG YR HEDDLU ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF**

Mae 5 risg wedi cau ac wedi eu symud o'r Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad diwethaf.

- **Risg 010 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG**
- **Risg 046 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG**

- **Risg 057 Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN)**

Sgoriwyd y risg i ddechrau ar 13/05/20 gan y Cyfarwyddwr Cyllid.

Penderfynwyd ar y 'Lefel Risg Rheolaethau Cynt' fel UCHEL. Gostyngwyd y 'Lefel Risg Presennol' o UCHEL i GANOLIG ar 27/04/22. Roedd y 'Lefel Targed' yn ISEL.

Roedd y risg Sefydlog hon yn ymwneud â'r heddlu'n gorfod ariannu darn llaw newydd o'r stoc ton awyr presennol os nad ydy'r ESN yn cyflawni teclyn hyfyw cyn y maent yn ddiwedd oes.

Adolygwyd y risg gan yr UDRh Cyllid ac Adnoddau ar 24/05/23 a'i awdurdodi i'w dynnu o Gofrestr Risg yr Heddlu oherwydd:

- Mae'r ESN wedi'i ohirio.
- Cwblhawyd pob gweithrediad.
- Creu risg newydd o ran cynaliadwyedd Airwave.

- Mae'r risg wedi'i ddiweddu dros dro hyd nes mae'r Llywodraeth yn penderfynu sut i symud yr ESN ymlaen yn y dyfodol.
- Mae'r risg wedi derbyn Mapio Sicrwydd (URN 014).

Caewyd y risg a'i dynnu oddi ar Gofrestr Risg yr Heddlu ar 31/05/23.

• **Risg 073 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG**

• **Risg 078 System Weithredu Windows 10 heb ei chefnogi**

Codwyd y risg hwn i ddechrau ar 08/04/21 gan y Cyfarwyddwr Cyllid.

Penderfynwyd ar y 'Lefel Risg Rheolaethau Cynt' fel UCHEL. Gostyngwyd y 'Lefel Risg Presennol' o UCHEL i GANOLIG ar 24/01/22. Roedd y 'Lefel Targed' yn GANOLIG.

Roedd y risg Dynamig hwn yn berthnasol i Risg Diogelwch Gwybodaeth Genedlaethol fod Windows 10 heb ei gefnogi wedi cysylltu â gwasanaethau cwmwl newydd, **wedi'i achosi gan** y mudo cenedlaethol i wasanaethau cwmwl a chyhoeddiadau cymorth diwedd bywyd Microsoft, **a allai fod wedi arwain at** fregusrwydd cynyddol HGC am ymosodiad seiber.

Adolygwyd y risg gan yn UDRh Cyllid ac Adnoddau SMT a'i awdurdodi i'w dynnu o Gofrestr Risg yr Heddlu oherwydd:

- Cyflawnwyd Lefel Targed Risg CANOLIG.
- Mae'r risg WEDI'I THRIN.

Caewyd y risg a'i thynnu oddi ar Gofrestr Risg yr Heddlu ar 20/04/23.

• **Risg 082 Materion yn ymwneud â'r Gadwyn Gyflenwi TGCh**

Codwyd y risg hwn i ddechrau ar 10/09/21 gan y Pennaeth Seilwaith.

Penderfynwyd ar y 'Lefel Risg Rheolaethau Cynt' fel UCHEL. Gostyngwyd y 'Lefel Risg Presennol' o UCHEL i GANOLIG ar 01/06/22. Roedd y 'Lefel Targed' yn GANOLIG.

Roedd y risg Sefydlog hon yn berthnasol i HGC yn methu cael yr offer TGCh hanfodol oherwydd heriau'r gadwyn gyflenwi **wedi'i achosi gan** bwysau cynyddol y gadwyn gyflenwi sy'n effeithio ar brisio, argaeledd ac amseroedd arweinwyr **a all fod wedi arwain at** effaith negyddol ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr Heddlu oherwydd oedi mewn cael yr offer hanfodol hwn a'i allu i gyflawni o ran ei amcanion.

Adolygwyd y risg gan yn UDRh Cyllid ac Adnoddau SMT ar 24/05/23 a'i awdurdodi i'w dynnu o Gofrestr Risg yr Heddlu oherwydd:

- Cyflawnwyd Lefel Targed Risg CANOLIG.
- Mae gweithrediadau o dan reolaeth ac mae lefelau stoc yn cael eu rheoli'n dda.
- Bydd y risg yn cael ei GODDEF.

Caewyd y risg a'i thynnu oddi ar Gofrestr Risg yr Heddlu ar 01/06/23.

• **Risg 104 Galw'r Uned Les**

Codwyd y risg hon i ddechrau ar 03/08/22 gan yr Arweinydd Lles Corfforaethol.

Penderfynwyd ar y 'Lefel Risg Rheolaethau Cynt' fel UCHEL. Gostyngwyd y 'Lefel Risg Presennol' o UCHEL i ISEL ar 07/03/23. Roedd y 'Lefel Targed' yn ISEL.

Roedd y risg Dynamig hwn yn berthnasol i'r ffaith nad oedd galw cynyddol am gymorth lles yn cael ei fodloni gan yr adnoddau sydd ar gael o fewn y Tîm Iechyd a Lles, **wedi'i achosi gan** alw cynyddol am gymorth ar draws yr Heddlu wrth i swyddogion a staff fod yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael oherwydd pwysau ar ein gweithlu'n cynyddu. **Gall hyn fod wedi arwain at** oedi i unigolion yn gallu cael mynediad at gymorth a allai arwain at absenoldeb salwch; afiechyd aelodau'r Tîm Iechyd a Lles wrth iddynt gael trafferth ymdopi gyda galw a gostyngiad yn y math o wasanaethau a ellir eu darparu.

Adolygwyd y risg gan UDRh Gwasanaethau Corfforaethol ar 15/03/23 a'i awdurdodi i'w dynnu o Gofrestr Risg yr Heddlu oherwydd:

- Cwblhawyd pob gweithrediad.
- Mae'r risg Wedi'i Thrin
- Cyrhaeddwyd Lefel Risg ISEL.

Caewyd y risg a'i thynnu oddi ar Gofrestr Risg yr Heddlu ar 30/03/23.

6. RISGIAU SCHTH A DYNNEWYD O GOFRESTR RISG YR HEDDLU ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF

Mae 1 risg SCHTH wedi'i chau a'i symud o Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad diwethaf.

- **Risg 089 Digonolrwydd adnoddau ariannol 2023/2024**

Codwyd y risg hon i ddechrau ar 09/02/22 gan Brif Swyddog Cyllid SCHTH.

Penderfynwyd ar y 'Lefel Risg Rheolaethau Cynt' fel DIFRIFOL. Gostyngwyd y 'Lefel Risg Presennol' o UCHEL i GANOLIG ar 08/03/23. Roedd y 'Lefel Targed' yn GANOLIG.

Roedd y risg SEFYDLOG hon yn gysylltiedig ag adnoddau ariannol a all fod yn annigonol **wedi'i achosi gan** ansicrwydd fel targedau arbedion; cyllid llywodraeth; fformiwlâ dyraniadau'r heddlu; capio'r dreth gyngor; chwyddiant ac effeithiau anhysbys hyd yn hyn gweithio mewn ffyrdd newydd yn dilyn BREXIT a phandemig Covid-19 **a allai fod wedi arwain at** fethu cyflawni gwasanaethau fel y cynlluniwyd.

Adolygwyd y risg gan SCHTH a'i hawdurdodi gan Brif Swyddog Cyllid SCHTH i'w thynnu o Gofrestr Risg yr Heddlu oherwydd:

- Mae pob gweithrediad yn berthnasol i risg ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gyflawn.
- Cyflawnwyd Lefel Targed Risg CANOLIG.
- Risg Newydd 109 Digonolrwydd adnoddau ariannol 2023/2024 wedi'i agor a'i groesgyfeirio at y risg hon.

Caewyd y risg a'i thynnu oddi ar Gofrestr Risg yr Heddlu ar 26/04/23.

7. NEWIDIADAU I'R RISGIAU HGC AR GOFRESTR RISG YR HEDDLU ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF

Mae 7 risg HGC byw wedi'u newid eu Lefelau Risg presennol ers yr adroddiad diwethaf.

- **Risg 071 Pensiynau**

Mae Risg y gall costau sy'n berthnasol i bensiynau gynyddu oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth, rheoliadau a phenderfyniadau'r llys, **wedi'i achosi gan** benderfyniad yr uchel lys fod newidiadau a wnaed i gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus wedi'u tybied yn wahaniaethol, **a all arwain at** ddatrysiaid a fydd yn cael effaith gyffredinol ar sefyllfa ariannol yr Heddlu.

Cyn y mesurau rheoli, penderfynwyd ar hyn fel risg UCHEL. Mae hon yn Risg SEFYDLOG a oedd â Lefel Risg Presennol UCHEL i ddechrau. Gostyngwyd y Lefel Risg Presennol o UCHEL i GANOLIG ar 9 Mawrth 2023.

- **Risg 081 Methu denu staff i ymgeisio am rolau allweddol.**

Mae risg nad yw darpar ymgeiswyr, yn allanol ac yn fewnol, yn cael eu denu i wneud cais am rolau allweddol arbenigol a hysbysebwr gan Heddlu Gogledd Cymru **a achosir gan** broblem barhaus lle mae'r cyflogau a hysbysebwr yn llai na gwerth y farchnad o gymharu â sectorau cyflogaeth eraill, lleoliad daearyddol ein sefydliad, gofynion mynediad i'r Gymraeg a diffyg gallu sgiliau lleol **a allai olygu** na all yr Heddlu lenwi rolau arbenigol allweddol i helpu i gyflawni ein Hamcanion Gweithlu.

Cyn y mesurau rheoli, penderfynwyd ar hyn fel risg DDIFRIFOL. Mae hon yn risg DDYNAMIG gyda Lefel Risg Bresennol o UCHEL. Gostyngwyd y Lefel Risg Presennol o UCHEL i GANOLIG ar 7 Mawrth 2023.

- **Risg 096 Galw Gormodol o fewn yr Uned Dadansoddwyr**

Mae Risg nad oes digon o ddadansoddwyr cudd-wybodaeth er mwyn bodloni galw presennol yr Heddlu **wedi'i achosi gan** y cynnydd o allu rhagweithiol a'r angen am gymorth dadansoddol i swyddogaethau hanfodol eraill ledled yr Heddlu fel Digwyddiadau Difrifol, Troseddau rhywiol difrifol a'r Uned Troseddau Difrifol a Threfnedig **a all arwain at** staff yn gadael y sefydliad oherwydd straen a llwyth gwaith trwm yn effeithio'r gallu i fodloni ein Amcanion Heddlu a Throsedd.

Cyn y mesurau rheoli, penderfynwyd ar hyn fel risg UCHEL. Mae hon yn Risg SEFYDLOG a oedd â Lefel Risg Presennol UCHEL i ddechrau. Gostyngwyd y Lefel Risg Presennol o UCHEL i GANOLIG ar 5 Mai 2023.

- **Risg 097 Ceisiadau Meddygol BIP Betsi Cadwaladr**

Gall fod risg fod gan Betsi Cadwaladr ôl Groniad o brosesu ceisiadau meddygol Heddlu Gogledd Cymru **wedi'i achosi gan** brinder staff yn BIP Betsi Cadwaladr drwy salwch tymor hir, Covid a swyddi gwag yn cael eu hysbysebu, **a allai arwain at** GEG yn atal achosion / GEG yn awdurdodi llai o gyhuddiadau ar achosion Heddlu Gogledd Cymru.

Cyn y mesurau rheoli, penderfynwyd ar hyn fel risg UCHEL. Mae hon yn Risg DDYNAMIG a oedd â Lefel Risg Presennol UCHEL i ddechrau. Gostyngwyd y Lefel Risg Presennol o UCHEL i GANOLIG ar 26 Mehefin 2023.

- **Risg 099 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG**

- **Risg 103 Gallu Cynyddu Swyddogion**

Mae perygl y gall methu recriwtio ac integreiddio digon o swyddogion heddlu drwy ymgyrch uplift, **wedi'i achosi gan** sawl swyddog o HGC yn ymddiswyddo, ymddeol, neu'n trosglwyddo i heddluoedd eraill a diffyg swyddogion addas, **arwain at** fethu bodloni targedau'r swyddfa gartref a wnaiff effeithio ar gyllidebau'r dyfodol a gallu'r heddlu i gyflawni ei flaenoriaethau.

Cyn y mesurau rheoli, penderfynwyd ar hyn fel risg UCHEL. Mae hon yn Risg DDYNAMIG a oedd â Lefel Risg Presennol UCHEL i ddechrau. Gostyngwyd y Lefel Risg Presennol' o UCHEL i ISEL ar 30 Mawrth 2023. Mae pob gweithrediad wedi'i gwblhau.

• Risg 108 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEDIG

8. NEWIDIADAU I'R RISGIAU SCHTH AR GOFRESTR RISG YR HEDDLU ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF

Mae 1 risg SCHTh Byw sydd wedi newid ei lefel risg presennol ers yr adroddiad diwethaf.

• Risg 109 Digonolrwydd adnoddau ariannol 2023/2024

Mae Risg os ydy adnoddau ariannol yn annigonol **wedi'i achosi gan** chwyddiant, galwadau cyflog, cyllid llywodraeth, targedau arbedion, fformiwla dyraniadau'r heddlu; capio'r dreth gyngor ac effeithiau anhysbys gweithio mewn ffyrdd newydd yn dilyn Brexit **a all arwain at** fethu cyflawni gwasanaethau fel y cynlluniwyd.

**DS. Mae'r risg hon yn berthnasol i flwyddyn ariannol 2023/2024 ac yn dilyn Risg 89 Digonolrwydd adnoddau ariannol 2022/2023 **

Cyn y mesurau rheoli, penderfynwyd ar hyn fel risg DDIFRIFOL. Mae hon yn Risg SEFYDLOG a oedd â Lefel Risg Presennol UCHEL i ddechrau. Gostyngwyd y Lefel Risg Presennol o UCHEL i GANOLIG ar 14 Mehefin 2023.

9. GWEITHREDIADAU COFRESTR RISGIAU'R HEDDLU

• Graddau RAG Gweithrediadau Risg – HGC

Gweithrediadau Ddim ar y Gweill	Gweithrediadau Ar y Gweill ond gyda Phroblemau	Gweithrediadau Ar y Gweill	Gweithrediadau wedi'u Cwblhau
15	4	24	75

Mae risgiau wedi'u hamlygu gyda '*Gweithrediadau ar y Gweill ond gyda phroblemau*' yn berthnasol i Weithrediadau sy'n cael eu marcio ar hyn o bryd fel yn aros neu wedi gohirio ac yn disgwyl ar benderfyniadau ar gynnydd.

Mae risgiau wedi'u hamlygu gyda '*Gweithrediadau Ddim ar y Gweill*' yn berthnasol i Weithrediadau hwyr ac yn disgwyl diweddariadau gan Arweinwyr Risg.

• Graddau RAG Gweithrediadau Risg – SCHTh

Gweithrediadau Ddim ar y Gweill	Gweithrediadau Ar y Gweill ond gyda Phroblemau	Gweithrediadau Ar y Gweill	Gweithrediadau wedi'u Cwblhau
0	1	10	2

Mae risgiau wedi'u hamlygu gyda '*Gweithrediadau ar y Gweill ond gyda phroblemau*' yn berthnasol i Weithrediadau sy'n cael eu marcio ar hyn o bryd fel yn aros neu wedi gohirio ac yn disgwyl ar benderfyniadau ar gynnydd.

Mae risgiau wedi'u hamlygu gyda 'Gweithrediadau Ddim ar y Gweill' yn berthnasol i Weithrediadau hwyr ac yn disgwyl diweddariadau gan Arweinwyr Risg.

10. COFRESTR RISG COVID19 YR HEDDLU

Nid oes risgiau wedi'u cofnodi ar Gofrestr Risg Covid19 yr Heddlu.

11. DATBLYGIADAU O RAN RHEOLI RISGIAU

Prosesau Adolygiad Annibynnol o Brosesau Rheoli Risg

Fel yr hysbyswyd yn flaenorol, gofynnwyd i'n Hyswirwyr Heddlu ddarparu adolygiad annibynnol o Brosesau Rheoli Risg HGC. Roedd cyfnod un o'r adolygiad fod i ddechrau ym mis Mehefin.

Yn anffodus, nid ydy'r cytundeb ar gyfer ein Hyswirwyr Heddlu wedi'i adnewyddu ac mae'r Yswirwyr newydd ond yn rhoi £1200 i'r Heddlu tuag at ymgynghoriad.

Mae trafodaethau bellach wedi bod gyda'r Yswiriwr newydd a wnaiff ystyried ffordd ymlaen er mwyn bodloni anghenion y sefydliad. Maent wedi hysbysu fod hyn yn rhywbeth nad ydynt wedi ei wneud o'r blaen a byddant yn ceisio cyngor gan ein Brocer Yswiriant.

Bydd aelodau'r CA yn cael gwybod am sut mae pethau yn mynd ymlaen.

12. CRYNODEB AM RISGIAU HGC AR GOFRESTR RISG YR HEDDLU AR 29/06/2023

URN	Teitl y Risg	Lefelau'r Risg			Math o Risg	Dyddiad y Risg a Godwyd	Dyddiad yr Adolygiad Diwethaf	Cynnydd Gweithrediadau Risg				
		Cyn Rheolaethau	Yn bresennol	Targed				Gweithrediadau Neilltuoel	Gweithrediadau wedi'u Cwblhau	Ar y Gweill	Ar y trywydd iawn ond gyda Phroblemau	Dim ar y Gweill
3	Cronfa Ddata RMS Legacy	Uchel	Canolig	IseI	Sefydlog	10/08/16	27/06/23	1	1	1		
54	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Canolig	IseI	Dynamig	29/04/20	12/06/23	1	1	1		
60	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Canolig	Canolig	Sefydlog	19/05/20	19/04/23	1	3	-		1
71	Pensiynau	Uchel	Canolig	Canolig	Sefydlog	20/01/21	09/06/23	1	3	-		1
74	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Difrifol	Canolig	Canolig	Dynamig	04/06/21	21/06/23	1	14	1		
78	System Weithredu Microsoft Windows 10 heb ei chefnogi	Uchel	Canolig	Canolig	Dynamig	08/04/21	22/02/22	1	1	1		
81	Anallu denu Staff i wneud cais am rolau allweddol o fewn HGC	Difrifol	Canolig	Canolig	Dynamig	08/09/21	07/03/23	3	3	-		2
85	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Difrifol	Canolig	Canolig	Dynamig	29/11/21	29/06/23	1	0	1		
86	Ôl-groniadau'r Uned Ddadleniadau	Uchel	Canolig	Canolig	Sefydlog	09/11/21	21/06/23	1	2	1		
88	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Uchel	IseI	Dynamig	01/02/22	21/06/23	2	3	2		
91	Colli arian a fuddsoddiwyd ar y farchnad arian	Difrifol	IseI	IseI	Sefydlog	16/02/22	31/05/23	2	1			2
93	Adnoddau ariannol annigonol i gyflwyno cynlluniau gwasanaeth am y cyfnod 01/04/2022 tan 31/3/2023	Difrifol	Canolig	Canolig	Sefydlog	15/03/22	16/05/23	0	2			
94	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Canolig	Dibwys	Dynamig	22/02/22	12/06/23	2	6	2		
96	Galw Gormodol o fewn yr Uned Dadansoddiwyr	Uchel	Canolig	Canolig	Sefydlog	12/04/22	05/05/23	2	10	2		
97	Ceisiadau Meddygol BIP Betsi Cadwaladr	Uchel	Canolig	Canolig	Dynamig	14/04/22	26/06/23	0	3			
98	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Difrifol	Difrifol	Canolig	Dynamig	19/05/22	10/04/23	2	5			2
99	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	IseI	IseI	Dynamig	13/06/22	05/07/23	0	7			
101	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Canolig	IseI	Dibwys	Sefydlog	07/06/22	24/05/23	2	0	1	1	
103	Gallu cynyddu swyddogion	Uchel	IseI	IseI	Dynamig	15/09/22	30/03/23	0	4			
105	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Uchel	Canolig	Sefydlog	03/01/23	05/04/23	4	1		3	1
106	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Difrifol	Difrifol	Canolig	Sefydlog	03/01/23	21/03/23	3	0			3
108	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Difrifol	Uchel	Dibwys	Dynamig	20/12/22	29/06/23	6	3	3		3
110	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Uchel	Canolig	Sefydlog	09/05/23	09/05/23	2	0	2		
111	Diffyg presenoldeb Ymgynghorydd Meddygol yr Heddlu	Difrifol	Uchel	Canolig	Dynamig	01/05/23	10/06/23	2	2	2		
112	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Difrifol	Uchel	IseI	Dynamig	01/05/23	26/06/23	4	0	4		

13. CRYNODEB AM RISGIAU SCHTH AR GOFRESTR RISG YR HEDDLU AR 29/06/2023

URN	Teitl y Risg	Lefelau'r Risg			Math o Risg	Dyddiad y Risg a Godwyd	Dyddiad yr Adolygiad Diwethaf	Cynnydd Gweithrediadau Risg				
		Cyn Rheolaethau	Yn bresennol	Targed				Gweithrediadau Neilltuol	Gweithrediadau wedi'u Cwblhau	Ar y Gweill	Ar y trywydd iawn ond gyda Phroblemau	Dim ar y Gweill
91	Colli arian a fuddsoddwyd ar y farchnad arian	Difrifol	IseI	IseI	Sefydlog	16/02/22	31/05/23	2	1	2		
109	Digonolrwydd adnoddau ariannol 2023/2024	Difrifol	Canolig	Canolig	Sefydlog	26/04/23	26/04/23	2	1	2		
113	Etholiad CHTh 2024	Uchel	Canolig	IseI	Sefydlog	10/05/23	10/05/23	7	0	6	1	

Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 27 Gorffennaf 2023

Teitl:	Rhaglen Waith Arfaethedig
Awdur:	Prif Swyddog Cyllid
Diben yr adroddiad:	I gytuno ar y rhaglen waith
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> X Gwneud Penderfyniadau <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input type="checkbox"/> Sicrwydd <input type="checkbox"/> Gwybodaeth am y Wobr
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<ul style="list-style-type: none">• Sicrhau bod y Cydbwyllgor yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â dyddiadau cau statudol, a bod holl gyfrifoldebau'r Cydbwyllgor yn cael eu cwblhau yn ystod bob blwyddyn.• Adborth gan y Cydbwyllgor Archwilio, ac wedi ychwanegu'r eitemau canlynol i'w cyflwyno i gyfarfodydd yn y dyfodol:<ul style="list-style-type: none">○ rheoli gwybodaeth a chydymffurfiaeth○ darparu gwasanaeth archwilio mewnol
Argymhellion:	<ul style="list-style-type: none">• Aelodau'r Cydbwyllgor i nodi pa eitemau sy'n amodol ar ddyddiad cau statudol, ac felly mae'r cyfarfodydd wedi'u trefnu i gyflawni'r gofynion hynny.• Aelodau'r Cydbwyllgor i ystyried cynnwys ychwanegol a allai gael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.• Rhaglen waith y dyfodol i gael ei chyflwyno i bob cyfarfod, gan amlinellu'r gwaith am y deuddeg mis nesaf yn dreiglol.
Effaith cofrestr risgiau:	Un o ddibenion y Cydbwyllgor yw rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl fod risgiau ariannol ac anariannol yn cael eu rheoli'n effeithiol.
Goblygiadau sicrwydd:	Diben y Cydbwyllgor Archwilio yw rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl, yn unol â'r Cylch Gorchwyl. Mae'r rhaglen waith yn cynorthwyo i sicrhau bod holl feysydd perthnasol yn cael eu cyflwyno i'r Cydbwyllgor.
Effaith Cydraddoldeb:	Ystyriwyd deddfwriaeth cydraddoldeb wrth recriwtio aelodau annibynnol y Cydbwyllgor Archwilio. Mae Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd mewn grym.
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Dim.

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

27 Gorffennaf 2023

RHAGLEN GWAITH ARFAETHEDIG

Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid

1. CYFLWYNIAD

- 1.2** Mae'r Cydbwyllgor Archwilio wedi derbyn rhaglen waith yn flynyddol yn ystod cyfarfod mis Gorffennaf. Mae hyn yn sicrhau bod y Cydbwyllgor yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â dyddiadau cau statudol, a bod holl gyfrifoldebau'r Cydbwyllgorau yn cael eu cwblhau yn ystod bob blwyddyn.
- 1.3** Yn ogystal, mae eitemau i'w cyflwyno i'r Cydbwyllgor Archwilio i'w nodi drwy ffyrdd amrywiol – gan swyddogion, staff neu aelodau'r Cydbwyllgor. Mae'r rhain wedi'u hychwanegu at y rhaglen waith yn llai ffurfiol, ac yn cael eu hychwanegu at yr agenda fel mae'n briodol.
- 1.4** Mae plismona'n amgylchfyd sy'n newid yn barhaus. Ers y cyfarfod diwethaf, mae'r eitemau canlynol wedi'u hymgorffori i'r rhaglen waith hon:
- Elfennau gwerth am arian
 - Cynaliadwyedd
 - Cylchredeg ffurflenni anghenion hyfforddiant y CA
 - Cylchredeg y Cyflwyniad i Gyfrifon
- 1.5** Mae'r adroddiad hwn, felly, yn cynnwys y cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer y deuddeg mis nesaf. Os nad yw dyddiad y cyfarfod wedi'i gadarnhau, dangosir mis y cyfarfod fel arweiniad.

2. ARGYMHELLION

- 2.1** Aelodau'r Cydbwyllgor i nodi pa eitemau sy'n amodol ar ddyddiad cau statudol, ac felly mae'r cyfarfodydd wedi'u trefnu i gyflawni'r gofynion hynny.
- 2.2** Aelodau'r Cydbwyllgor i ystyried cynnwys ychwanegol a allai gael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.
- 2.3** Rhaglen waith y dyfodol i gael ei chyflwyno i bob cyfarfod, gan amlinellu'r gwaith am y deuddeg mis nesaf yn dreiglol.

3. RHAGLEN WAITH

- 3.1** Gan eithrio eitemau a amserlennwyd sy'n bodloni dyddiadau cau statudol, mae'r rhaglen waith yn hyblyg. Felly, gall eitemau ychwanegol gael eu hychwanegu os yw'r angen yn codi.
- 3.2** Mae nifer o eitemau agenda sefydlog ar hyn o bryd yn cael eu trefnu ar gyfer bob cyfarfod. Bydd y rhain yn parhau ar agenda'r CA hyd nes y clywir yn wahanol:

Dyddiad y Cyfarfod	Rhaglen Waith 2022/23
Pawb (Hyd nes y clywir yn wahanol)	<ul style="list-style-type: none"> • Diweddariad Busnes yn cynnwys Gwerth am Arian • Diweddariad HMICFRS (wedi'i ymgorffori i'r uchod oni bai ei fod yn sylweddol) • Diweddariad Archwilio Mewnol • Diweddariad Risgiau • Newidiadau sefydliadol • Diweddariad Digidol TGCh • Rhaglen Waith

Mae'r rhaglen waith ar wahân i'r eitemau agenda sefydlog a amlinellir uchod fel a ganlyn:

Dyddiad y Cyfarfod	Rhaglen Waith 2023/24
28 Medi 2023	<ul style="list-style-type: none"> • Dros Dro – Datganiad Olaf Strategaeth Risg a Chwant Risg (os na chwblheir ar gyfer cyfarfod 27 Gorffennaf) • Diweddariad Llywodraethu • Proffiliau Gwerth am Arian HMICFRS • Diweddariad Cynaliadwyedd • Adroddiad at wraidd y mater risg: Risg 54 <i>sesiwn gaeedig</i> • Sesiwn Friffio'r CA: Cyflwyno gweithio hyblyg • Sesiwn Friffio'r CA: Cydweithredu
24 Hydref 2023	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfrifon drafft cyn y cyhoeddwyd y cyfrifon a archwiliwyd (sesiwn friffio'r CA) • Crynodeb o'r cyfrifon • Cynllun Hyfforddi Blynyddol y CA
7 Rhagfyr 2023	<ul style="list-style-type: none"> • ISA 260 a llofnodi cyfrifon • Archwilio Cymru – Adroddiad Gwerth am Arian ac Archwiliad Blynyddol (Llythyr Rheolwyr) • Diweddariad Gwerth am Arian • Adroddiad at wraidd y mater risg: Risg 60 <i>sesiwn gaeedig</i> • Sesiwn friffio: CG/SWAN/VAWG • Diweddariad moeseg • Rhaglen Gyfalaf – Diweddariad • Diweddariad llywodraethu • Cyflawniad Rheoli'r Trysorlys • Adroddiad Cyfreithiol • Adroddiad HMICFRS – Adolygiad PEEL • Fframwaith Rheoli Ceisiadau <i>sesiwn gaeedig</i>
Mawrth 2024	<ul style="list-style-type: none"> • Strategaeth Gyfalaf (yn cynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys) <i>i'w chadarnhau cyn 1 Ebrill 2024</i> • Diweddariad llywodraethu – yn cynnwys AGS drafft • Diweddariad Cynaliadwyedd • Archwilio Cymru – cynllun blynyddol
Gwanwyn 2024	<ul style="list-style-type: none"> • Digwyddiad hyfforddiant Cymru Gyfan
Mehafin 2024	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfarwyddyd Technegol Cyfrifon

	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyniad i'r cyfrifon
Gorffennaf 2024	<ul style="list-style-type: none"> • ISA 260 a llofnodi cyfrifon <i>i'w llofnodi erbyn 31 Gorffennaf 2024</i> • Datganiad Rheoli'r Heddlu • Hunan-asesiad ac Adroddiad Blynyddol y CA – adroddiad terfynol • Datganiad Strategaeth Risg a Pharoddrwydd Risg – Adolygiad blynyddol • Cyflawniad Rheoli'r Trysorlys • Adroddiad Cyfreithiol
Medi 2024	<ul style="list-style-type: none"> • Diweddariad llywodraethu • Diweddariad Cynaliadwyedd • Proffiliau Gwerth am Arian HMICFRS
Rhagfyr 2024	<ul style="list-style-type: none"> • Archwilio Cymru – Adroddiad Gwerth am Arian ac Archwiliad Blynyddol (Llythyr Rheolwyr) • Diweddariad llywodraethu • Cyflawniad Rheoli'r Trysorlys • Adroddiad Cyfreithiol • Diweddariad Gwerth am Arian • Adroddiad HMICFRS - Adolygiad PEEL

Eitemau eraill i'w trafod gyda'r CA	<p>Cynllun Gweithredu Gwerthuso CA – Sicrhau fod sesiynau ymroddedig a chaeedig wedi'u trefnu yn ôl yr angen er mwyn symud gweithrediadau cynllun Gwerthusiad y CA yn ôl yr angen. Mae hyn yn cynnwys adolygu effeithiolrwydd darparwyr sicrwydd gan ystyried darparu gwasanaethau archwilio mewnol yn benodol.</p> <p>Cyflwyno Rhaglen TG (yn fisol, tu allan i gyfarfodydd)</p> <p>Cyfarfod rhwng y Cydbwyllgor Archwilio ac Archwilio Cymru</p> <p>Cyfarfod rhwng y Cydbwyllgor Archwilio ac Archwilio Mewnol</p> <p>Cynaliadwyedd a datgarboneiddio</p>
-------------------------------------	---

4. GOBLYGIADAU

4.1	Cydraddoldeb	Ystyriwyd deddfwriaeth cydraddoldeb wrth recriwtio aelodau annibynnol y Cydbwyllgor Archwilio. Mae Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd mewn grym.
4.2	Ariannol	Mae cynllunio'r gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod yn lleihau'r angen am gyfarfodydd unswydd.
4.3	Cyfreithiol	Mae deddfwriaeth yn gofyn i Gydbwyllgor Archwilio gael ei sefydlu. Crynhoir swyddogaethau'r Cydbwyllgor Archwilio o fewn ei Cylch Gorchwyl , sydd wedi'i baratoli yn unol ag <i>Audit Committees\Practical Guidance for local Authorities and Police – Rhifyn 2018 (CIPFA)</i> . Mae'r rhaglen waith hon yn ystyried gofynion statudol ac ymarferol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau hyn.
4.4	Cymuned	Cyhoeddir papurau a chofnodion cyfarfodydd, ac mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd eu mynychu.
4.5	Risg	Un o ddibenion y Cydbwyllgor yw rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl fod risgiau ariannol ac anariannol yn cael eu rheoli'n effeithiol.

4.6	Cynllun Heddlu a Throsedd	Mae rôl y Cydbwyllgor Archwilio yn rhan o'r Cynllun Heddlu a Throsedd cyffredinol.
-----	---------------------------	--

Awdur yr Adroddiad:

Kate Jackson

Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 27 Gorffennaf 2023

Teitl:	Adroddiad Alldro Rheoli'r Trysorlys 2022-23
Awdur:	Prif Swyddog Cyllid
Diben yr adroddiad:	Adrodd ar gyflawniad rheoli'r trysorlys
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input checked="" type="checkbox"/> Sicrwydd <input type="checkbox"/> Gwybodaeth
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Cod Ymarfer Gwasanaethau Cyhoeddus Rheoli'r Trysorlys CIPFA yn gofyn i adroddiad ar gyflawniad Rheoli'r Trysorlys gael ei ystyried o leiaf ddwywaith y flwyddyn. • Mae'n cynnwys crynodeb o weithgarwch Rheoli'r Trysorlys a wnaed yn ystod 2022-23. • Mae'n ymdrin â buddsoddi arian parod sy'n weddill ac unrhyw ofynion benthyca. • Mae'n tynnu sylw at a dorwyd unrhyw gyfyngiadau neu ddangosyddion ai peidio. Yn ystod 2022-23, ni thorrwyd dangosyddion statudol.
Argymhellion:	Cyflwynir yr adroddiad i'r Cydbwyllgor Archwilio am wybodaeth a sylwadau, a rhoi sicrwydd pellach i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
Effaith cofrestr risgiau:	Dim effaith – mae'r trefniadau wedi'u llunio i reoli'r risg o fuddsoddi a benthyg.
Goblygiadau sicrwydd:	Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cyflawniad o ran rheolau a chyfyngiadau a gytunwyd ar gyfer buddsoddi a benthyg arian yn ôl y strategaeth Rheoli'r Trysorlys sydd mewn lle ar gyfer 2022-23.
Effaith Cydraddoldeb:	Dim effaith.
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Dim gwybodaeth wedi'i hesgusodi.

Adroddiad Alldro Rheoli'r Trysorlys 2022/23

1. Cyflwyniad

Mae *Treasury Management in the Public Services: Code of Practice* (y Cod CIPFA) y Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifyddu Cyhoeddus yn gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gymeradwyo adroddiadau rheoli'r trysorlys chwe-misol a blynyddol.

Craffwyd ar Strategaeth Gyfalaf y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, sy'n cynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2022/23, yn y Cydbwyllgor Archwilio ar 28 Mawrth 2022, a'i gymeradwyo gan Hysbysiad Penderfyniad ar 1 Ebrill 2022. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddiwyd a'r effaith refeniw o newid cyfraddau llog. Mae llwyddo nodi, monitro a rheoli risg yn parhau'n ganolog i strategaeth rheoli'r trysorlys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Mae Cod Darbodus 2021 yn cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol roi Strategaeth Gyfalaf, dogfen gryno a gymeradwyir gan Gyngor llawn sy'n gofalu am wariant cyfalaf a chyllid, rheoli'r trysorlys a buddsoddiadau sydd ddim yn y trysorlys.

2. Cyd-destun Allanol

Cefndir economaidd: Parhaodd y rhyfel yn Wcráin gadw chwyddiant byd-eang uwchben targedau banc canolog. Parhaodd rhagolwg economaidd y DU yn gymharol wan gyda'r siawns o ddirwasgiad cymedrol. Parhaodd y cefndir economaidd yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth i gael ei nodweddu gan brisiau ynni a nwyddau uchel, chwyddiant uchel a'r effaith cysylltiedig ar gyllidebau a gwariant ymysg teuluoedd.

Parhaodd rhethreg a gweithredu'r banciau canolog yn gyson gyda gwrthsefyll chwyddiant. Gwnaeth Banc Lloegr, Cronfa Ffederal wrth Gefn y DU a'r Banc Canolog Ewropeaidd gynyddu cyfraddau llog dros y cyfnod, hyd yn oed yn wyneb arafu economaidd posibl yn y rhanbarthau hynny.

Gan ddechrau'r flwyddyn ariannol ar 5.5%, cododd mesur CPI blynyddol chwyddiant y DU yn gryf i gyrraedd 10.1% ym mis Gorffennaf ac yna 11.1% ym mis Hydref. Parhaodd chwyddiant yn uchel yn y misoedd yn dilyn ond ymddengys ei fod heibio'r brig, cyn codi'n annisgwyl eto ym mis Chwefror. Gwnaeth y prif CPI blynyddol gyrraedd 10.4% ym mis Chwefror, cynnydd o 10.1% ym mis Ionawr, gyda'r cyfraniadau cynyddol mwyaf yn deillio o fwyd a thai. Dilynodd RPI batrwm tebyg yn ystod y flwyddyn, gan gyrraedd 14.2% ym mis Hydref. Ym mis Chwefror, roedd RPI yn 13.8%, sy'n gynydd o 13.4% yn y mis blaenorol.

Yn dilyn y penderfyniad gan lywodraeth y DU o dan Rishi Sunak a Jeremy Hunt i wrthdroi rhywfaint o'r cymorth i filiau ynni cartrefi a gyhoeddwyd o dan Liz Truss, cyhoeddwyd cymorth pellach ar ffurf cap ar yr hyn y gallai cyflenwyr ynni ei godi ar deuluoedd yng Nghyllideb mis Mawrth i redeg o fis Ebrill tan ddiwedd mis Mehefin 2023. Cyn y cyhoeddiad, roedd biliau arferol cartrefi fod i godi £3,000 y flwyddyn o fis Ebrill.

Parhaodd y farchnad lafur yn dynn er hynny gyda rhywfaint o dystiolaeth barhaus o lacio posibl ar ddiwedd y cyfnod. Esmwythodd y gyfradd ddiweithdra 3 mis/y flwyddyn o 3.8% Ebrill-Mehefin i 3.6% yn y chwarter dilynol, cyn codi eto i 3.7% rhwng Hydref-Rhagfyr. Dangosodd y wybodaeth ddiweddaraf am y cyfnod Rhagfyr-Chwefror gyfradd diweithdra o 3.7%.

Roedd y gyfradd segurddod yn 21.3% yn chwarter Rhagfyr-Chwefror, sydd ychydig i lawr o 21.4% yn chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Roedd enillion nominal yn gadarn drwy'r flwyddyn, gyda thwf enillion yn Rhagfyr-Chwefror ar 5.7% ar gyfer y cyfanswm cyflog (gan gynnwys bonysau) a 6.5% ar gyfer cyflog arferol. Unwaith yr addaswyd ar gyfer

chwyddiant, fodd bynnag, roedd mesurau'n negyddol ar gyfer y cyfnod hwnnw ac wedi bod drwy gydol y rhan fwyaf o'r flwyddyn.

Er bod cyllidebau teuluoedd yn parhau o dan bwysau, cododd hyder defnyddwyr i -36 ym mis Mawrth, yn dilyn darlleniadau o -38 a -45 yn y ddau fis blaenorol. Roedd yn llawer gwell o'i gymharu â'r darlleniad isaf erioed sef -49 ym mis Medi. Roedd GDP chwarterol yn esmwyth drwy'r flwyddyn, gan gofrestru elw o 0.1% yn y cyfnod Ebrill-Mehafin, cyn crebachu -0.1% (cynnydd diwygiedig) yn y chwarter dilynol. Roedd y cyfnod Hydref-Rhagfyr wedi'i ddiwygio'n gynyddol i 0.1% (o 0.0%), gan roi darlun economaidd gwydn ond gwan. Roedd y gyfradd dwf flynyddol yn Ch4 yn 0.6%.

Cynyddodd Banc Lloegr y Gyfradd Fanc swyddogol i 4.25% yn ystod y flwyddyn ariannol. O 0.75% ym mis Mawrth 2022, gwthiodd y Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) gynnydd ym mhob un o'r cyfarfodydd canlynol, gyda neidio 50bps yn ddiweddar ym mis Rhagfyr a mis Chwefror ac yna 25bps ym mis Mawrth, gan fynd â'r Gyfradd Fanc i 4.25%. Pleidleisiwyd cynnydd mis Mawrth gan fwyafrif o 7-2, gyda dau aelod o'r MPC yn ffafrio cadw'r Gyfradd Fanc ar 4.0%. Nododd y Cydbwyllgor fod pwysau chwyddiant yn parhau'n uchel gyda thwf yn gryfach na'r disgwyl yn Adroddiad Polisi Ariannol mis Chwefror. Roedd pleidlais mis Chwefror 7-2 o blaid naid, ac eto gyda dau aelod yn ffafrio cadw'r Gyfradd Fanc fel ag y mae.

Wedi cyrraedd 9.1% ym mis Mehefin, lleddfodd chwyddiant blynyddol yr UD am wyth mis ar ôl ei gilydd i 6% ym mis Chwefror. Parhaodd y Gronfa Ffederal wrth Gefn godi cyfraddau llog dros y cyfnod gyda chynnydd dilynol ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Marchnad Agored Ffederal, gan fynd â chyfraddau polisi i ystod o 4.75%-5.00% yng nghyfarfod mis Mawrth.

O'r cofnod uchaf o 10.6% ym mis Hydref, syrthiodd chwyddiant CPI Ardal yr Ewro yn araf i 6.9% ym mis Mawrth 2023. Syrthiodd prisiau ynni, ond daeth pwysau cynyddol o fwyd, alcohol a thybaco. Parhaodd y Banc Canolog Ewropeaidd gynyddu cyfraddau llog dros y cyfnod, gan wthio cyfraddau llog i fyny 0.50% ym mis Mawrth, gan fynd â'r gyfradd blaendal i 3.0% a'r brif gyfradd ail-ariannu i 3.5%.

Marchnadoedd ariannol: Parhaodd ansicrwydd fod yn brif gymhellwr barn y farchnad ariannol. Parhaodd arenillion bond yn eithaf anwadal oherwydd pryderon ynghylch chwyddiant uwch a chyfraddau llog uwch, ynghyd â'r tebygolrwydd o'r DU yn mynd i ddirwasgiad ac am ba mor hir fyddai Banc Lloegr yn parhau i dynhau'r polisi ariannol. Tuag at ddiwedd y cyfnod, gwnaeth ofnau ynghylch iechyd y system fancio yn dilyn cwmp Banc Silicon Valley yn y DU ac UBS yn prynu Credit Suisse achosi anwadalrwydd pellach.

Dros y cyfnod gwnaeth arenillion gilt meincnod 5 mlynedd y DU godi o 1.41% i uchafswm o 4.70% ym mis Medi cyn darfod y flwyddyn ariannol ar 3.36%. Dros yr un cyfnod amser gwnaeth yr arenillion gilt meincnod 10 mlynedd godi o 1.61% i uchafswm o 4.51% cyn gostwng yn ôl i 3.49%. Cododd yr arenillion gilt 20 mlynedd o 1.82% i 4.96% ac yna gostwng i 3.82%. Roedd y Gyfradd Sterling Dros Nos yn 2.24% ar gyfartaledd dros y cyfnod.

Adolygiad credyd: Yn gynnar yn y cyfnod, cadarnhaodd Moody's gyfradd tymor hir Guildford BC ond adolygwyd y trosolwg i negyddol. Gwnaeth yr asiantaeth hefyd israddio Warrington BC a Transport for London.

Ym mis Gorffennaf, adolygodd Fitch y rhagolwg ar y Siarter Safonol a Bank of Nova Scotia o negyddol i sefydlog. Yn yr un modd adolygodd Moody's y rhagolwg ar Bayerische Landesbank i gadarnhaol. Ym mis Medi, gwnaeth S&P adolygu'r rhagolwg ar Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Llundain Fwyaf i sefydlog o negyddol. Fe wnaeth Fitch adolygu'r rhagolwg ar HSBC i sefydlog o negyddol.

Y mis canlynol, gwnaeth Fitch adolygu'r rhagolwg ar sofran y DU i negyddol o sefydlog. Gwnaeth Moody's yr un diwygiad i sofran y DU. Dilynwyd hyn yn gyflym gan symudiad tebyg ar gyfer sawl awdurdod lleol a banciau'r DU. Roedd y rhain yn cynnwys Banc Barclays, Banc National Westminster (ac endidau perthnasol) a Santander.

Yn ystod misoedd diwethaf y cyfnod adrodd, dim ond llond llaw o newidiadau credyd fu gan yr asiantaethau graddio. Yna, ym mis Mawrth, daeth cwmp Banc Silicon Valley yn y DU yn ychwanegol i bryderon argyfwng bancio ehangach wrth i Credit Suisse ddod ar draws problemau pellach ac fe'i prynwyd gan UBS.

Roedd prisiau diofyn credyd wedi bod yn codi ers dechrau'r cyfnod yn dilyn yr ymosodiad ar Wcráin. Yn y DU, cododd ymhellach ym mis Medi/Hydref ar adeg cyllideb fach y llywodraeth ar y pryd. Wedi hyn, roedd prisiau CDS wedi bod yn syrthio, ond gwnaeth yr ymateb yn sgil SVB achosi naid ar ben yr ansicrwydd uwch. Fodd bynnag, roeddent wedi cymedroli rhywfaint erbyn diwedd y cyfnod wrth i ofnau am haint gilio. Ond mae llawer dal uwchben eu lefelau cyn mis Mawrth gan adlewyrchu fod rhywfaint o ansicrwydd o hyd.

Ar ben hyn, lleihaodd Arlingclose i derfyn hyd uchafswm argymelledig ar gyfer blaendaliadau anwarantedig ar gyfer banciau/sefydliadau nad ydynt yn y DU ar ei restr gwrthbarti i 35 diwrnod fel bod yn ofalus. Ni wnaed newidiadau i'r enwau ar y rhestr.

Wrth i anwadalwch cynyddol y farchnad barhau, o leiaf yn y tymor agos ac, fel erioed, mae'r sefydliadau a'r hyd ar restr gwrthbartion y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a argymhellwyd gan Arlingclose yn parhau o dan adolygiad cyson.

Mae awdurdodau lleol yn parhau o dan bwysau ariannol, ond mae Arlingclose yn parhau i gymryd safbwynt cadarnhaol o'r sector, gan ystyried ei gryfder credyd i fod yn uchel. Mae hysbysiadu Adran 114 wedi'u rhoi gan ond llond llaw o awdurdodau gyda materion penodol. Tra mae cyngor Arlingclose i awdurdodau lleol ar ei restr gwrthbarti yn parhau'n ddigymffwrdd. Teilyngir rhywfaint o rybudd gydag awdurdodau penodol.

3. Cyd-destun Lleol

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fuddsoddiadau net o £30m yn codi o'i refeniw ac incwm cyfalaf a gwariant. Mae'r angen sylfaenol i fenthycia at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), tra mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a chyfalaf gweithio yn adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Crynhoir y ffactorau hyn yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1: Crynodeb o'r Fantolen

	Presennol 31.3.23 £m	Meincnod 2022-23 £m
GCC Cronfa Gyffredinol	28.0	30.9
Llai: *Dyledion eraill	(7.3)	(7.3)
CFR Benthycia	20.7	23.6
Llai: Benthycia Allanol	(8.4)	# (6.2)
Benthycia mewnol	12.3	17.4
Llai: Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy	(51.2)	(27.6)
Ychwanegiad: Cyfalaf gweithio	8.9	0.2
Cyfanswm Buddsoddiadau	(30.0)	# (10.0)

* prydlesu cyllid, rhwymedigaethau PFI a dyled wedi'i throsglwyddo sy'n ffurfio rhan o gyfanswm dyled y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Ffynhonnell: Adroddiad Strategaeth Gyfalaf 2022-23 (tablau amrywiol)

i gynnal meincnod o isafswm buddsoddiad o £10m

Dilynodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ei strategaeth o barhau i gadw benthyca a buddsoddiadau o dan eu lefelau sylfaenol. Adwaenir hwy weithiau fel benthyca mewnol, er mwyn lleihau risg a chadw costau llog yn isel.

Mae sefyllfa rheoli'r trysorlys ar 31 Mawrth 2023 a'r newid yn ystod y flwyddyn yn cael ei ddangos yn Nhabl 2 isod.

Tabl 2: Crynodeb Rheoli'r Trysorlys

	Balans 31.3.22 £m	Symudiad £m	Balans 31.3.23 £m	Cyfradd Cyfartaledd Gymhwysol 31.3.23 %	Meincnod 2022-23 £m
Benthyciadau tymor hir	8.9	(0.5)	8.4	1.25	-
Benthyciadau tymor byr	-	-	-	-	-
Cyfanswm benthyca	8.9	(0.5)	8.4	-	# 6.2
Buddsoddiadau tymor hir	-	-	-	-	-
Buddsoddiadau tymor byr	(19.8)	(4.8)	(24.6)	3.24	-
Arian parod ac arian parod cyfwerth	(10.3)	4.9	(5.4)	0.37	-
Cyfanswm Buddsoddiadau	(30.1)	0.1	(30.0)	-	# (10.0)
Benthyca net / (buddsoddiadau)	(21.2)	(0.4)	(21.6)	-	(3.8)

i gynnal meincnod o isafswm buddsoddiad o £10m

Diweddariad Benthyca

Mae Cod Darbodus 2021 CIPFA yn glir na ddylai awdurdodau lleol fenthyg er mwyn buddsoddi'n bennaf ar gyfer elw ariannol ac nad yw'n ddarbodus i Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd wneud unrhyw fuddsoddiad neu benderfyniad ar wario a wnaiff gynyddu'r gofyniad ariannu cyfalaf, ac y gall arwain at fenthyca newydd, oni bai ei fod yn berthnasol yn uniongyrchol neu'n bennaf i swyddogaethau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Nid ydy benthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLb) bellach ar gael i brynu asedau buddsoddi'n bennaf ar gyfer arenillion oni bai bod y benthyciadau hyn at ddibenion ail-gyllido.

Nid ydy'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn bwriadu benthyg er mwyn buddsoddi'n bennaf am elw masnachol ac felly nid yw'n cael ei effeithio gan y newidiadau i'r Cod Darbodus.

4. Strategaeth a Gweithgarwch Benthyca

Fel yr amlinellwyd yn strategaeth y trysorlys, prif nod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth fenthyca ydy taro cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel a chyflawni sicrwydd y costau hynny dros y cyfnod y mae angen cronfeydd. Ceir hyblygrwydd i ail-drafod benthyciadau fel amcan eilradd os ydy cynlluniau tymor hir y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn newid. Mae strategaeth fenthyca'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn parhau i ymdrin â'r mater allweddol o fforddiadwyedd heb beryglu sefydlogrwydd tymor hirach y portffolio dyledion. Mae'r strategaeth fenthyca hefyd yn parhau i gynnal benthyca a buddsoddiadau o dan eu lefelau sylfaenol, lle bo'n briodol. Adwaenir hyn weithiau fel benthyca mewnol.

Cododd cost benthyca tymor hir a byr yn ddramatig dros y flwyddyn, gyda chyfraddau ar ddiwedd mis Mawrth oddeutu 2% - 4% yn uwch na'r rhai hynny ar ddechrau mis Ebrill. Mae cynnydd mewn cyfraddau wedi'u cymell yn

bennaf gan chwyddiant a'r angen i fanciau canolog reoli hyn drwy godi cyfraddau llog. Gwelwyd cynnydd hynod ddramatig ym mis Medi ar ôl i 'gyllideb fach' Liz Truss gynnwys toriadau treth heb gyllid a benthycia ychwanegol er mwyn ariannu cymorthdaliadau prisiau ynni defnyddwyr: dros gyfnod o bedair awr ar hugain, cynyddodd rhai cyfraddau PWLB i 6%. Mae cyfraddau bellach wedi syrthio o frig mis Medi ond mae'n parhau'n anwadal ac ymhell uwchben pethau arferol hanesyddol diweddar. Arhosodd cyfradd sicrwydd aeddfedrwydd 10 mlynedd y PWLB ar 4.33% ar 31 Mawrth 2023, 20 mlynedd ar 4.70% a 30 mlynedd ar 4.66%.

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd £8.4m o fenthyciadau (gostyngiad o £0.5m) 31 Mawrth 2022, fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf blynyddoedd blaenorol a phresennol. Crynhoir benthyciadau dros ben ar 31 Mawrth yn Nhabl 3 isod.

Tabl 3A: Sefyllfa Fenthycia

	Balans 31.3.22 £m	Symudiad Net £m	Balans 31.3.23 £m	Cyfradd Cyfartaledd Gymhwysol 31.3.23 %
Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus	8.9	(0.5)	8.4	1.25
Awdurdodau Lleol (tymor byr)	-	-	-	-
Cyfanswm benthycia	8.9	(0.5)	8.4	-

Prif nod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth fenthycia yw taro cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel a chyflawni sicrwydd y costau hynny dros y cyfnod y mae angen cronfeydd. Ceir hyblygrwydd i ail-drafod benthyciadau fel amcan eilradd os yw cynlluniau tymor hir y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn newid. Nid yw penderfyniadau benthycia'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn seiliedig ar unrhyw ganlyniad ar gyfer cyfraddau llog. Ystyrir portffolio cytbwys o fenthycia tymor byr a thymor hir yn ddarbodus.

Yn unol â'r amcanion hyn, ni chafwyd benthycia newydd. Galluogodd y strategaeth hon y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i leihau costau benthycia net (er incwm buddsoddi rhagweladwy) a lleihau risg trysorlys cyffredinol.

Yn ystod 2019-20, gwnaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fenthycy £10m o fenthyciadau cyfradd sefydlog tymor hirach. Ceir manylion isod. Mae'r benthyciadau hyn yn parhau i gynnig rhywfaint o sicrwydd a sefydlogrwydd tymor hir i'r portffolio dyledion.

Benthyciadau hir-ddyddiedig a fenthycwyd:	Swm £m	Cyfradd %	Cyfnod (blynyddoedd)
Benthyciad PWLB EIP 1 dyddiedig (20/08/2019)	5.0	1.25	20
Benthyciad PWLB EIP 2 dyddiedig (7/10/2019)	5.0	1.25	20
Cyfanswm benthycia	10.0	1.25	20


5. Gweithgarwch dyled arall

Wedi ad-dalu £0.9m o ddyledion Menter Cyllid Breifat blynyddoedd blaenorol, arhosodd cyfanswm dyled oni bai am fenthycia ar £7.3m ar 31 Mawrth 2023, gan fynd â chyfanswm y ddyled i £15.7m.

6. Gweithgarwch Buddsoddiadau'r Trysorlys

Cyhoeddodd CIPFA God Ymarfer Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus a Nodiadau Canllaw Traws-sectoraidd ar 20 Rhagfyr 2021. Mae'r rhain yn diffinio buddsoddiadau rheoli'r trysorlys fel buddsoddiadau sy'n codi o lifoedd arian parod y sefydliad neu weithgarwch rheoli risg y trysorlys sydd yn y pen draw yn cynrychioli balansau sydd angen eu buddsoddi hyd nes bydd angen yr arian parod ar gyfer defnydd busnes.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cadw cronfeydd sylweddol wedi'u buddsoddi, sy'n mynegi incwm a dderbynnir o flaen gwariant ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn. Yn ystod y flwyddyn, roedd balansau buddsoddi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd rhwng £24.8 a £56.4 miliwn oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant, gyda'r balans dyddiol cyfartalog am y flwyddyn yn £39.3m. Ceir graff o'r balans buddsoddi dyddiol a'r sefyllfa fuddsoddi dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn graff 1 a thabl 4 isod.



Tabl 4: Sefyllfa Buddsoddiadau'r Trysorlys

	Balans 31.3.22 £m	Net Symudiad £m	Balans 31.3.23 £m	Elw Incwm 31.3.23 %	Dyddiau Aeddfedrwydd Cyfartaledd Cymwysedig 31.3.23
Banciau a chymdeithasau adeiladu (anwarantedig) – yn cynnwys cyfrif rhybudd 31 diwrnod gyda HSBC	10.3	(4.9)	5.4	0.37%	0.18
Llywodraeth (yn cynnwys awdurdodau lleol)	19.8	4.8	24.6	3.24%	58.56
Cyfanswm Buddsoddiadau	30.1	(0.1)	30.0	3.61%	58.74

Mae Cod CIPFA a chanllaw'r llywodraeth yn gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fuddsoddi ei gronfeydd yn ddarbodus, ac ystyried diogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd orau o elw, neu arenillion. Prif nod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth fuddsoddi arian ydy taro cydbwysedd priodol rhwng risg ac elw, gan leihau'r risg o dynnu colledion o ddiffygion a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi isel anaddas.

Mae'r Gyfradd Fanc wedi cynyddu o 0.75% ar ddechrau'r flwyddyn i 4.25% ar ddiwedd mis Mawrth 2023. Cododd cyfraddau arian parod tymor byr, a oedd rhwng 0.7% - 1.5% ar ddechrau mis Ebrill, oddeutu 3.5% ar gyfer aeddfedrwydd dros nos/7 diwrnod a 3.3% ar gyfer aeddfedrwydd 6-12 mis. Erbyn diwedd mis Mawrth 2023, roedd y cyfraddau ar flaendaliadau DMADF rhwng 4.05% a 4.15%. Roedd yr elw cyfartalog cymhwysol ar flaendaliadau DMADF y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022-23 yn 3.24% (0.30% 2021-22).

Dangosir cynnydd metrigau risg ac elw yn y darnau o feincnodi buddsoddiadau chwarterol Arlingclose yn Nhabl 5 isod.

Tabl 5: Meincnodi Buddsoddiadau – buddsoddiadau'r Trysorlys wedi'u rheoli'n fewnol

	Sgôr Credyd	Gradd Gredyd	Dadleniad Achub Croen	Aeddfedrwydd Cyfartaledd Cymhwysol (dyddiau)	Cyfradd Elw %
31.03.2022	3.45	AA	34%	15	0.35%
31.03.2023	3.91	AA-	18%	59	3.64%
LAs Tebyg	4.66	A+	84%	17	3.72%
Holl LAs	4.71	A+	59%	12	3.66%

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cyllidebu £100,000 o incwm o'r buddsoddiadau hyn yn 2022/23. Roedd yr incwm a dderbyniwyd yn £618,936, tra mae £85,447 arall wedi'i ddatgan ac mae i fod i'w dalu erbyn mis Ebrill/Mai. Gan fod incwm buddsoddi wedi mynd ymhell tu hwnt i'r gyllideb, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi trosglwyddo'r incwm ychwanegol i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, fel yr amlinellir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r gyllideb ar gyfer 2023/24 ar gyfer incwm buddsoddi wedi'i gynyddu i £1 miliwn a bydd yn cael ei adolygu fel rhan o'r broses cynllunio cyllideb ar gyfer 2024/25.

7. Buddsoddiadau Ddim yn y Trysorlys

Mae diffiniad buddsoddiadau yng Nghod Rheoli'r Trysorlys diwygiedig CIPFA bellach yn cwmpasu holl asedau ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ynghyd ag asedau anariannol eraill y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ei gadw yn bennaf am elw ariannol. Categorioidir buddsoddiadau nad ydynt yn bodloni diffiniad buddsoddiadau rheoli'r trysorlys (h.y., rheoli arian parod dros ben) fel un ai at ddibenion gwasanaeth (wedi'u gwneud yn groyw i hyrwyddo amcanion gwasanaeth pellach) a/neu at ddibenion masnachol (wedi'u gwneud yn bennaf am elw ariannol).

Mae Canllawiau Buddsoddi a roddir gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a Llywodraeth Cymru hefyd yn ehangu'r diffiniad o fuddsoddiadau er mwyn cynnwys holl asedau tebyg a gedwir yn rhannol neu gyfan gwbl am elw ariannol.

Nid oedd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fuddsoddiadau nad oedd yn y trysorlys yn ystod 2022-23.

8. Cydymffurfiaeth

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn hysbysu fod holl weithgarwch rheoli'r trysorlys a ymgymerir yn ystod y flwyddyn wedi cydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Gwelir cydymffurfiaeth gyda chyfyngiadau buddsoddi penodol yn nhabl 7 isod. Dangosir cydymffurfiaeth gyda'r terfyn awdurdodedig a ffin weithredol ar gyfer dyled allanol yn nhabl 7 isod.

Tabl 7: Terfynau Dyled

	Uchafswm 2022/23 £m	Presennol 31.3.23 £m	Ffin Weithredol 2022/23 £m	Cyfyngiad Awdurdodedig 2022/23 £m	Wedi cydymffurfio? Do/Naddo
Benthyca	8.88	8.38	22.61	24.61	Do
PFI a Phrydlesoedd Cyllid	8.26	7.28	7.28	7.28	Do
Cyfanswm dyled	17.14	15.66	29.89	31.89	Do

Gan fod y ffin weithrediadol yn offeryn rheoli ar gyfer monitro blwyddyn, nid yw'n arwyddocaol os torrir y ffin weithrediadol ar brydiau oherwydd amrywiadau mewn llif arian parod. Ni chyfrifir hyn fel methiant cydymffurfiaeth.

Tabl 8: Terfynau buddsoddiad

	2022/23 Uchafswm	31.3.23 Presennol	Terfyn 2022/23	Wedi cydymffurfio? Do/Naddo
Unrhyw sefydliad unigol, oni bai am Lywodraeth y DU	£4.0m	£3.0m	£7.0m	Do
HSBC (bancwyr y Comisiynydd)	£9.6m	£2.4m	£10.0m	Do

Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn mesur a rheoli ei ddadleniadau at risgiau rheoli'r trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol.

Gwarantiad: Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg credyd drwy fonitro'r radd gredyd gyfartalog o'i bortffolio buddsoddiadau.

	Presennol 31.3.23	Meini prawf sylfaenol 2022/23	Wedi cydymffurfio?
Statws credyd gyfartalog portffolio	AA-	A-	Do

Hylifedd: Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg hylifedd drwy fonitro maint yr arian parod sydd ar gael i fodloni taliadau annisgwyl o fewn cyfnod o ddeuddeg mis treiglol. Gosodwyd cyfyngiad gweithredol is o £7.5 miliwn am uchafswm o 14 diwrnod at ddibenion ymarferol er mwyn osgoi benthyca tymor byr diangen.

	Lleiafswm 2022/23	Presennol 31.3.23	Targed 2022/23	Wedi cydymffurfio?
Lleiafswm arian parod sydd ar gael o fewn 12 mis	£24.8m	£30.0m	£10m	Do
Terfyn is am uchafswm o 14 diwrnod	-	-	£7.5m	Do

Strwythur Aeddfedwydd Benthycia: Mae'r dangosydd hwn wedi'i osod er mwyn rheoli amlygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i risg ail ariannu. Roedd terfynau uchaf ac isaf ar y strwythur aeddfedwydd benthycia yn:

	Presennol 31.3.23	Terfyn uchaf	Terfyn isaf	Wedi cydymffurfio?
O dan 12 mis	100%	100%	0%	Do
12 mis ac o fewn 24 mis	0%	100%	0%	Do
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	0%	100%	0%	Do
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	0%	100%	0%	Do
10 mlynedd a mwy	0%	100%	0%	Do

Mae cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf bob blwyddyn ariannol. Dyddiad aeddfedwydd benthycia yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

Prif Symiau Fuddsoddwyd am gyfnodau hirach na blwyddyn: Diben y dangosydd hwn yw rheoli amlygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i risg colledion drwy geisio ad-dalu ei fuddsoddiadau'n gynnar. Y terfynau ar y prif swm tymor hir a fuddsoddwyd i aeddfedwydd terfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod oedd:

	2022/23	2023/24	2024/25
Prif swm presennol a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£0m	£0m	£0m
Terfyn ar y prif swm a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£5m	£5m	£5m
Wedi cydymffurfio?	Do	Do	Do

Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 27 Gorffennaf 2023

Teitl:	Bwrdd Cyd Lywodraethu
Awdur:	Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Diben yr adroddiad:	Diweddariad
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input type="checkbox"/> Sicrwydd <input checked="" type="checkbox"/> X Gwybodaeth
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd cadeirydd y CA yn bresennol yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023. • Cymeradwyodd y bwrdd y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ Yr ymdriniaeth a ddefnyddiwyd i baratoi'r Datganiadau Llywodraethu Blyneddol ○ Nodi diweddariad Cynllun Gweithredu'r CA ar gyfer 22-23. ○ Y cynnig i'r Heddlu gael swyddog monitro ○ Bod amcanion adolygu llywodraethu parhaus yn glynu at y strwythur llywodraethu gyda blaenoriaethau
Argymhellion:	<ul style="list-style-type: none"> • Bod aelodau'r Cyd Bwyllgor Archwilio yn nodi gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu. • Aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i fod yn ymwybodol fod ganddynt wahoddiad sefydlog i fynychu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu, ac y darperir papurau a chofnodion cyfarfodydd iddynt ar gais.
Effaith cofrestr risgiau:	Mae'r ffordd y rheolir risg yn rhan annatod o lywodraethu da a chaiff ei ystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
Goblygiadau sicrwydd:	<p>Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn goruchwylio newidiadau i drefniadau sicrwydd yn dilyn yr Adolygiad Llywodraethu a ymgwymerwyd yn 2019/20. Bydd y trefniadau hyn yn newid o ganlyniad i'r adolygiad arfaethedig.</p> <p>Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn goruchwylio unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r Llawlyfr Llywodraethu.</p>
Effaith Cydraddoldeb:	Dim
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Dim



CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

27 Gorffennaf 2023

Bwrdd Cyd Lywodraethu

Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid



1. Cefndir

- 1.1. Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Mae rhaglen waith wedi'i pharatoi er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni ei hamcanion i gofnodi trefniadau llywodraethu, a goruchwyllo a chynghori ar newidiadau i'r trefniadau hynny.
- 1.2. Estynnir gwahoddiad sefydlog i aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i'r cyfarfod. Mynychodd cadeirydd y cydbwyllgor ar 28 Mehefin 2023 a chyfrannu i'r cyfarfod.

2. Argymhellion

- 2.1. Bod aelodau'r Cyd Bwyllgor Archwilio yn nodi gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu.
- 2.2. Aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i fod yn ymwybodol fod ganddynt wahoddiad sefydlog i fynychu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu, ac y darperir papurau a chofnodion cyfarfodydd iddynt ar gais. Cynhelir cyfarfodydd ar-lein drwy Microsoft Team a dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol ydy:
 - Dydd Mercher 6 Medi 2023 am 10am
 - Dydd Mercher 15 Tachwedd 2023 am 10am

3. Gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu

- 3.1. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023, trafodwyd y canlynol:

3.1.1. Datganiadau Llywodraethu Blynyddol

Gwnaeth y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau ddiwygio strwythur a chynnwys y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol. Tra roedd fersiynau blaenorol wedi'u cyfuno gyda chanllawiau CIPFA, fe'i cydnabuwyd fod cwmpas i leihau ailadrodd, a gwerthuso effeithiolrwydd y trefniadau mewn lle.

Roedd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau wedi adolygu dogfennau gan heddluoedd a oedd wedi derbyn gradd rhagorol yn Asesiad PEEL HMICFRS ar gyfer cwestiwn 12 (yn berthnasol i gynllunio strategol, rheoli sefydliadol a gwerth am arian). Defnyddiodd y wybodaeth hon er mwyn paratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft mwy ystyrlon, sy'n:

- Gwerthuso'r llywodraethu o ran yr egwyddorion yn y canllawiau CIPFA
- Cael ei ysgrifennu mewn ffordd sy'n agored ac yn hawdd ei hamgyffred
- Cynnwys materion llywodraethu sylweddol a nodwyd, a chynllun gweithredu i ymdrin â nhw.

Gwnaeth aelodau'r Bwrdd Cyd Lywodraethu gymeradwyo'r ymdriniaeth a gymerwyd er mwyn paratoi Datganiadau Llywodraethu Blyneddol drafft. Nodwyd fod unrhyw newidiadau sy'n digwydd hyd y llofnodir y dogfennau (wedi'i drefnu ar gyfer 7 Rhagfyr 2023) yn cael eu hadlewyrchu yn y fersiwn olaf.

3.1.2 Datganiad Cyfrifon

Diweddarodd y Pennaeth Cyllid y Bwrdd ar yr amserlen ddiwygiedig er mwyn cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon drafft, ar gyfer yr archwiliad, ac er mwyn cymeradwyo'r cyfrifon a archwiliwyd. Mae'r amserlen newydd yn cydymffurfio â'r dyddiadau cau estynedig a hysbyswyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hysbysiad wedi'i roi ar wefan SCHTh.

Tra bod y dyddiad estynedig yn golygu gwnaiff y cyfnod archwilio orgyffwrdd gyda'r broses gosod cyllideb 2024/25, mae oedi cyhoeddi'r cyfrifon drafft wedi caniatáu mwy o amser i gywreinio, gyda'r nod o leihau'r adnoddau mewnol angenrheidiol ar gyfer yr archwiliad. Nodwyd bod offeryn rhannu gwybodaeth yn cael ei gyflwyno, a ddylai hefyd symleiddio'r broses.

3.1.3 Adolygiad Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd Llywodraethu

Hysbyswyd y Bwrdd fod dau gam cyntaf yr adolygiad wedi'u cwblhau, a nododd arfer dda a themâu cyffredin gan heddluoedd a dderbyniodd radd rhagorol ar gwestiwn 12 HMICFRS, heddluoedd eraill yng Nghymru, a'r rhai hynny yn ein grŵp tebycaf.

Mae adroddiad drafft wedi'i greu, sy'n cynnwys 11 argymhelliad. Mae hwn wedi'i gyflwyno i'r Prif Gwnstabl, i'w gyflwyno i'r SLT am gymeradwyaeth.

Mae'r prif argymhellion yn cynnwys:

- Sicrhau fod y strwythur llywodraethu wedi glynu'n strategol at flaenoriaethau'r heddlu. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n gliriach sut y gyrrir y blaenoriaethau ymlaen gan yr heddlu.
- Cyfuno cyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Rheoli Strategol a chyfarfodydd bob pythefnos yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth i

gyfarfod misol. Bydd hyn yn gwneud gwell defnydd o amser uwch arweinwyr.

- Ymestyn y cynllun dirprwyo er mwyn galluogi byrddau eraill wneud penderfyniadau. Bydd hyn yn gofyn am ffiniau llym ynghylch pa benderfyniadau a ellir eu gwneud ar bob lefel. Ond dylai leihau dyblygu wrth rymuso byrddau.
- Strwythur adrodd clir ar gyfer cyflawniad, a fydd yn cael ei ystyried ar bob lefel o'r heddlu, o Brif Swyddogion i staff rheng flaen.
- Cyflwyno swyddogaeth porth er mwyn goruchwyllo cyfarfodydd strategol, er mwyn sicrhau fod y cyfarfodydd yn canolbwyntio, yn cadw at y cylch gorchwyl ac yn lleihau dyblygu.

Nododd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod gan yr argymhellion apêl rhesymegol, ond bydd angen gweithio drwy rai pethau ymarferol cyn gweithredu. Hysbyswyd y Bwrdd fod strwythur llywodraethu drafft wedi'i gadarnhau, ond gellir diwygio hwn er mwyn sicrhau fod cyfarfodydd o dan y colofnau cywir. Anelir cwblhau'r cam hwn o'r gwaith erbyn mis Medi.

3.1.4 Archwiliad

Mae Cynllun Archwilio 2023/24 wedi'i gytuno gyda TIAA, a darparwyd y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio i'r Bwrdd. Nodwyd bod y Swyddog Cyllid a Chyllidebau yn gweithio er mwyn sicrhau y trefnir pob archwiliad, gan ystyried yr angen i bwysu a mesur llwythi gwaith gyda'r angen am sicrwydd a chraffu annibynnol.

Disgwylir y farn archwilio mewnol olaf. Unwaith y derbynnir hon, bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol.

Amlygodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau weithrediadau ar waith sy'n gysylltiedig â'r pedwar archwiliad sicrwydd cyfyngedig.

Penderfynwyd y gall adroddiadau'r dyfodol gynnwys adroddiad prif bwytiau, ac nad yw'n angenrheidiol cynnwys argymhellion wedi'u cwblhau, gan eu bod eisoes yn destun adolygiad gan TIAA.

3.1.5 Rôl Swyddog Monitro i'r Heddlu

Cynigiodd Cyfreithiwr yr Heddlu gynnig er mwyn cyflwyno rôl Swyddog Monitro i'r heddlu. Nid yw hon yn rôl statudol i heddluoedd, ond mae ar gyfer cynghorau a SCHTh. Diben y swyddog monitro ydy er mwyn i aelodau a swyddogion ymgynghori ar unrhyw faterion o rymoedd cyfreithiol sefydliad, camweinyddu posibl, anghywirdeb a materion gonestrwydd, a chynghor cyffredinol ar drefniadau cyfansoddiadol. Mae rhai heddluoedd eisoes wedi cyflwyno rôl swyddog monitro, drwy wneud newid i gytundeb cyflogaeth unigolyn.

Hysbysodd Cyfreithiwr yr Heddlu fod llawer o'r cyfrifoldebau eisoes o fewn y rôl barhaol, ac mae cyflwyno Swyddog Monitro yn ffurfioli'r swydd ac yn gwella llywodraethu. Mae'r cynnig yn cael ei gefnogi gan Brif Swyddogion yr Heddlu a SCHTh.

Gwnaeth aelodau'r Bwrdd Cyd Lywodraethu gymeradwyo'r ymdriniaeth a bydd Cyfreithiwr yr Heddlu yn symud y mater ymlaen.

3.1.6 Cynllun Gweithredu'r Cydbwyllgor Archwilio

Gwnaeth y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau gyflwyno cyd-destun Cynllun Gweithredu'r Cydbwyllgor Archwilio, sydd â'r nod o ychwanegu at effeithiolrwydd y Cydbwyllgor Archwilio, a chryfhau eu cysylltiad mewn meysydd amrywiol yn y dyfodol.

Diolchodd cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio i aelodau'r Bwrdd am eu hadborth. Gofynnod am sylwadau pellach unrhyw dro o ran sut i wella effeithiolrwydd y Cydbwyllgor Archwilio.

3.1.7 Argymhellion gan y Cydbwyllgor Archwilio

Gwelodd aelodau'r Bwrdd weithrediadau agored o ran llywodraethu yn codi o gyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio. Rhoddwyd diweddariadau lle bo'n briodol.

3.1.8 Diweddariad Sicrwydd

Cylchredwyd yr adroddiad, a chymerwyd ei fod wedi'i ddarllen.

3.1.9 Cynllun Gwaith Ymlaen

Cytunwyd ychwanegu'r eitemau canlynol i'r cynllun gwaith ymlaen:

- Gwerthusiad y CA
- Eitem yn y cyfarfod nesaf: cynnydd ar rôl y Swyddog Monitro
- eitem yn y cyfarfod nesaf: diweddariad o'r Adolygiad Llywodraethu

3.2 Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Llawlyfr Llywodraethu wedi'i ail-gadarnhau gan y CHTh a'r Prif Gwnstabl yng nghyfarfod diweddaraf y Bwrdd Gweithredol Strategol. Diolchodd i aelodau'r Bwrdd am eu mewnbwn.

3.3 Bydd aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio'n gallu cael mynediad at bapurau, gan gynnwys cofnodion a gweithrediadau o'r cyfarfod diweddaraf, drwy'r gyriant G. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 6 Medi 2023.

4. GOBLYGIADAU

4.1	Cydraddoldeb	Mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithredu gan dalu sylw i'r egwyddorion a sefydlwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd.
4.2	Ariannol	Mae'r ffordd y rheolir cyllid yn rhan annatod o lywodraethu da. Ystyrir polisiâu ariannol a monitro systemau ariannol a chyflawniad o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
4.3	Cyfreithiol	Mae'n ofyniad cyfreithiol cyhoeddi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar ran y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl ochr yn ochr â'r Datganiadau Cyfrifon bob blwyddyn. Un o ddibenion y Bwrdd Cyd Lywodraethu ydy cofnodi gweithgareddau llywodraethu corfforaethau undyn (a sicrhau y caiff unrhyw bryderon sylw) fel bod y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol yn cael eu paratoi'n gywir ac yn amserol.
4.4	Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol	Caiff polisiâu amgylcheddol, canlyniadau ac ymgysylltiad (a monitro'r rhain) eu hystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2017.
4.5	Risg	Mae'r ffordd y rheolir risg yn rhan annatod o lywodraethu da a chaiff ei ystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
4.6	Cynllun Heddlu a Throsedd	Mae'r amcanion yn y Cynllun Heddlu a Throsedd yn sylfaenol bwysig i'r ddwy gorfforaeth undyn. Ystyrir y ffordd y caiff hyn ei fonitro o fewn y Fframwaith Llywodraethu.

Awdur yr Adroddiad

Kate Jackson

Prif Swyddog Cyllid

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgor Archwilio

Mae'r Cylch Gorchwyl hwn yn amlinellu swyddogaeth y Cydbwyllgor Archwilio fel pwyllgor ymgynghorol er mwyn cynorthwyo'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) a'r Prif Gwnstabl (PG).

1. Datganiad diben

- 1.1 Diben y Cydbwyllgor Archwilio (y Cydbwyllgor, CA) ydy darparu canolbwynt annibynnol a lefel uchel ar ddigonoldeb trefniadau llywodraethu, risg a rheoli. Ei rôl ydy sicrhau bod digon o sicrwydd ynghylch llywodraethu, risg a rheolaeth, sy'n rhoi mwy o hyder i'r CHTh a'r PG bod y trefniadau hynny yn effeithiol.
- 1.2 Mae'r CA yn goruchwyllo'r archwiliadau mewnol ac allanol, ynghyd â'r adroddiadau ariannol a llywodraethu, gan gynorthwyo sicrhau bod trefniadau digonol mewn lle ar gyfer her fewnol ac atebolrwydd cyhoeddus.

2. Llywodraethu, risg a rheoli

- 2.1.1 Gwnaiff y Cydbwyllgor:
 - 2.1.2 Adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol y CHTh a'r PG o ran y fframwaith llywodraethu da, gan gynnwys y fframwaith moesegol, ac ystyried y Llawlyfr Llywodraethu (sy'n cynnwys y Cod Llywodraethu Corfforaethol, y Cynllun Caniatâd, Rheoliadau Ariannol a Gorchmynion Sefydlog Contractau).
 - 2.1.3 Monitro datblygiad a gweithredu rheoli risg yn SCHTh a'r heddlu.
 - 2.1.4 Monitro cynnydd wrth ymdrin â materion risg a adroddir i'r CA (mae risgiau gweithredol unigol yr heddlu wedi'u heithrio'n benodol o gylch gorchwyl y CA).
 - 2.1.5 Ystyried adroddiadau ar effeithiolrwydd trefniadau rheoli ariannol, gan gynnwys Cod Rheoli Ariannol CIPFA.
 - 2.1.6 Ystyried trefniadau SCHTh a'r heddlu er mwyn sicrhau gwerth am arian ac adolygu sicrwydd ac asesiadau effeithiolrwydd y trefniadau hyn.
 - 2.1.7 Adolygu asesu risgiau twyll a'r niwed posibl i'r SCHTh a'r heddlu gan dwyll a llygredigaeth.
 - 2.1.8 Monitro'r strategaeth atal twyll, gweithrediadau ac adnoddau.
 - 2.1.9 Adolygu trefniadau llywodraethu a sicrwydd ar gyfer partneriaethau neu gydweithrediadau arwyddocaol.
- 2.2 Mae'r CHTh yn enwebu'r CA fod yn gyfrifol am sicrhau craffu'r Strategaeth Gyfalaf a'r Polisi Rheoli'r Trysorlys yn effeithiol.

3. Adrodd ariannol a llywodraethu

3.1 Adrodd Llywodraethu

- 3.1.1 Bydd y Cydbwyllgor yn:
 - 3.1.1.1 Adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol cyn cymeradwyaeth gan y CHTh a'r PG ac ystyried a yw'n adlewyrchu'r amgylchfyd risg a sicrwydd ategol, gan gynnwys barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol.
 - 3.1.1.2 Ystyried a ydy gwerthuso blynyddol ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn penderfynu'n deg fod trefniadau llywodraethu yn addas i'r diben, gan gynorthwyo cyflawni amcanion SCHTh a'r heddlu.

3.2 Adrodd Ariannol

3.2.1 Bydd y Cydbwyllgor yn:

- 3.2.1.1 Monitro trefniadau a pharatoadau adrodd ariannol er mwyn sicrhau y gellir bodloni gofynion statudol a safonau proffesiynol.
- 3.2.1.2 Adolygu'r datganiadau cyfrifon blynyddol. Yn benodol, ystyried a ydy polisiâu cyfrifyddu priodol wedi'u dilyn ac a oes pryderon yn codi o'r datganiadau ariannol neu o'r archwiliad sydd angen dod i sylw'r CHTH a'r PG.
- 3.2.1.3 Ystyried adroddiadau'r archwiliwr allanol i'r CHTH a'r PG ar faterion sy'n codi o archwilio'r cyfrifon.

3.3 Trefniadau archwiliad a sicrwydd

- 3.3.1 Gwnaiff y Cydbwyllgor ystyried fframwaith sicrwydd y SCHTH a'r heddlu a sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â risgiau a blaenoriaethau'n ddigonol.

4. Archwilio allanol

4.1 Bydd y Cydbwyllgor yn:

- 4.1.1 Cynorthwyo annibyniaeth archwilio allanol drwy ystyried asesiad blynyddol yr archwiliwr allanol o'i annibyniaeth ac adolygu unrhyw broblemau a godwyd gan yr Archwiliwr Cyffredinol neu Archwilio Cymru.
- 4.1.3 Ystyried llythyr rheoli blynyddol yr archwilydd allanol, adroddiadau perthnasol a'r adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.
- 4.1.3 Ystyried adroddiadau penodol fel y cytunwyd gyda'r archwiliwr allanol.
- 4.1.4 Rhoi sylwadau ar gwmpas a dyfnder gwaith archwilio allanol a sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian.
- 4.1.5 Cynghori ar gomisiynu gwaith ychwanegol gan archwilio allanol.
- 4.1.6 Cynghori ac argymhell ar effeithiolrwydd y berthynas rhwng archwilwyr allanol a mewmol ac asiantaethau arolygu neu gyrff perthnasol eraill.
- 4.1.7 Darparu mynediad rhydd a dilyffethair i gadeirydd y cydbwyllgor archwilio ar gyfer yr archwilwyr, gan gynnwys y cyfle am gyfarfod preifat gyda'r CA.

5. Archwilio mewmol

5.1 Bydd y Cydbwyllgor yn:

- 5.1.1 Adolygu ar gyfer cymeradwyo'r siarter archwilio mewmol.
- 5.1.2 Adolygu cynigion a wnaed mewn perthynas â phenodi darparwyr allanol gwasanaethau archwilio mewmol a gwneud argymhellion.
- 5.1.3 Adolygu'r cynllun archwilio mewmol sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys gofynion adnoddau'r archwiliad mewmol, y dull o ddefnyddio ffynonellau sicrwydd eraill ac unrhyw waith sydd ei angen i ddibynnu ar y ffynonellau eraill hynny.

- 5.1.4 Ystyried newidiadau dros dro sylweddol i'r cynllun archwilio mewnol seiliedig ar risg a gofynion adnoddau.
- 5.1.5 Gwneud ymholiadau priodol gan y rheolwyr a'r pennaeth archwilio mewnol i benderfynu a oes unrhyw gyfyngiadau amhriodol o ran cwrmpas neu adnoddau.
- 5.1.6 Ystyried unrhyw namau ar annibyniaeth neu wrthrychedd y pennaeth archwilio mewnol sy'n codi o rolau neu gyfrifoldebau ychwanegol y tu allan i archwilio mewnol. Argymhell ac adolygu amddiffyniadau yn gyfnodol er mwyn cyfyngu namau o'r fath.
- 5.1.7 Ystyried adroddiadau gan y pennaeth archwilio mewnol ar gyflawniad archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys cyflawniad darparwyr allanol gwasanaethau archwilio mewnol. Bydd y rhain yn cynnwys:
- diweddariadau ar waith archwilio mewnol gan gynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n peri pryder a champau gweithredu sydd ar y gweill o ganlyniad i waith archwilio mewnol
 - adroddiadau rheolaidd ar ganlyniadau'r rhaglen sicrhau a gwella ansawdd
 - adroddiadau ar achosion lle nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, gan ystyried a ydy'r diffyg cydymffurfio yn ddigon sylweddol y mae'n rhaid ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- 5.1.8 Ystyried adroddiad blynyddol pennaeth yr archwiliad mewnol, gan gynnwys:
- y datganiad o lefel y cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a chanlyniadau'r rhaglen sicrwydd a gwella sy'n ategu'r datganiad – bydd y rhain yn dangos pa mor ddibynadwy ydy casgliadau'r archwiliad mewnol)
 - y farn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth ar y cyd, ynghyd â'r crynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn (bydd y rhain yn cynorthwyo'r Cydbwyllgor i adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol)
- 5.1.9 Ystyried crynodebau adroddiadau archwilio mewnol penodol yn ôl y gofyn.
- 5.1.10 Derbyn adroddiadau yn amlinellu'r camau a gymerwyd os ydy'r pennaeth archwilio mewnol wedi dod i'r casgliad bod y rheolwyr wedi derbyn lefel risg a allai fod yn annerbyniol i'r SCHTh neu'r heddlu neu fod pryderon ynghylch y cynnydd o ran gweithredu camau gweithredu y cytunwyd arnynt.
- 5.1.11 Cyfrannu at y rhaglen sicrwydd ansawdd a gwella ac at asesiad ansawdd allanol archwilio mewnol sy'n digwydd o leiaf unwaith bob pum mlynedd.
- 5.1.12 Ystyried adroddiad ar effeithiolrwydd archwilio mewnol er mwyn ategu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.
- 5.1.13 Darparu mynediad rhydd a dilyffethair i gadeirydd y cydbwyllgor archwilio ar gyfer pennaeth archwilio mewnol, gan gynnwys y cyfle am gyfarfod preifat gyda'r cydbwyllgor.

6. Trefniadau atebolrwydd

6.1 Bydd y Cydbwyllgor yn:

- 6.1.1 Adrodd i'r CHTh a'r Prif Gwnstabl ar ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Cydbwyllgor ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd eu fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol, trefniadau adrodd ariannol a swyddogaethau archwiliadau mewnol ac allanol.

- 6.1.2 Adrodd i'r CHTH a'r Prif Gwnstabl yn rheolaidd ar gyflawniad y Cydbwyllgor o ran y cylch gorchwyl ac effeithiolrwydd y cydbwyllgor wrth fodloni ei ddiben.
- 6.1.3 Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar waith y Cydbwyllgor gan gynnwys casgliad ar y cydymffurfio gyda datganiad sefyllfa CIPFA.

7. Cyffredinol

- 7.1 Fel arfer, bydd y Cydbwyllgor yn cynnwys pum aelod annibynnol, sy'n annibynnol i SCHTh a'r heddlu. Os ydy'n dod yn amlwg y bydd yr aelodau'n is na phedwar aelod, ymgwymerir â recriwtio er mwyn codi'r aelodaeth i bump.
- 7.2 Bydd y cworwm ar gyfer y Cydbwyllgor yn 3 aelod annibynnol o leiaf.
- 7.3 Bydd y Cydbwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol drwy eithriad er mwyn trafod materion sy'n peri pryder dybryd.
- 7.4 Bydd y cyfarfodydd yn cynnwys sesiwn agored (a gynhelir yn gyhoeddus). Os oes eitemau ar yr agenda na ellir eu trafod mewn sesiwn agored, bydd sesiwn gaeedig yn dilyn.
- 7.5 Mae hyfforddiant a digwyddiadau eraill yn gyfnodol, lle mae disgwyl i aelodau eu mynychu.
- 7.6 Gwahoddir bob aelod i arwain mewn maes lle mae ganddynt wybodaeth arbenigol. Gallent gyfathrebu gyda staff a swyddogion perthnasol tu allan i gyfarfodydd ffurfiol er mwyn hysbysu gweddill y Cydbwyllgor a rhoi sicrwydd i'r CHTH a'r Prif Gwnstabl.

Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 28 Gorffennaf 2023

Teitl:	Adroddiad Cyfreithiol
Awdur:	Philip Kenyon, Cyfreithiwr yr Heddlu
Diben yr adroddiad:	Rhoi gwybodaeth ar gyfreithio sy'n cynnwys Prif Gwnstabl Gogledd Cymru
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input checked="" type="checkbox"/> Sicrwydd <input type="checkbox"/> Gwybodaeth
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol: (gan gynnwys crynodeb o'r Broses Lywodraethu yn dilyn)	Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion hawliadau sifil a dderbyniwyd ac a ddatryswyd yn y cyfnod 1 Hydref 2022 – 31 Mawrth 2023 ynghyd â chytundebau a thrafodion trawsgludo a gwblhawyd yn ystod yr un cyfnod. Nid oes patrymau hir sylweddol wedi'u canfod. Fodd bynnag, mae'r nifer o hawliadau wedi cynyddu'n sylweddol yn y 6 mis diwethaf. Mae'r data hwn hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol Strategol.
Argymhellion:	Nodir yr adroddiad.
Effaith cofrestr risgiau:	Dim newid
Goblygiadau sicrwydd:	Mae'r adroddiad yn rhoi sicrwydd digonol
Effaith Cydraddoldeb:	Amherthnasol
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Cynhwysir gwybodaeth wedi'i eithrio o fewn adroddiad ar gyfer y sesiwn gaeedig.

Dyddiad: 28 Gorffennaf 2023

Hawliadau Sifil ac achosion Cyflogaeth ar gyfer y cyfnod 1 Hydref 2022 – 31 Mawrth 2023

Mae Cyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu, Sarah Hughes, yn ymdrin â'r holl hawliadau sifil Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwyr a gyhoeddwyd yn erbyn Heddlu Gogledd Cymru.

1. CYFLWYNIAD

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi

- 1) manylion am nifer yr hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwyr a wnaed yn erbyn yr Heddlu ym mhob blwyddyn ariannol.
- 2) rhoi barn am unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg.
- 3) darparu manylion yr arian a dalwyd mewn setliad ym mhob blwyddyn ariannol.

CEFNDIR

Mae'r Rheolau Gweithdrefn Sifil (CPR) yn berthnasol wrth gynnal achosion sifil yng Nghymru a Lloegr. O dan y Protocol Cyn Gweithredu a nodir yn y Rheolau, mae'n ofynnol i unrhyw ddarpar hawliwr gyflwyno llythyr hawlio ar Heddlu Gogledd Cymru fel ymatebydd sy'n nodi ei hawliad yn llawn. Yn unol â hynny, mae'r holl hawliadau a dderbynnir gan Heddlu Gogledd Cymru fel arfer yn cynnwys llythyr o hawliad yn honni niwed ac yn gofyn am iawndal. Mae'n anaml ac yn torri rheolau gweithdrefnol i weithdrefnau gael eu cyhoeddi y tu allan i reolau'r protocol cyn gweithredu.

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr yw'r rhai a dderbynnir gan weithwyr yr Heddlu (swyddogion a staff) ac maent yn cynnwys hawliadau Anafiadau Personol sy'n deillio o golled neu anaf a gafwyd yn ystod dyletswydd neu gyflogaeth.

Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus

Hawliadau a gyflwynir gan y cyhoedd yw hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus. Gall hawliadau o'r fath gynnwys honiadau o arestio anghyfreithlon, carchariad ffug, defnydd anghyfreithlon o rym, difrod i eiddo ac erlyniad maleisus.

Hawliadau Cerbydau

Ymdrinnir â hawliadau damweiniau cerbydau gan ein hyswirwyr a'r Adran Fflyd. Caiff unrhyw faterion wedi eu hymgyfreithio eu goruchwylio gan Gyfreithiwr yr Heddlu o 1 Mawrth 2013. Adran y Fflyd sy'n cadw data a gedwir mewn perthynas â hawliadau o'r fath.

Cadernid yr Adran Gyfreithiol

Atebolrwydd Cyflogwyr

Ers 1 Ebrill 2017 mae pob hawliad atebolrwydd Cyflogwyr wedi'u hymdrin yn fewnol gan yr Adran Gyfreithiol. Cytunwyd ar hyn gan ein hyswirwyr.

Atebolrwydd Cyhoeddus

Ymdrinnir â phob hawliad a'i reoli gan Gyfreithiwr yr Heddlu. Mae lleiafrif o'r hawliadau hyn yn cael eu contractio allan os byddant yn cael eu hymgyfreithio neu'n cynnwys mewnbwn arbenigol. Goruchwylir pob un gan Gyfreithiwr yr Heddlu.

Ers 1 Ebrill 2023 mae gan Heddlu Gogledd Cymru yswirwyr newydd sydd wedi cytuno y gall hawliadau sifil barhau gael eu trin yn fewnol. Ond gellir eu hallanoli pan mae hawliadau wedi'u lliniaru neu oherwydd y cynnydd sylweddol yn y nifer o hawliadau a dderbyniwyd.

MANYLION

Rhwng 1 Hydref 2022 a 31 Mawrth 2023 derbyniwyd 37 llythyr hawlio yn yr Adran Gyfreithiol. Roedd 4 yn hawliadau atebolrwydd Cyflogwyr ac roedd 33 yn hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus. Mae achosion wedi'u rhoi o ran unrhyw un o'r hawliadau a dderbyniwyd yn ystod y chwe mis diwethaf.

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm nifer yr hawliadau a dderbyniwyd yn ystod cyfnod o chwe mis (1 Hydref – 31 Mawrth) dros y chwe blynedd diwethaf.

(TABL 1) – CYFANSWM NIFER O HAWLIADAU A DDERBYNIWYD MEWN CYFNOD O CHWE MIS

Blwyddyn	Atebolrwydd Cyflogwyr	Atebolrwydd Cyhoeddus	Cyfanswm
2017/2018	1	14	15
2018/2019	1	23	24
2019/2020	4	27	31
2020/2021	2	19	21
2021/2022	0	25	25
2022/2023	4	33	37

**Manylion yr hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus a dderbyniwyd yn ystod cyfnod
1 Hydref 2020 a 31 Mawrth 2021, yn dilyn ymlaen o gŵyn.**

Hawliadau dderbyniwyd dilyn cwyn	a yn Canlyniadau cwynion	Canlyniadau Hawliad Sifil
7	<p>Un gŵyn wedi'i chadarnhau.</p> <p>2 gŵyn wedi'u cadarnhau'n rhannol.</p> <p>3 cwyn heb eu cadarnhau.</p> <p>Un gŵyn wedi'i hailgyfeirio at Heddlu Glannau Mersi.</p>	<p>Mae un gŵyn wedi'i setlo.</p> <p>Mae 5 o hawliadau wedi cael eu hamddiffyn.</p> <p>Un gŵyn wedi'i hailgyfeirio at Heddlu Glannau Mersi.</p>

(TABL 2) – CYFANSWM NIFER YR HAWLIADAU BYW

Ar hyn o bryd mae 71 o hawliadau byw parhaus yn cael eu hymdrin yn yr Adran Gyfreithiol. Rhaid nodi y gall digwyddiadau fod wedi bod mewn blynyddoedd blaenorol.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr hawliadau 'gweithredol' a osodwyd o ran y flwyddyn digwyddiadau bresennol. (Hawliad sy'n parhau'n fyw yw hawliad gweithredol ac nad yw wedi'i benderfynu eto).

Blwyddyn y Digwyddiad	Atebolrwydd Cyflogwyr	Atebolrwydd Cyhoeddus
1999/2000	0	1
2013/2014	1	2
2014/2015	1	0
2015/2016	0	1
2016/2017	0	1
2017/2018	0	1
2018/2019	1	3
2019/2020	1	6
2020/2021	2	7
2021/2022	3	15
2022/2023	1	24
CYFANSWM	10	61
CYFANSWM NIFER Y CYFLOGWYR BYW A HAWLIADAU ATEBOLRWYDD CYHOEDDUS:		71

Y SEFYLLFA BRESENNOL O RAN HAWLIADAU SIFIL BYW

	Atebolrwydd Cyflogwyr	Atebolrwydd Cyhoeddus
Achosion a gyhoeddwyd	3	10
Hawliadau wedi'u gwrthbrofi'n llwyddiannus ond heb eu cau eto	5	29
Hawliadau heb eu datrys eto	5	21
Hawliadau'n dal i gael eu hymchwilio/cwynion yn parhau	0	11

(TABL 3) – HAWLIADAU ATEBOLRWYDD CYFLOGWYR

Mae'r tabl isod yn dangos y categorïau o hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr a dderbyniwyd yn ystod y chwe blynedd diwethaf.

Math o Hawliad a Dderbyniwyd	17/18	18/19	19/20	20/21	21/22	22/23
Llithriadau/bagladau/syrthiadau	1	2	5	3	1	2
Straen/Bwlio	0	0	0	0	0	0
RSI	0	0	0	0	0	0
Colli clyw	0	0	0	0	0	0
Anaf ar gwrs hyfforddi	1	3	0	0	0	1
Arall	2	0	2	2	1	1
Anafiadau i fysedd/dwylo	1	0	0	1	0	0
Cyfanswm	5	5	7	6	2	4

Sylwebaeth


Y math mwyaf cyffredin o hawliadau a dderbyniwyd yn ystod y blynyddoedd uchod oedd achosion o lithro, baglu a disgyn.

(TABL 4) – HAWLIADAU ATEBOLRWYDD CYHOEDDUS

Mae'r tabl isod yn dangos y categorïau o niwed a hawliwyd amlaf mewn hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus a dderbyniwyd yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Efallai y bydd un neu fwy o categorïau difrod mewn un hawliad felly nid yw'r ffigurau'n cynrychioli nifer yr hawliadau a dderbynnir fel yn Nhabl 1 (blaenorol).

Math o Hawliad a Dderbyniwyd	17/18	18/19	19/20	20/21	21/22	22/23
Ymosod a churo	5	4	3	9	15	20
Colled ganlyniadol	3	0	2	0	5	0
Carcharu ar gam	8	14	11	12	20	22
Erlyniad maleisus	2	0	1	3	4	3
Esgeulustod	4	6	11	4	6	3
Arall	23	13	12	21	26	14
Difrod/atafaelu eiddo	21	24	18	14	7	2
Tresbasu i Unigolyn	3	2	2	4	10	10
Tresbasu i Eiddo	1	4	2	6	1	9
Arestiad Anghyfreithlon	4	2	6	6	14	10
Cyfanswm	74	69	68	79	108	93

Iawndal a ddyfarnwyd i Hawlwyr rhwng 1 Hydref 2022 a 31 Mawrth 2023



**Costau a dalwyd i Gyfreithwyr Hawlwyr mewn perthynas â hawliadau a gytunwyd arnynt
rhwng 1 Hydref 2022 – 31 Mawrth 2023**

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr	Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus
£10,337.32	£19,095.75

**Costau cyfreithiol Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â hawliadau sifil sefydlog
a gwblhawyd rhwng 1 Hydref 2022 – 31 Mawrth 2023**

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr	Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus
£0.00	£8105.17

Taliadau CRU a GIG

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr	Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus
£688.00	£0.00

Dadansoddiad o hawliadau a setlwyd rhwng 1 Hydref 2022 a 31 Mawrth 2023

Categori	Hawliad	Niferoedd o hawliadau a setlwyd
Atebolrwydd Cyflogwyr	Anaf personol	1

Categori	Hawliad	Niferoedd o hawliadau a setlwyd
Atebolrwydd Cyhoeddus	Esgeulustod – methiant gweithdrefnol	3
Atebolrwydd Cyhoeddus	Diffyg cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data	1
Atebolrwydd Cyhoeddus	Carcharu ar gam	1
Atebolrwydd Cyhoeddus	Problem hawlfraint	1

CYFANSWM NIFER YR HAWLIADAU SIFIL A GAEWYD

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am nifer yr hawliadau sydd wedi'u 'cau' ers 2017.
Mae'r tabl yn rhoi manylion hawliadau a setlwyd a lle na thalwyd setliad ynghyd â'r cyfanswm am bob blwyddyn.

1 Ebrill – 31 Mawrth	Hawliadau a gytunwyd arnynt	Ni thalwyd unrhyw setliadau	Cyfanswm wedi cau
2017/2018	20	42	62
2018/2019	15	53	68
2019/2020	16	39	55
2020/2021	20	38	58
2021/2022	12	38	50
2022/2023	7	21	28

Fel y gwelwch, mae nifer yr hawliadau sy'n cael eu "gwrthbrofi" lle nad oes arian wedi'i dalu fel arfer yn fwy na'r rhai lle mae arian wedi'i dalu. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu safbwynt cadarn yr Adran Gyfreithiol mewn perthynas ag amddiffyn hawliadau sifil yn gyffredinol.

Nifer yr Hawliadau Sifil ar gontract allanol

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr

Blwyddyn	Nifer Hawliadau a Dderbyniwyd	Nifer Hawliadau ar gontract allanol
2017/2018	5	0
2018/2019	5	0
2019/2020	7	0
2020/2021	6	1
2021/2022	2	0
2022/2023	4	0

Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus

Blwyddyn	Nifer Hawliadau a Dderbyniwyd	Nifer Hawliadau ar gontract allanol
2017/2018	52	3
2018/2019	49	1
2019/2020	41	1
2020/2021	43	0
2021/2022	44	3
2022/2023	33	0

Materion Cyflogaeth

Manylion Hawliadau Cyflogaeth Fyw

Derbyniwyd	Manylion Hawliadau Byw
2020/2021	1 x Hil, Rhyw a Chyfeiriadedd Rhywiol – Parhaus.
2021/2022	1 x Hil, Rhyw a Chyfeiriadedd Rhywiol – Parhaus.
2022/2023	Dim
2023/2024	2 x Gwahaniaethu ar sail anabledd 1 x Diswyddo Annheg

Materion cytundebol a chynigion ar gyfer y cyfnod 1 Hydref 2022 – 31 Mawrth 2023

EITEMAU ER GWYBODAETH

1. SELIO DOGFENNAU

Mae'r dogfennau canlynol wedi cael eu selio ers y rhai hynny a adroddwyd yn yr adroddiad diwethaf dyddiedig 30 Medi 2022

Rhif y Sêl

Natur y Ddogfen

- | | |
|-----|---|
| 310 | Adnewyddu Prydles Llawr Gwaelod a Llawr Cyntaf 58 Stryt yr Hôb a 1 Central Arcade, Wrecsam rhwng (1) J R & Margo Limited a (2) CHTh Gogledd Cymru |
| 311 | Trosglwyddo hen Orsaf Heddlu York Place, Conwy rhwng (1) CHTh Gogledd Cymru a (2) Andrew Burnett Jones ac Alun Burnett Jones |
| 312 | Trwydded Newidiadau mewn swyddfeydd yng Nglasdir, Llanrwst rhwng (1) Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a (2) CHTh Gogledd Cymru |

2. TRAFODION EIDDO

Trwydded feddiannu ar gyfer newidiadau mewn swyddfeydd yng Nglasdir, Llanrwst ar 23 Ionawr 2023 rhwng (1) Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a (2) CHTh Gogledd Cymru

Adnewyddu prydles llawr gwaelod a llawr cyntaf 58 Stryt yr Hôb a 1 Central Arcade, Wrecsam ar 1 Hydref 2022 rhwng (1) JR & Margo Limited a (2) CHTh Gogledd Cymru

Gwerthu Gorsaf Heddlu Conwy, York Place, Conwy ar 8 Rhagfyr 2022 rhwng (1) CHTh Gogledd Cymru a (2) Andrew Burnett Jones ac Alun Burnett Jones

3. DOGFENNAU TENDRO

Mae'r Tendrau canlynol gyda gwerth dros £10,000 y mae gan y CHTh neu Prif Gwnstabl HGC ddiddordeb ynddynt fel a ganlyn:

<u>Rhif</u>	<u>Pwnc</u>
193	Cost Ymgynghorydd ar gyfer Gorsaf Heddlu newydd Caergybi
194	Gwasanaeth Ymgynghori Rheoli'r Trysorlys
195	Inswleiddio Llofft a Gosod Llofft
196	Marcio Eiddo'n Fforensig
197	Nwyddau Offer Profi Cyffuriau a Gwasanaeth Labordy
198	Adnewyddu ISO SARC
199	Adnewyddu Gorsaf Heddlu Caernarfon
200	Cynhyrchu Fideo Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
201	System Rheoli Ansawdd Electron

4. CYTUNDEBAU Dros £10,000

Mae'r cytundebau canlynol gyda gwerth dros £10,000 y mae gan y CHTH neu Brif Gwnstabl HGC ddiddordeb ynddynt fel a ganlyn:

Rhif	Dyddiad	Pwnc
993	11/10/2022	Cytundeb ar gyfer adolygiad hela llwynogod annibynnol
994	27/10/2022	Cytundeb ar gyfer darparu Gwasanaethau Asesiad Risg Tân
996	11/11/2022	Diddymu Cytundeb ar gyfer prydlesu offer a chynnal a chadw llwyth o bostio
874	14/11/2022	Diddymu meddalwedd a chynnal a chadw cytundeb - SailPoint Identity
997	16/11/2022	Cytundeb ar gyfer darparu gweithdy arweinyddiaeth cynhwysol
998	23/12/2022	Cytundeb ar gyfer Arholiad Ymchwilwyr Cenedlaethol
999	13/02/2023	Cytundeb ar gyfer System Meddalwedd Cycomms er mwyn cyrchu data cyfathrebu
1002	24/01/2023	Cytundeb JCT - Cegin a man eistedd newydd yng Nghanolfan Reoli'r Heddlu, Llanelwy
1009	08/03/2023	Cytundeb 'Test on Arrest' (Profi Cyffuriau drwy Boer)
1010	16/03/2023	Diddymu Cytundeb ar gyfer Trawsnewid Fan Ymgysylltu

5. CYTUNDEBAU o dan £10,000

Mae'r cytundebau canlynol gyda gwerth o dan £10,000 y mae gan y CHTH neu Brif Gwnstabl HGC ddiddordeb ynddynt fel a ganlyn:

Rhif	Dyddiad	Pwnc
1000	01/02/2023	Cytundeb Cynllun Seiclo i'r Gwaith
1001	15/01/2023	Cytundeb Llinell Hysbysu Uniondeb – Cytundeb Lefel Gwasanaeth

6. TENDRAU AR Y GWEILL

Mae'r caffaeliadau canlynol ar y gweill a chyda gwerth dros £20,000 y mae gan y CHTh neu'r Prif Gwnstabl ddiddordeb ynddynt:

Teitl Prosiect	Statws yr Orchwyl	Gorchwyl
System Rheoli'r Fflyd	Ar y gweill	Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith
ESRI	Ar y gweill	Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith
Gwaredu cerbydau/peiriannau brys diwedd oes	Ar y gweill	Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith
Caffael Llwyfan Fforensig Digidol	Ar y gweill	Dyfynbrisiau
Tortshis uwch fioled ar gyfer Prosiect Marcio Eiddo Fforensig	Ar y gweill	Dyfynbrisiau
Amnewid Arfwisg	Ar y gweill	Tendr gan un arall
Offer Recordio Cyfweiliadau Digidol	Drafftio ITT	Dyfynbrisiau
PEQF Cymru Gyfan	Drafftio ITT	Tendr +£100,000
Adnewyddu a newid Gorsaf Heddlu Caernarfon	Gwerthuso ITT	Cystadleuaeth Fach +£100,000
Creu Fideo Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar gyfer Strydoedd Diogelach	Gwerthuso ITT	Tendr -£100,000
Gwasanaethau Gweithle a Reolir gan TGCh	Gwerthuso ITT	Tendr +£100,000
Gwasanaethau System Menter TGCh	Gwerthuso ITT	Tendr +£100,000
Gwasanaethau Cyfathrebu a Diogelwch Menter TGCh	Gwerthuso ITT	Tendr +£100,000
Gofynion Gwerthu Llai, y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd a Phencadlys yr Heddlu	Cyhoeddwyd ITT	Tendr -£100,000
Giatiau Awtomatig	Cyhoeddwyd ITT	Tendr -£100,000
Ail dendro System EQMS FCIN	Cyhoeddwyd ITT	Tendr +£100,000
Fframwaith Adeiladu – £50 i £400K	Cyhoeddwyd ITT	Tendr +£100,000
Ail-dendr PEQF	Cyhoeddwyd ITT	Tendr gan un arall
Meddyg a Nyrs yr Uned Iechyd Galwedigaethol - Ail dendr	Manyleb ITT yn disgwyl	Tendr +£100,000
Ireidiau Olew	Heb ddechrau	Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith
Rhannau Sbâr Cerbydau	Heb ddechrau	Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith
National Windscreens	Heb ddechrau	Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith
Ceir Fflyd	Heb ddechrau	Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith

Cyflenwi a Gosod Teiars yn dod i ben – 10.10.23	Heb ddechrau	Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith
Pensaer Gorsaf Heddlu newydd Yr Wyddgrug	Heb ddechrau	Cystadleuaeth Fach -£100,000
Trawsnewid Cerbydau	Heb ddechrau	Cystadleuaeth Fach -£100,000
Iechyd Galwedigaethol a Gwasanaethau Cysylltiedig (NWRFS)	Heb ddechrau	Cystadleuaeth Fach +£100,000
Gwasanaethau Golchi Dillad NWRFS	Heb ddechrau	Tendr -£100,000
Uwchraddiad Gwres Llawn Gorsaf Dân Llandudno	Heb ddechrau	Tendr -£100,000
Cynnig Newid Optimwm RMU	Heb ddechrau	Tendr +£100,000
Cerbydau PACE	Heb ddechrau	Tendr +£100,000
Amnewid Camera Corff	Opsiynau Cwmpasu	Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith
Goleuadau Cerbydau	Opsiynau Cwmpasu	Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith
Rheoli Mynediad Drylliau Tanio	Opsiynau Cwmpasu	Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith
AD – Offer i Staff er mwyn eu cynorthwyo nhw ar gyfer gwaith	Opsiynau Cwmpasu	Cystadleuaeth Fach -£100,000
Gwasanaethau Cyllid a Data Personol	Opsiynau Cwmpasu	Cystadleuaeth Fach +£100,000
Tyrau Hyfforddi Gorsafoedd Tân Abergele a Phorthmadog	Opsiynau Cwmpasu	Cystadleuaeth Fach +£100,000
ACUMA SOLUTIONS LIMITED opsiynau adolygiad gwariant heb gytundeb	Opsiynau Cwmpasu	Dyfnbrisiau
Sganiau Ffeiliau'r Uned Iechyd Galwedigaethol	Opsiynau Cwmpasu	Tendr -£100,000
Cynnal a chadw a thrwsio CCC	Opsiynau Cwmpasu	Tendr -£100,000
System Rheoli Arddangosion Fforensig	Opsiynau Cwmpasu	Tendr -£100,000
Adeiladu Gorsaf Heddlu Newydd Caergybi	Opsiynau Cwmpasu	Tendr +£100,000
Tendr CMS i SCHTh	Opsiynau Cwmpasu	Tendr +£100,000
ITMAS	Yn disgwyl yr heddlu arweiniol	Tendr gan rywun arall
Meincnodi Rheoli Ariannol	Yn disgwyl yr heddlu arweiniol	Tendr gan rywun arall
Prydau Amgylchol	Yn disgwyl yr heddlu arweiniol	Tendr gan rywun arall
SFR Forensics Medicals	Yn disgwyl ateb	Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith
Prosiect Insiwleiddio Lloffydd HGC a NWRFS parh ôl troed carbon	Gyda'r Adran Gyfreithiol	Cystadleuaeth Fach +£100,000
Ffisiotherapyddion Ychwanegol Wrecsam	Gyda'r Adran Gyfreithiol	Dyfnbrisiau

7. CYNIGION WEDI’U SELIO

Dim.

8. HEPGOR RHEOLAU SEFYDLOG

TESLA MOTORS LTD	Car Tesla x 2 i Uwch Swyddogion
------------------	---------------------------------

SHL – Rhesymu llafar ac asesiad cyfrifyddu

SHL Group Ltd	System Recriwtio SHL
---------------	----------------------

Arolwg diwylliannol

Sensia	Arolwg diwylliannol
--------	---------------------

Erialau

SFL Mobile Radio Ltd	Erialau
----------------------	---------


Ers y rhai a adroddwyd yn yr adroddiad diwethaf ar 30 Medi 2022

Dylid nodi bod yr adroddiad hwn wedi'i gwblhau ar 31 Mawrth 2023



HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach

NORTH WALES POLICE
A safer North Wales



Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio 2022 / 23

Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio – 2022 / 23

Mynegai

Datganiad y Cadeirydd

- 1. Trosolwg**
- 2. Gwaith y Cydbwyllgor yn ystod 2022/23**
- 3. Archwilio Mewnol**
- 4. Archwilio Allanol**
- 5. Meysydd i'w Hystyried**
- 6. Llywodraethu**
- 7. Rheoli Risg a Rheolaethau**
- 8. Gwerth am Arian**
- 9. Adrodd Ariannol**
- 10. Codi Pryderon**
- 11. Cynllun Ymlaen a Dyddiadau Cyfarfodydd 2023/24**

Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio – 2022/23

Datganiad y Cadeirydd

Fel Cadeirydd y Pwyllgor, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor ('y Cydbwyllgor') Archwilio; ('y CA') sy'n cwmpasu gweithgarwch am y cyfnod 1 Ebrill tan 31 Mawrth 2023. Yr aelodau o'r CA a wasanaethodd am y flwyddyn oedd:-

Enw
Rachel Barber
John Cunliffe
Sarah Davies
Julie Perkins
Allan Rainford

Diben y CA ydy rhoi cyngor ac argymhelliad annibynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) a'r Prif Gwnstabl (PG) ar ddigonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchfyd rheoli mewnol, ac adroddiadau ariannol, a thrwy hynny gynorthwyo sicrhau fod trefniadau sicrwydd effeithlon ac effeithiol mewn lle. Roedd yn dda ailafael mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb, gyda'r holl gyfarfodydd o fis Gorffennaf 22 yn cael eu cynnal yn hybrid.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y CA adroddiadau gan yr archwilwyr mewnol ('TIAA') ar eu rhaglen arolygu y cytunwyd arni. Adolygodd gynnydd ar gamau gweithredu a nodwyd yn eu hadroddiadau. Yn ystod 2022/23, nid chodwyd materion sylweddol gan y Cydbwyllgor i'r SCHTh neu Brif Gwnstabl HGC ('PGHGC').

Yn ogystal â dibynnu ar adroddiadau'r archwilwyr allanol, Archwilio Cymru, ar yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon diwedd blwyddyn ar gyfer 21/22, ystyriodd y Cydbwyllgor yr holl ddogfennau a dderbyniwyd ar ddiwedd y flwyddyn gan Brif Swyddog Cyllid y CHTh a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Heddlu Gogledd Cymru ('y Swyddogion Cyllid'). Y Swyddogion Cyllid a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn oedd:

Rôl	Enw
Prif Swyddog Cyllid – CHTh	Kate Jackson
Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau – HGC	Seb Phillips
Pennaeth Cyllid - Dirprwy Swyddog Cyllid	Guto Edwards

Ymhlith yr enghreifftiau o weithgarwch penodol y mae'r CA wedi ymgymryd â hwy er mwyn hwyluso proses o nodi, adolygu ac asesu unrhyw faterion o bwys, gan syrthio o fewn ei gylch gorchwyl, mae:

- Adolygiad o'r datganiadau ariannol blynyddol, gan ganolbwyntio'n benodol ar bolisïau ac arferion cyfrifo. Mae hyn yn cynnwys rhoi pwyslais ar eglurder yr adroddiad naratif a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

- Derbyn sicrwydd ar y strategaeth gyfalaf a strategaeth rheoli'r trysorlys, gyda'r strategaeth gyfalaf yn parhau i fod yn heriol yn yr amgylchfyd allanol presennol
- Adolygu'r ymdriniaeth i reoli risg a chyflawni'r gwelliannau i'r ymdriniaeth i reoli risg a mapio sicrwydd
- Adolygu y trefniadau a strwythurau llywodraethu effeithiol, effeithlon a chadarn.
- Adolygu a derbyn sicrwydd ar werth am arian.
- Derbyn sicrwydd ar yr hunanasesiad a ymgwymerwyd gan yr Heddlu o ran Cod Rheoli Ariannol CIPFA
- Derbyn diweddariadau sefydliadol ym mhob cyfarfod chwarterol gan yr Heddlu a SCHTh er mwyn parhau i fod yn ymwybodol o ddigwyddiadau allweddol sy'n digwydd o fewn yr Heddlu
- Sesiynau Briffio ar Adroddiadau at Wraidd y Mater ar Ddatganiad Rheoli'r Heddlu, Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio, agweddau Technoleg Digidol a Gwybodaeth amrywiol, Strategaeth Gyfathrebu, Ymchwiliad Gwrthdrawiadau Fforensig a'r Rhwydwaith Ymchwiliad Gwrthdrawiadau, ymdriniaeth i Risg, Denu Staff, Rhwydwaith Ymchwiliad Gwrthdrawiadau Fforensig, a chadernid TGCh.
- Gwaith y pwyllgor moeseg
- Diweddariad yn ymwneud ag arolygon HMICFRS
- Cymryd rhan wrth ddatblygu'r rhaglen archwilio fewnol, gan gynnwys archwiliadau cydweithredol
- Adolygiad o effeithiolrwydd yr archwilwyr mewnol ac allanol.
- Cyfarfod â CA Cymru Gyfan

O ran y Datganiad Cyfrifon, roedd parodrwydd yr Heddlu a'r CHTh ar gyfer yr archwiliad diwedd blwyddyn yn dda ac ni chodwyd materion sylweddol. Mae'n anffodus fodd bynnag, oherwydd amserlen Archwilio Cymru, nad oedd y Datganiad Cyfrifon ar gael am adolygiad gan y CA tan fis Hydref 22. Ni wnaeth Archwilio Cymru ryddhau eu hadroddiad ar gwblhau'r archwiliad tan fis Mawrth 2023 yn dilyn cwblhau holl archwiliadau'r awdurdodau lleol.

Hoffwn fynegi fy ngwerthfawrogiad i holl staff cynorthwyol ac uwch swyddogion sydd wedi cynorthwyo'r CA wrth iddo fodloni ei gyfrifoldebau. Dros y flwyddyn, fel Cadeirydd y CA, rwyf wedi clustnodi llawer o weithrediadau sydd angen eu dilyn er mwyn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i aelodau'r cydbwyllgor. Mae hyn yn ffurfio rhan bwysig o'r sicrwydd cyffredinol a roddir gan y cydbwyllgor. Rwyf yn gwerthfawrogi ymdrechion staff a swyddogion o ran hyn. Rwyf hefyd yn diolch i'r archwilwyr allanol a mewnol, y timau o Archwilio Cymru a TIAA yn y drefn honno, am eu hadroddiadau a'u cyfraniadau i'r cyfarfodydd. Mae'r ddeialog barhaus hon wedi cynorthwyo i ddatblygu'r fframweithiau o fewn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru. Rwyf yn credu fod y Cydbwyllgor wedi gweithredu'n annibynnol gan gynnig her adeiladol a thryloywder ategol. Mae wedi cyflawni o ran ei gylch gorchwyl ac mae'n edrych am gyfleoedd am welliant parhaus wrth graffu mewn amgylchfyd ymddiriedol, cynorthwyol a chymorth cilyddol.

Rachel Barber
Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio

Mai 2023

1. Trosolwg

Mae'n ofynnol i'r Cydbwyllgor Archwilio adrodd yn flynyddol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) a Phrif Gwnstabl HGC yn amlinellu'r gwaith y mae wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn a, lle bo angen, tynnu sylw at unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

Mae Aelodaeth y Cydbwyllgor yn cynnwys aelodau allanol ac annibynnol. Mae Cylch Gorchwyl y CA ynghlwm yn **Atodiad 1**. Yn ystod 2022/23 gwnaeth yr Heddlu a SCHTh adolygu cylch gorchwyl y CA yn ei Fwrdd Cyd Lywodraethu. Cafwyd mân ddiwygiadau, yn unol â chanllawiau CIPFA hefyd. Mae'r rhain yn debygol o ddod i rym yn ystod 23/24.

Diben y CA yw rhoi cyngor ac argymhelliad annibynnol i'r CHTh a PGHGC ar ddigonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchfyd rheoli mewnol, ac adroddiadau ariannol, a thrwy hynny gynorthwyo i sicrhau fod effeithlonrwydd a threfniadau sicrhau effeithiol ar waith. I'r perwyl hwn, mae'r Cydbwyllgor yn gallu ac mae gofyn iddo oruchwylio a darparu adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheoli SCHTh a'r Heddlu, y broses adrodd ariannol a llywodraethu blynyddol, ac archwilio mewnol ac allanol.

Yn ystod 2022-23 cyfarfu'r Pwyllgor yn hybrid bedair gwaith yn unol â'i amserlen arfaethedig:-

- 28 Gorffennaf 2022
- 10 Hydref 2022
- 8 Rhagfyr 2022
- 28 Mawrth 2023

Ynghyd â'r cyfarfodydd, cynhaliwyd cyfarfod ychwanegol er mwyn rhoi mwy o adborth manwl ar yr adroddiad blynyddol a chyfrifon cyn y gymeradwyaeth olaf.

Roedd agenda, cofnodion a phapurau ar gael i'r cyhoedd cyn yr holl gyfarfodydd a drefnwyd. Yr eithriad i hyn oedd lle ystyriwyd eitemau yn amhriodol i'w cyhoeddi. Yn yr amgylchiadau hyn, roedd agenda sesiwn gaeedig, cofnodion a phapurau ar gael i holl aelodau'r CA cyn yr holl gyfarfodydd a drefnwyd.

Mae gan yr Archwilwyr Allanol, yr Archwilwyr Mewnol, y Prif Weithredwr, y Prif Swyddogion Cyllid wahoddiad sefydlog i fynychu pob cyfarfod a gwneud hynny'n rheolaidd. Daeth y CHTh i gyfarfodydd mis Gorffennaf a mis Hydref. Daeth y PG a oedd yn gadael i gyfarfod mis Gorffennaf a'r PG Dros Dro i gyfarfod mis Hydref. Yn ogystal, gwahoddir swyddogion SCHTh a'r Heddlu i fod yn bresennol fel sy'n briodol i'r agenda. Mae manylion y rhai hynny a wahoddwyd yn rheolaidd i gyfarfodydd y Cydbwyllgor wedi'u rhestru yn **Atodiad 2**.

Efallai y bydd Aelodau'r Cydbwyllgor yn cyfarfod â'r Archwilwyr Allanol a Mewnol y tu allan i'r amserlen cyfarfod ffurfiol. Rhoddwyd trefniant ar waith i'r Cydbwyllgor Archwilio gyfarfod â'r archwilwyr cyn pob cyfarfod heb reolwyr na swyddogion yn bresennol. Cyfarfu aelodau'r CA gyda'r archwilwyr mewnol yn breifat yn ystod rhan gyntaf 2023.

Cynhaliwyd sawl digwyddiad yn ystod y flwyddyn gan aelodau'r CA gan gynnwys diwrnod hyfforddiant CA Cymru gyfan a gynhaliwyd yn rhithiol yn y flwyddyn; cyfarfod CA Cymru Gyfan a

gynhaliwyd gan CA Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn hybrid; diwrnod ymgyfarwyddo a gynhaliwyd ar gyfer aelodau CA ac aelodau Panel Heddlu a Throsedd Heddlu Gogledd Cymru a digwyddiadau eraill a nodwyd mewn dyddiadau a gafwyd gyda'r prif gyfarfodydd ffurfiol.

2. Gwaith y Cydbwyllgor yn ystod 2022/23

Drwy gydol 2022/23, cyflwynodd y Cydbwyllgor adroddiad ar natur a chanlyniadau ei waith i'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gan dynnu sylw at unrhyw feysydd y dylid tynnu eu sylw atynt.

Ymhlith rhai o'r themâu allweddol a drafodwyd mewn cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn oedd::

- Adolygiad o'r datganiadau ariannol blynyddol, gan ganolbwyntio'n benodol ar bolisiâu ac arferion cyfrifo. Mae hyn yn cynnwys rhoi pwyslais ar eglurder yr adroddiad naratif a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Derbyn sicrwydd ar y strategaeth gyfalaf a strategaeth rheoli'r trysorlys, gyda'r strategaeth gyfalaf yn parhau i fod yn heriol yn yr amgylchfyd allanol presennol
- Adolygu'r ymdriniaeth i reoli risg a chyflawni'r gwelliannau i'r ymdriniaeth i reoli risg a mapio sicrwydd
- Adolygu y trefniadau a strwythurau llywodraethu effeithiol, effeithlon a chadarn.
- Adolygu a derbyn sicrwydd ar werth am arian
- Derbyn sicrwydd ar yr hunanasesiad a ymgymerwyd gan yr Heddlu o ran Cod Rheoli Ariannol CIPFA
- Derbyn diweddariadau sefydliadol ym mhob cyfarfod chwarterol gan yr Heddlu a SCHTh er mwyn parhau i fod yn ymwybodol o ddigwyddiadau allweddol sy'n digwydd o fewn yr Heddlu
- Sesiynau Briffio ar Adroddiadau at Wraidd y Mater ar Ddatganiad Rheoli'r Heddlu, Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio, agweddau Technoleg Digidol a Gwybodaeth amrywiol, Strategaeth Gyfathrebu, Ymchwiliad Gwrthdrawiadau Fforensig a'r Rhwydwaith Ymchwiliad Gwrthdrawiadau, ymdriniaeth i Risg, Denu Staff, Rhwydwaith Ymchwiliad Gwrthdrawiadau Fforensig, a chadernid TGCh.
- Gwaith y pwyllgor moeseg
- Diweddariad yn ymwneud ag arolygon HMICFRS
- Cymryd rhan wrth ddatblygu'r rhaglen archwilio fewnol, gan gynnwys archwiliadau cydweithredol
- Adolygiad o effeithiolrwydd yr archwilwyr mewnol ac allanol.
- Cyfarfod â CA Cymru Gyfan
- Dros y flwyddyn, y lluo o weithrediadau sydd angen eu dilyn er mwyn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i aelodau'r cydbwyllgor.

Ymgymerir ag adolygiad hunanwerthuso cyflawniad ar ddiwedd bob blwyddyn gan aelodau'r JAC ac fe'i darperir i swyddogion Cyllid. Mae hyn er mwyn hwyluso cynllun gweithredu i ymdrin â chyfleoedd i wella.

Ymgymerwyd â gwerthusiad ddechrau 2021 gyda thri maes wedi'u nodi i wella ei gyfraniad. Gyda phroses gynefino mewn lle, cytunwyd ymgymeriad â gwerthusiad yn ymgorffori aelodau newydd o'r cydbwyllgor ddechrau 2022 a chytuno ar gynllun gweithredu gyda Swyddogion Cyllid 22/23.

Mae'r gwerthusiad wedi dangos cyfleoedd cryfhau gwaith y cydbwyllgor ymhellach drwy:

1. Ymgysylltu â'r CA fel prif randdeiliaid yn nhrefodaethau Model Gwasanaeth Dyfodol Archwilio Mewnol er mwyn caniatáu iddynt gyflawni eu dyletswyddau yn unol â Chylch Gorchwyl y CA
2. Adrodd yn ôl i Gadeirydd y CA ar effeithiolrwydd y cydbwyllgor o safbwynt CCPSH o safbwynt swyddog CCPSH a SCHTh er mwyn iddynt ystyried ynghyd ag unrhyw sylw allanol arall maent yn dymuno ei geisio.
3. Sicrhau fod Anghenion Hyfforddiant aelodau'r cydbwyllgor yn cael eu hystyried yn ffurfiol a datblygu cynllun priodol.
4. Ymgysylltu â'r graddau y cynhwysir Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Gwerth am Arian yn ddigonol yn y rhaglen waith er mwyn gadael iddynt gyflawni eu dyletswyddau ac
5. Ystyried a ydy hysbysu cyhoeddus y CA ar lefel briodol neu a oedd cwmpas gwella tryloywder ac atebolrwydd.

Cytunwyd ar y cynllun gweithredu ac adolygydd ar y cynnydd yn ystod mis Mawrth 2023. Trafodwyd y potensial i gryfhau yn y meysydd uchod yn ystod sesiwn gaeedig y cydbwyllgor. Crëwyd adroddiad ysgrifenedig o ran y cynllun gweithredu wedyn gan Brif Swyddog Cyllid yr Heddlu fel y gall y camau sy'n cael eu cymryd er mwyn cryfhau pwyllgor y cydbwyllgor gael eu hamgyffred. Ond mae'n werth nodi fod yr adborth ar effeithiolrwydd y cydbwyllgor o'r rhai hynny sy'n ymgysylltu ag o yn gytbwys a chadarnhaol, a oedd yn galonogol i'w weld.

Ymgwymerwyd ag adolygiad pellach gan y CA ym mis Mawrth / Ebrill 2023 o ran y gofynion CIPFA newydd. Ynghyd â'r adborth a dderbyniwyd ar waith y cydbwyllgor ar gyfer 22/23 gan y rhai sy'n ymgysylltu ag o, bydd hyn yn ffurfio sail unrhyw gynllun gweithredu ar gyfer datblygiad parhaus y Cydbwyllgor yn ystod 23/24.

Mae adolygiad ar y gweill ar hyn o bryd er mwyn penderfynu'r cynllun mwyaf priodol ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol wrth symud ymlaen. Yn unol â chylch gorchwyl y CA wrth benderfynu priodoldeb y gwasanaethau Archwilio Mewnol, mae a bydd aelodau'r cydbwyllgor yn cael eu cynnwys yn y broses hon fel rhanddeiliad. O ystyried y model cydweithredol a weithredodd Archwilio Mewnol ledled plismona Cymru, mae'r sgysiau wedi cynnwys aelodau CA HGC ym mhob sgwrs ledled Cymru lle bo'n briodol.

3. Archwilio Mewnol

Drwy gydol y flwyddyn, cynorthwyr y CA yn ei waith gan y rhaglen archwilio mewnol sy'n gwerthuso ac yn cyfrannu at y gwaith o wella prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli. Mae'r gwaith archwilio mewnol yn darparu archwilio, gwerthuso ac adrodd gwrthrychol ar ddigonolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae pob archwiliad mewnol o fewn y rhaglen flynyddol yn alinio risgiau strategol y Fframwaith Sicrwydd sy'n cefnogi'r ddarpariaeth sicrwydd gwrthrychol yn erbyn rheoli'r risgiau. Mae canfyddiadau allweddol yr archwiliadau mewnol yn cael eu hadrodd i'r CA gan gynnwys sylwadau ar briodoldeb rheolaethau allweddol mewn perthynas â'r risgiau, cryfder y sicrwydd a ddarperir ar gyfer pob risg yn ogystal ag addasrwydd y gweithredoedd lliniaru risg ychwanegol.

Mae'n ofynnol i'r Cydbwyllgor sicrhau bod swyddogaeth archwilio fewnol effeithiol. Gwneir hyn drwy adolygu a chymeradwyo'r cynlluniau archwilio mewnol a chynlluniau gwrth-dwyll sy'n seiliedig ar risg. Yn ystod y cyfnod adrodd, darparwyd y swyddogaeth archwilio fewnol gan yr Asiantaeth Archwilio Fewnol (TIAA) fel rhan o gontract dwy flynedd a ddyfarnwyd ym mis Ebrill 2019, gyda'r

opsiwn i ymestyn y cyfnod am ddwy flynedd arall. Mae trefniadau contractau tu hwnt i'r tymor presennol o dan adolygiad ar hyn o bryd, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad. Bydd yn cael ei ymestyn tan fis Mawrth 24 tra penderfynir ar ymdriniaeth y dyfodol ar y cyd â gweddi heddloedd a SCHTh Cymru.

Mae archwilio mewnol hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth gynorthwyo'r Prif Weithredwr er mwyn sicrhau amgylchfyd rheoli effeithiol. Mae ganddo raglen waith wedi'i diffinio'n glir sy'n cynnwys gwaith cynghori yn ogystal ag archwilio.

Gwnaeth y Cydbwyllgor barhau goruchwyllo a rhoi mewnbwn i ddatblygiad y rhaglen archwilio mewnol flynyddol ar gyfer 22/23, a gymeradwywyd yng nghyfarfod olaf 21/22.

Yn ystod 22/23 derbyniodd y Cydbwyllgor ddau archwiliad 'Sicrwydd Cyfyngedig'. Ar adeg yr ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, disgwylir adroddiad archwiliad sicrwydd cyfyngedig a bydd yn cael ei roi yng nghyfarfod cyntaf 23/24. Rhoddir mwy o bwyslais sylweddol ar archwiliadau sicrwydd cyfyngedig gan y cydbwyllgor. Maent yn cynnwys rheolwyr yr Heddlu neu'r SCHTh yn dod i'r pwyllgorau ynghyd â thracio gweithrediadau'n barhaus yn cael mwy o sylw penodol mewn unrhyw ddiweddariadau rheoli. Yr archwiliadau sicrwydd cyfyngedig o raglen 22/23 oedd Eiddo wedi'i Atafaelu a Rheoli Absenoldeb. Mae'r archwiliad sicrwydd cyfyngedig disgwylidig mewn cyflawni gweithrediadau lechyd a Diogelwch. Hysbyswyd amdanynt yn fanwl i'r CA. Cynigiwyd sicrwydd i'r CA fod swyddogion ynghylch cyflawni gwelliannau a deall y sefyllfa. Rhoddir olrheiniadwyedd a sicrwydd i'r CA ar gyfer holl nodiadau briffio cleientiaid sy'n rhoi tryloywder gweithredu a gymerir gan yr Heddlu neu SCHTh.

Roedd oedi mewn cyflwyno cynllun archwilio 23/24 i gyfarfod mis Mawrth 2023 oherwydd cwblhau archwiliadau Cydweithrediad. Ond roedd y cynllun drafft yn cynnwys ystyriaeth lle'r oedd sicrwydd pellach ei angen o ystyried yr archwiliadau sicrwydd cyfyngedig diweddar. Darparwyd cynllun Gogledd Cymru'n unig yn ystod mis Ebrill. Caiff ei gyflwyno'n llawn i'w gymeradwyo i gyfarfod mis Gorffennaf 2023.

Cyfarfu'r CA yn breifat gyda TIAA ym mis Mawrth 23.

4. Allanol Archwiliad

Darperir cytundeb archwilio allanol gan Archwilio Cymru fel y penodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Gwnaeth y Cydbwyllgor o Archwilio Cymru dderbyn datganiad datganiad annibyniaeth a gwrthrychedd yr archwilydd.

Mae canllawiau polisi clir ar waith ynghylch y ddarpariaeth o wasanaethau nad ydynt yn rhai archwilio gan yr Archwiliwr Allanol. Mae mesurau diogelu ar waith sy'n sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod am gwmpas a gwerth gwaith ychwanegol a gomisiynir gan yr Archwilywyr Allanol. Ni wnaed unrhyw waith arall nad oedd yn archwilio gan yr Archwilywyr Allanol o fewn y flwyddyn.

Rhoddodd yr archwilywyr allanol eu barn ddiweddaraf ar eu hymdriniaeth archwilio seiliedig ar risg yng nghyfarfod mis Mawrth 2022 a'u meysydd allweddol o ffocws yn yr archwiliad diwedd blwyddyn drwy adroddiad diweddariad technegol a chynllunio, gan alluogi'r Cydbwyllgor i ofyn cwestiynau a cheisio cyngor yn ôl yr angen. Roedd y risgiau allweddol a nodwyd a allai effeithio'r

datganiadau ariannol yn 2021/22 yn cynnwys Risg o Reolwyr yn Diystyru, Effaith Covid 19 a Dyfarniadau Asedau.

Mae'r CA wedi adolygu gwaith yr Archwilwyr Allanol ac mae'n fodlon bod y gwasanaeth archwilio allanol o safon ddigon uchel a bod y ffioedd yn briodol ac yn rhesymol. Y ffi archwilio allanol ar gyfer 2022/23 oedd £86,866 ynghyd â TAW, sef cynnydd o 3.8% ar y flwyddyn flaenorol.

Nid oedd y Cydbwyllgor wedi derbyn cynllun blynyddol 2022/23 Archwilio Cymru ar gyfer cyfarfod mis Mawrth 23. Fe'i darparwyd gyda chynnydd ffi canran mynegol ar gyfer yr archwiliad arfaethedig gyda dyddiad cyflawni hwyr, oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau o fewn Archwilio Cymru. Disgwyl y cydbwyllgor (yn dilyn y diweddariad hwn) ydy bod yr amserlenni ar gyfer cymeradwyo cyfrifon 23/24 yn parhau cael eu gohirio gan Archwilio Cymru a fydd yn effeithio ar yr amserlenni y gall y cydbwyllgor archwilio gyflawni ei gyfrifoldebau wrth symud ymlaen.

5. Meysydd i'w Hystyried

Yn ein rôl fel Aelodau'r CA, rydym yn ymgymryd â nifer o weithgareddau y tu allan i'r cyfarfodydd ffurfiol a drefnwyd ar faterion sy'n ymwneud â'r Cydbwyllgor. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd â'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddogion Cyllid, Aelodau'r Uwch Dîm Rheoli ac Archwilwyr Mewnol ac Allanol a chyfarfodydd pwyllgor penodol sy'n berthnasol i feysydd ffocws arbenigol Aelod fel y'u nodir isod:

Enw	Maes Ffocws
Rachel Barber	Cadeirydd
John Cunliffe	Risg
Sarah Davies	Llywodraethu a Moeseg
Julie Perkins	Digidol
Allan Rainford	Cyllid

6. Llywodraethu

Gwnaeth y Bwrdd Cyd Lywodraethu gyfarfod yn rheolaidd yn ystod 2022/2023. Ei ddiben yw ystyried y fframwaith cyd lywodraethu cyffredinol a sicrhau fod y CHTh a'r PG yn cyflawni eu cyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol. Mae aelodaeth y bwrdd yn cynnwys uwch swyddogion SCHTh a'r Heddlu a Phennaeth Archwilio Mewnol. Mae aelodau'r CA wedi mynychu cyfarfodydd o'r bwrdd. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn adrodd i bob cyfarfod o'r CA ar eu gwaith.

Derbyniwyd a thrafodwyd drafftiau'r datganiad llywodraethu blynyddol o ran 2021/22 yn y Bwrdd Cyd Lywodraethu, lle gwahoddir aelodau'r CA. Roedd aelodau'r CA yn gallu adolygu a rhoi sylwadau ar ddrafft terfynol y Datganiad cyn ei gyflwyno'n derfynol fel rhan o'r adroddiad a'r cyfrifon yng nghyfarfod y CA ar 10 Hydref 2022. Trafodir cynnydd Cynllun Gweithredu Llywodraethu Blynyddol 2022/2023 yn rheolaidd yn y Bwrdd Cyd Lywodraethu.

Cychwynwyd adolygiad y Llawlyfr Llywodraethu ym mis Mawrth 23 ac felly roedd adolygiad o'r strwythur Llywodraethu. Tra y'i sefydlwyd fel proses flynyddol, mae'r adolygiad hwn wedi cael pwyslais penodol gan arolwg PEEL HMICFRS a ddigwyddodd o fewn yr Heddlu yn ystod 2022. Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 23 (ac a gyflwynwyd i'r CA ym mis Mawrth 23) yn crybwyll yr elfennau llywodraethu y dylai'r heddlu eu hystyried yn y dyfodol. Gwnaiff y CA fonitro'r

cynnydd hwn yn ystod 23/24 ynghyd â'r Meysydd i'w Gwella eraill a nodwyd fel rhan o gynllun gweithredu Adolygiad PEEL.

Rhodddwyd diweddariad gan y Pwyllgor Moeseg yng nghyfarfod mis Rhagfyr. Hysbyswyd y CA am ymddiswyddiad y Cadeirydd a'r broses recriwtio am rywun newydd i'r swydd.

7. Rheoli Risg a Rheolaethau

Mae'r CA yn ceisio sicrwydd fod proses rheoli risg briodol. Mae'n canolbwyntio ar y gofrestr risg strategol gyfunol ac yn ceisio sicrwydd ei fod yn rhesymol, yn gynhwysfawr ac yn ddeinamig. Mae hefyd yn gwirio bod y risg weddilliol yn cyd-fynd ag archwaeth risg y ddau sefydliad. Ym mhob cyfarfod o'r CA mae aelodau'n derbyn ac yn adolygu'r diweddariad rheoli risg ar y broses rheoli risgiau sefydliadol. Mae gan aelodau'r CA fynediad hefyd at gofrestrau SCHTh a'r Heddlu cyn eu cyfarfodydd ffurfiol. Mae'r adrodd yn parhau i esblygu er mwyn darparu mwy o grynoder a thryloywder i'r gwaith mae'r Heddlu yn ei ymgymryd yn y maes hwn.

Anogodd y CA yr Heddlu i gyflwyno chwant risg ffurfiol yn 19/20. Cafodd hyn ei adolygu a'i ddatblygu yn 20/21 gyda'r CA yn rhoi mewnbwn ac yn craffu'r ymdriniaeth a fabwysiadwyd. Yn ystod 21/22, ymgorfforwyd hyn i'r Fframwaith Rheoli Risgiau a Mapio Sicrwydd. Yn ystod y flwyddyn, penderfynodd yr heddlu y byddai mapio sicrwydd yn cael ei flaenoriaethu ar sail risg, ac mae hyn wedi mynd ymlaen. Mae mapio sicrwydd hefyd yn cael ei fabwysiadu fel dull o 'gau' risg mewn rhai achosion, unwaith mae risg wedi'i ddad-ddwysau drwy weithrediadau neu reolaethau lliniaru. Cynhaliwyd sesiwn Risg ymroddedig gydag aelodau'r CA ym mis Tachwedd 2022, gan gynorthwyo sefydlu dealltwriaeth o'r cynnydd a wnaed dros y blynyddoedd a rannwyd yn eang a'r agwedd at risg.

Mae Adroddiadau at Wraidd y Mater a sesiynau briffio wedi'u hymgydryd yn ystod y flwyddyn yn y meysydd canlynol: Datganiad Rheoli'r Heddlu, Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio, agweddau Technoleg Digidol a Gwybodaeth amrywiol, Strategaeth Gyfathrebu, Risg Rhwydwaith Ymchwiliad Gwrthdrawiadau Fforensig, ymdriniaeth i Risg, Denu Staff, Rhwydwaith Ymchwiliad Gwrthdrawiadau Fforensig, a chadernid TGCh. Mae'r rhain yn cael eu gyrru fel arfer gan y gofrestr risg ac nid ydynt yn rhan o agenda rheolaidd y CA. Mae gweithrediadau dilynol o'r adolygiadau hyn yn cael eu tracio yn ôl yr angen drwy'r cofnod gweithrediadau.

Yn ystod cyfarfod mis Mawrth 23 gwnaeth yr Heddlu amlinellu ei fwriad i gomisiynu adolygiad annibynnol o'i brosesau rheoli risg.

8. Gwerth am Arian

Mae nodiadau canllaw CIPFA yn nodi mae cyfrifoldeb statudol y Prif Gwnstabl yw sicrhau Gwerth am Arian. Mae'r Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol am y cyfrifoldeb hwn. Rôl y CA yw cynorthwyo'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i gyflawni eu cyfrifoldebau. Rôl y CA yw ystyried y trefniadau i sicrhau gwerth am arian ac adolygu sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn. Yn ystod 21/22, derbyniodd y CA sicrwydd ar sut mae'r cylch cynllunio strategol wrth galon ei brosesau gwerth am arian a chyfansoddiad a defnydd ei fframwaith gwerth am arian. Derbyniodd wybodaeth ar arbedion a chanlyniadau a gyflawnwyd wrth osod gwerth am arian ym mhopeth a wneir.

Yn ystod y flwyddyn mae'r CA wedi ceisio deall y tanwariant refeniw a chyfalaf o ran cyllideb ac os na allent gael eu disgwyl fel rhan o'r broses cynllunio ariannol ac felly arwain at werth am arian gwell. Mae swyddogion wedi egluro effeithiau ffactorau allanol ac wedi herio'r prosesau mewnol sy'n cynnig sicrwydd fod hwn wedi'i ddeall yn dda. Fodd bynnag, mae'r maes yn parhau'n un o dan sylw i'r cydbwyllgor. Ystyriwyd a oedd angen tryloywder pellach ac roedd hyn yn deillio o gynllun gweithredu Gwerthusiad y CA.

Ym mis Mawrth 2023 gwnaeth Archwilio Cymru ddweud 'bod gan y CHTH a'r PG drefniadau priodol mewn lle er mwyn sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn eu defnydd o adnoddau'. Graddiodd yr arolwg PEEL yr heddlu fel digonol o ran cynllunio strategol, rheoli sefydliadol a gwerth arian. Er, nodwyd dau faes penodol i'w gwella yn y maes hwn. Un oedd "Mae'r heddlu angen gwella sut mae'n trosglwyddo ei gynlluniau ariannol a'r heriau mae'n wynebu wrth gyflawni ei wasanaethau." Gwnaiff y CA barhau monitro'r cynnydd o ran y maes hwn ynghyd â'r meysydd i'w gwella eraill.

Yn ystod 23/24, hoffai'r CA weld y fframwaith Gwerth am Arian yn cael ei ystyried a'i gyflwyno'n rheolaidd drwy eitemau a drafodir yn y CA. Gan ddeillio o gynllun gwerthuso'r CA, cytunwyd y cryfheir gwaith yn y maes hwn drwy Gwerth am Arian yn cael ei gynnwys fel eitem ymroddedig o'r rhaglen waith a bod adroddiad Gwerth am Arian yn amlinellu goblygiadau Gwerth am Arian eitemau agenda eraill a digwyddiadau eraill yr heddlu yn cael eu cynnwys ym mhob cyfarfod. O ystyried potensial sensitifrwydd masnachol yn y maes hwn, mae wedi'i gydnabod bydd elfennau o hyn angen eu cynnwys mewn sesiwn gaeedig.

9. Adrodd Ariannol

Mae'r CA yn mynd ati mewn ffordd gyfannol i gyflawni ei atebolrwydd mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol.

Mae enghreifftiau o weithgarwch penodol y mae'r CA wedi ymgymryd â nhw er mwyn hwyluso proses o nodi, adolygu ac asesu materion sylweddol mewn o ran Cyfrifon Statudol 2021/22 yn cynnwys y canlynol:

- Derbyn cyfarwyddiadau gan Swyddogion Cyllid y CHTH a'r Prif Gwnstabl, sydd angen dwyn sylw'r Cydbwyllgor, yn barhaus, at unrhyw newidiadau i'r polisi cyfrifyddu, materion arwyddocaol yn ymwneud ag adroddiadau ariannol, amcangyfrifon a dyfarniadau, a thrafodion arwyddocaol, gan sicrhau bod y cyfrifon blynyddol wedi'u paratoi yn unol â pholisiâu cyfrifyddu.
- adolygodd y Cydbwyllgor uniondeb y Datganiadau Ariannol cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl a chydymffurfiaeth â'r polisi cyfrifyddu ac unrhyw addasiadau arwyddocaol.
- cafodd y Pwyllgor adroddiadau gan y Prif Swyddogion Cyllid yn manylu ar achosion o dorri amodau a hepgor y broses gaffael a sicrwydd ar gydymffurfiaeth â cholledion a phrosesau taliadau arbennig.
- derbyniodd ac adolygodd y Cydbwyllgor yr Adroddiad Blynyddol drafft a'r Datganiadau Ariannol i baratoi ar gyfer eu llofnodi, ym mis Hydref 2022.
- adolygodd y Cydbwyllgor yr Adroddiad Blynyddol (gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol), y Datganiadau a'r Cyfrifon Ariannol Blynyddol er mwyn darparu gwiriad cysondeb a rhesymoldeb.

- cyflwynodd y Swyddogion Cyllid bapurau manwl i'r Cydbwyllgor ar y broses cyfrifon blynyddol yn ystod y cyfnod adrodd diwedd blwyddyn.
- ystyriodd y Cydbwyllgor adroddiad ISA260 yr archwilydd allanol a barn archwilio heb ei haddasu. Ni thynnwyd sylw at unrhyw wahaniaeth barn gyda'r dyfarniadau rheoli allweddol.
- ystyriodd y Cydbwyllgor farn TIAA mewn perthynas â digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu'r sefydliad, a oedd yn darparu Sicrwydd Sylweddol yn gyffredinol.
- Gwnaeth y Cydbwyllgor godi'r llithriant parhaus mewn gwariant cyfalaf a chyflawni prosiectau i'r rheolwyr a sicraodd bod yr adroddiad naratif yn adlewyrchu'r llithriant hwn yn addas.
- Gwnaeth y Cydbwyllgor argymhellion ar gyflwyniad yr adroddiad er mwyn gwella eglurder. Anogwyd SCHTh i greu crynodeb "darllen hawdd" o'r cyfrifon. Gwneir gwelliannau pellach ar gyfer adroddiad 22/23.

O'i waith llwyddodd y CA ddod i'r casgliad:

- bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol yn cynrychioli barn deg a rhesymol am sefyllfa ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl.
- ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i bolisi cyfrifyddu.
- roedd y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â safonau adrodd ariannol.
- adolygwyd meysydd yr oedd angen dyfarniadau sylweddol arnynt wrth gymhwyso polisiau cyfrifyddu.
- ni chafwyd unrhyw drafodion arwyddocaol nac anarferol yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Cydbwyllgor dderbyn sicrwydd o gynnydd a chydymffurfiaeth â Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA.

10. Codi Pryderon

Nod yr Heddlu yw creu amgylchfyd lle mae staff yn teimlo ei bod yn ddiogel codi a thrafod pryderon a gwendidau yn agored er mwyn gallu sefydlu'r cynlluniau gweithredu priodol ar gyfer ymateb a'u monitro i'w rhoi ar waith. Yn ystod 2022/23, cafodd y CA sicrwydd o ran y system ar gyfer codi pryderon fel rhan o'i amserlen fusnes. Bydd hyn yn parhau i 2023/24.

11. Dyddiadau Cynllun Ymlaen a Dyddiadau Cyfarfodydd 2023/24

Yn ystod 2023/24 bydd y CA yn cyflawni ei Gylch Gorchwyl a'r cylch gorchwyl diweddaraf pan gyflwynir nhw ac yn fwy penodol:

- Dilyn ac adolygu'r gweithrediadau o gynllun gweithredu'r Adolygiad Llywodraethu a chynorthwyo gwelliant pellach
- Cael sicrwydd fod gwaith y pwyllgor Moeseg yn symud ymlaen gyda'r cadeirydd newydd
- Ceisio sicrwydd cydymffurfiaeth gyda'r Cod Rheolaeth Ariannol ac arwain gwelliannau pellach mewn cyflwyniad ariannol er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth
- Parhau i adolygu sut y cyflawnir gwerth am arian a sut mae hyn yn cael ei amgyffred yn holl waith y CA.
- Dilyn ac adolygu gweithrediadau adolygiad annibynnol y prosesau risg
- Cael sicrwydd o barodrwydd am ymdriniaeth effeithiol o archwilio mewnol ar gyfer 23/24

- Cyflawni'r cynllun gweithredu sy'n tarddu o'i adolygiad effeithiolrwydd hunanwerthuso blynyddol
- Monitro cynnydd a chyflawni'r cynllun gweithredu ar gyfer adolygiad PEEL
- Gweithio gyda'r uwch swyddogion ar fformat papurau'r Cydbwyllgor er mwyn cynorthwyo effeithiolrwydd effeithlonrwydd y CA mewn bodloni canlyniadau'r Cylch Gorchwyl

Mae gan y CA bedwar cyfarfod wedi'u cynllunio yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24:-

- 27 Gorffennaf 2023
- 28 Medi 2023
- 7 Rhagfyr 2023
- 28 Mawrth 2024

Terms of Reference of the Joint Audit Committee

This Terms of Reference sets out the Joint Audit Committee's position as an advisory committee to support the Police and Crime Commissioner (PCC) and Chief Constable (CC).

1. Statement of purpose

- 1.1 The purpose of the Joint Audit Committee (the Committee, JAC) is to provide an independent and high-level focus on the adequacy of governance, risk, and control arrangements. Its role is to ensure there is sufficient assurance over governance, risk, and control, which gives greater confidence to the PCC and CC that those arrangements are effective.
- 1.2 JAC has oversight of both internal and external audit, together with the financial and governance reports, helping to ensure there are adequate arrangements in place for both internal challenge and public accountability.

2. Governance risk and control

- 2.1.1 The Committee will:
 - 2.1.2 Review the PCC's and CC's corporate governance arrangements against the good governance framework, including the ethical framework, and consider the Manual of Governance (which comprises the Code of Corporate Governance, Scheme of Consent, Financial Regulations, and Standing Orders for Contracts).
 - 2.1.3 Monitor the effective development and operation of risk management in the OPCC and force.
 - 2.1.4 Monitor progress in addressing risk-related issues reported to JAC (individual force operational risk are specifically excluded from the remit of JAC).
 - 2.1.5 Consider reports on the effectiveness of fiscal management arrangements, including with CIPFA's Financial Management Code.
 - 2.1.6 Consider the OPCC's and force's arrangements to secure value for money and review assurances and assessments on the effectiveness of these arrangements.
 - 2.1.7 Review the assessment of fraud risks and potential harm to the OPCC and force from fraud and corruption.
 - 2.1.8 Monitor the counter fraud strategy, actions, and resources.
 - 2.1.9 Review the governance and assurance arrangements for significant partnerships or collaborations.
- 2.2 The PCC nominates JAC to be responsible for ensuring effective scrutiny of the Capital Strategy and Treasury Management Policy.

3. Financial and governance reporting

3.1 Governance Reporting

- 3.1.1 The Committee will:

- 3.1.1.1 Review the Annual Governance Statement prior to approval by the PCC and CC and consider whether it reflects the risk environment and supporting assurances, including the head of internal audit's annual opinion.
- 3.1.1.2 Consider whether the annual evaluation for the Annual Governance Statement fairly concludes that governance arrangements are fit for purpose, supporting the achievement of the OPCC's and force's objectives.

3.2 Financial Reporting

3.2.1 The Committee will:

- 3.2.1.1 Monitor the arrangements and preparations for financial reporting to ensure that statutory requirements and professional standards can be met.
- 3.2.1.2 Review the annual statements of accounts. Specifically, to consider whether appropriate accounting policies have been followed and whether there are concerns arising from the financial statements or from the audit that need to be brought to the attention of the PCC and CC.
- 3.2.1.3 Consider the external auditor's reports to the PCC and CC on issues arising from the audit of the accounts.

3.3 Arrangements for audit and assurance

- 3.3.1 The Committee will consider the OPCC's and force's framework of assurance and ensure that it adequately addresses their risks and priorities.

4. External audit

4.1 The Committee will:

- 4.1.1 Support the independence of external audit through consideration of the external auditor's annual assessment of its independence and review of any issues raised by the Auditor General or Audit Wales.
- 4.1.2 Consider the external auditor's annual letter, relevant reports, and the report to those charged with governance.
- 4.1.3 Consider specific reports as agreed with the external auditor.
- 4.1.4 Comment on the scope and depth of external audit work and ensure it gives value for money.
- 4.1.5 Advise on commissions of additional work from external audit.
- 4.1.6 Advise and recommend on the effectiveness of relationships between external and internal audit and other inspection agencies or relevant bodies.
- 4.1.7 Provide free and unfettered access to the audit committee chair for the auditors, including the opportunity for a private meeting with JAC.

5. Internal audit

5.1 The Committee will:

- 5.1.1 Review for approval the internal audit charter.
- 5.1.2 Review proposals made in relation to the appointment of external providers of internal audit services and to make recommendations.

- 5.1.3 Review the risk-based internal audit plan, including internal audit's resource requirements, the approach to using other sources of assurance and any work required to place reliance on those sources.
- 5.1.4 Consider significant interim changes to the risk-based internal audit plan and resource requirements.
- 5.1.5 Make appropriate enquiries of both management and the head of internal audit to determine if there are any inappropriate scope or resource limitations.
- 5.1.6 Consider any impairments to the independence or objectivity of the head of internal audit arising from additional roles or responsibilities outside of internal auditing and to recommend and periodically review safeguards to limit such impairments.
- 5.1.7 Consider reports from the head of internal audit on internal audit's performance during the year, including the performance of external providers of internal audit services. These will include:
- updates on the work of internal audit, including key findings, issues of concern and action in hand because of internal audit work
 - regular reports on the results of the quality assurance and improvement programme
 - reports on instances where the internal audit function does not conform to the PSIAS, considering whether the non-conformance is significant enough that it must be included in the Annual Governance Statement.
- 5.1.8 Consider the head of internal audit's annual report, including:
- the statement of the level of conformance with the PSIAS and the results of the quality assurance and improvement programme that support the statement (these will indicate the reliability of the conclusions of internal audit)
 - the opinion on the overall adequacy and effectiveness of the joint framework of governance, risk management and control, together with the summary of the work supporting the opinion (these will assist the Committee in reviewing the Annual Governance Statement)
- 5.1.9 Consider the summaries of specific internal audit reports as requested.
- 5.1.10 Receive reports outlining the action taken where the head of internal audit has concluded that management has accepted a level of risk that may be unacceptable to the OPCC or force or where there are concerns about progress with the implementation of agreed actions.
- 5.1.11 Contribute to the quality assurance and improvement programme and to the external quality assessment of internal audit that takes place at least once every five years.
- 5.1.12 Consider a report on the effectiveness of internal audit to support the Annual Governance Statement as required by the Accounts and Audit Regulations (Wales) 2014.
- 5.1.13 Provide free and unfettered access to the audit committee chair for the head of internal audit, including the opportunity for a private meeting with the committee.

6. Accountability arrangements

- 6.1 The Committee will:

- 6.1.1 report to the PCC and chief constable on the Committee's findings, conclusions and recommendations concerning the adequacy and effectiveness of their governance, risk management, and internal control frameworks, financial reporting arrangements and internal and external audit functions.
- 6.1.2 report to the PCC and chief constable on a regular basis on the committee's performance in relation to the terms of reference and the effectiveness of the committee in meeting its purpose.
- 6.1.3 publish an annual report on the work of the Committee including a conclusion on the compliance with the CIPFA position statement.

7. General

- 7.1 The Committee will normally comprise five independent members, who are independent of both the OPCC and force. If it becomes apparent that the membership will fall below four members, recruitment will be undertaken to bring the membership up to five.
- 7.2 The quorum for the Committee will be at least 3 independent members.
- 7.3 The Committee will meet at least four times each year. Additional meetings may be arranged by exception to discuss matters of urgent concern.
- 7.4 The meetings will consist of an open session (which is held in public). If there are agenda items which cannot be discussed in an open session, a closed session will follow.
- 7.5 Training and other events take place on a periodic basis, which members are expected to attend.
- 7.6 Each member is invited to lead in an area where they have specialist knowledge and may communicate with relevant staff and officers outside of formal meetings to inform the rest of the Committee and to provide assurance to the PCC and chief constable.

OFFICERS INVITED TO JOINT AUDIT COMMITTEE

FORCE OFFICERS:	
Seb Phillips	Director of Finance and Resources
Guto Edwards	Head of Finance
Helen Williams	Financial Control Accountant
Temporary Chief Super Helen Corcoran	Corporate Services
James Sutton	Head of Business Intelligence
Anne Matthews	Finance and Budgets Officer
Philip Kenyon	Force Solicitor
OFFICE OF THE POLICE AND CRIME COMMISSIONER:	
Stephen Hughes	Chief Executive Officer
Kate Jackson	Chief Finance Officer
Angharad Jones	Executive Assistant
By Invitation	
Michelle Phoenix	Audit Wales
Helen Cargill	TIAA